

**Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro**



PLANT AC YSGOLION

**Sefydlu Ysgol Gynradd
Cyfrwng Cymraeg newydd i
blant 3-11 oed yn ardal Penfro**

ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORIAD

**Steven Richards-Downes
Prif Swyddog Addysg**

Chwefror 2020

Cyhoeddwyd gan:

**Cyngor Sir Penfro
Cyfarwyddiaeth Plant ac Ysgolion
Neuadd y Sir
Hwlfordd
SA61 1TP**

Chwefror 2020

I gael copi o'r cyhoeddiad hwn mewn
Braille, print bras neu ar dâp sain, neu
mewn iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir
Penfro ar 01437 776613

Rhagair

Mae Cyngor Sir Penfro yn gyfrifol am hyrwyddo safonau addysgol uchel ac am gyflwyno addysg gynradd ac uwchradd effeithlon. Mae cael yr ysgolion cywir yn y mannau cywir, a sicrhau eu bod yn addas i ddysgwyr yr 21ain ganrif, yn her sy'n wyneb cynghorau ar hyd a lled Cymru.

Mae ateb yr her hon yn cynnwys adolygu nifer yr ysgolion a'r math o ysgolion sydd gan y Cyngor yn ei ardal ac asesu a yw'r defnydd gorau'n cael ei wneud o'i adnoddau a'i gyfleusterau ai peidio.

Mae'r Cyngor yn adolygu ei ddarpariaeth ar sail:

- Ansawdd y ddarpariaeth addysgol a'i chynaliadwyedd yn y dyfodol
- Digonolrwydd a hygyrchedd lleoedd mewn ysgolion
- Cyflwr, addasrwydd a safon adeiladau ysgolion
- Gwerth am arian

Mae'r Adroddiad hwn ar yr Ymgynghoriad yn cyflwyno canfyddiadau'r ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd ar ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardal Penfro ac, yn benodol, sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd i blant 3-11 oed. Caiff yr holl ymatebion a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori eu cofnodi, ynghyd â chrynodeb o bob un o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion. Mae eglurhad neu wrthodiad (fel y bo'n briodol) o unrhyw bryderon yn cyd-fynd â'r rhain.

Bydd Cyngor Sir Penfro yn ystyried yr Adroddiad hwn ar yr Ymgynghoriad yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2020.

Steven Richards-Downes
Prif Swyddog Addysg

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Dosbarthu'r Adroddiad ar yr Ymgynghoriad	2
3. Trefniadau'r Ymgynghoriad	3
3.1. Trefniadau Cyffredinol	
3.2. Cyfarfodydd Rhanddeiliaid	
4. Gohebiaeth yr Ymgynghoriad	3
4.1. Nifer a Phroffil yr Ymatebion a gafwyd	
4.2. Ymateb gan Estyn	
5. Ymatebion i'r Ymgynghoriad	5
5.1. Y consensws cyffredinol	
5.2. Barn rhieni	
5.3. Barn ymatebwyr sy'n uniaethu ag ysgolion unigol	
5.4. Barn disgyblion	
5.5. Dadansoddiad o'r sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad	
5.6. Nodi themâu sy'n deillio o'r ymgynghoriad	
ATODIAD A – Ymateb gan Estyn	13
ATODIAD B – Gohebiaeth a gafwyd	16

1. Cyflwyniad

Mae dyletswydd statudol ar Gyngor Sir Penfro i sicrhau bod lleoedd ysgol digonol ac addas yn ei ardal ac i benderfynu a yw'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau a chyfleusterau i ddarparu'r cyfleoedd y mae plant yn eu haeddu.

Yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (2017-2020) presennol y Cyngor, amlygwyd bod Penfro a Doc Penfro yn ardaloedd twf posibl o ran darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ac, yn dilyn hynny, cynhaliwyd arolwg i amlygu'r angen yn ystod haf 2019. Cyflwynwyd canlyniad yr arolwg hwn, ynghyd â dewis hanesyddol a phresennol rhieni o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg i'r cyngor sir ar 18 Gorffennaf 2019, gydag argymhelliad y dylid ymgynghori ar gynnig i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd i blant 3-11 oed yn ardal Penfro a Doc Penfro.

Roedd penderfyniad Cyngor Sir Penfro ar 18 Gorffennaf 2019 fel a ganlyn:

Rhoi cymeradwyaeth i'r Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion ymgymryd ag ymgynghoriad statudol ar y canlynol:

- i. Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd i blant 3-11 oed i wasanaethu ardaloedd Penfro a Doc Penfro, a
- ii. Newid cyfrwng yr addysgu yn Ysgol Gelli Aur / Golden Grove School fel bod yr holl addysgu'n cael ei gynnal trwy gyfrwng y Saesneg.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol dilynol rhwng 14 Tachwedd 2019 a 31 Rhagfyr 2019.

Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli cyfrifoldeb y Cyngor Sir fel rhan o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i gyhoeddi Dogfen Ymgynghorol. Mae'r ddogfen hon:

- Yn crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion;
- Yn ymateb i'r materion hyn trwy egluro neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau ategol, ac
- Yn amlinellu barn Estyn am rinweddau cyffredinol y cynnig.

2. Dosbarthu'r Adroddiad ar yr Ymgynghoriad

Bydd yr Adroddiad hwn ar yr Ymgynghoriad yn cael ei ddosbarthu i'r canlynol:

Cyrff Llywodraethu/Cyrff Llywodraethu Dros Dro, Rhieni/Gofalwyr/Gwarcheidwaid a staff:	
• Ysgol Gelli Aur/Golden Grove School • Ysgol Wirfoddol a Reolir Cosheston • Ysgol Gynradd Gymunedol Llandyfái • Ysgol Wirfoddol a Reolir Penrhyn • Ysgol Gymunedol Pennar	• Ysgol Gymunedol Doc Penfro • Ysgol Gymunedol Priordy Cil-maen • Ysgol Harri Tudur • Ysgol Hafan y Môr • Ysgol Caer Elen • Ysgol y Preseli
• Angela Burns AC – Etholaeth • Helen Mary Jones AC – Rhanbarthol • Joyce Watson AC – Rhanbarthol • Eluned Morgan AC – Rhanbarthol • Neil Hamilton AC – Rhanbarthol • Simon Hart AS • Y Cyng. A Brinn • Y Cyng. S Alderman	• Y Cyng. T Hodgson • Y Cyng. P Llewelyn • Y Cyng. J Harvey • Y Cyng. A Carey • Y Cyng. A Wilcox • Y Cyng. B Hall • Y Cyng. P Dowson • Y Cyng. J Beynon
• NUT • NASUWT • UCAC • NEU • ATL • NAHT • ASCL • UNSAIN • GMB	Y Cynghorau Tref neu Gymuned canlynol: • Cosheston • Doc Penfro • Penfro • Hundleton • Angle • Ystagbwl a Chastellmartin • Llandyfái
Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol: • Tyddewi • Mynyw	• Cyngor Sir Caerfyrddin • Cyngor Sir Ceredigion
• Gweinidogion Cymru • Estyn • Comisiynydd y Gymraeg • ERW – Consortiwm Addysg Rhanbarthol	• Mudiad Ysgolion Meithrin • Menter Iaith Sir Benfro • Urdd Gobaith Cymru • Dysgu Sir Benfro (Cymraeg i Oedolion)
Darparwyr gofal plant/blynyddoedd cynnar annibynnol/gwirfoddol	Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys

Yn ogystal, caiff yr adroddiad hwn ei ddosbarthu i'r holl ymgynghoreion sydd wedi gofyn yn benodol am gael gwybod bod yr adroddiad ar gael.

3. Trefniadau'r Ymgynghoriad

3.1 Trefniadau Cyffredinol

Cyhoeddwyd y Ddogfen Ymgynghori ar 14 Tachwedd 2019; y dyddiad hwn hefyd oedd dechrau'r cyfnod ymgynghori statudol. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 31 Rhagfyr 2019. Dosbarthwyd/anfonwyd dolenni i'r Ddogfen Ymgynghori i'r holl ymgynghoreion statudol sydd wedi'u rhestru ar Dudalen 5 y ddogfen honno.

Roedd y Ddogfen Ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor Sir, ar <https://www.sir-benfro.gov.uk/dweud-eich-dweud>.

3.2 Cyfarfodydd i Randdeiliaid

Trefnwyd y cyfarfodydd canlynol gyda rhanddeiliaid:

Staff, Llywodraeth a Rhieni

Dydd Llun 25 Tachwedd 2019 – Ysgol Gelli Aur/Golden Grove CP School

Staff – 16:00

Corff Llywodraethu – 17:30

Rhieni – 19:00

Sesiwn “Galw Heibio” Cymunedol

Dydd Mercher 11 Rhagfyr 2019 – Neuadd y Dref Penfro

09:00 – 19:00

4. Gohebiaeth yr Ymgynghoriad

4.1 Nifer a Phroffil yr Ymatebion a Gafwyd

Cafwyd cyfanswm o 336 o ymatebion drwy'r ddolen ar y we, ffurflenni ymateb cyffredinol ac “addas i ddisgyblion”, negeseuon e-bost a llythyron. Mae'r dadansoddiad fel a ganlyn:

Dolen ar y we / ffurflenni copi caled	327
Llythyron / negeseuon e-bost	2
Cynghorau Ysgol	7
CYFANSWM	336

Rhoddir proffil yr ymatebwyr isod ac mae'n adlewyrchu'r holl ddisgrifiadau a roddwyd. Mae'r proffil hwn yn dangos rôl ymatebwyr fel rhan o'r ymgynghoriad a gall ddangos rolau lluosog, e.e. rhiant, staff a phreswlydd lleol; o ganlyniad, nid yw'r cyfanswm yn cyfateb i gyfanswm nifer yr ymatebion a gafwyd.

Proffil	Nifer
Rhiant cyn-ysgol	27
Rhieni	136
Staff	57
Llywodraethwyr	17
Preswylwyr	119

O ran rhieni cyn-ysgol a rhieni presennol, mae'r tabl canlynol yn dangos yr ysgolion yr oedd y grwpiau hyn yn uniaethu â nhw.

Ysgol	Nifer	%
Ysgol Gelli Aur/Golden Grove	60	36.8%
Ysgol Caer Elen	23	14.1%
Ysgol Harri Tudur / Henry Tudor	22	13.5%
Doc Penfro	12	7.4%
Ysgol y Preseli	10	6.1%
Llandyfái	4	2.5%
Ysgol Gymunedol Pennar	2	1.2%
Ysgol Wirfoddol a Reolir Penrhyn	2	1.2%
Priordy Cil-maen	1	0.6%
Ysgol Wirfoddol a Reolir Cosheston	1	0.6%
Gadawyd yn wag	26	16%
CYFANSWM	163	

4.2 Ymateb gan Estyn

Mae'r Cyngor Sir wedi cael ymateb manwl i'r cynnig gan Estyn. Mae ei gasgliad cyffredinol ynghylch y cynnig fel a ganlyn:

Mae'r cynnig yn cyd-fynd ag amcan Llywodraeth Cymru, sef cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr), trwy gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg yn ardal Penfro a Doc Penfro.

Mae'r cynnig yn gyson ag amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Penfro.

Mae'r cyngor wedi ystyried ystod o opsiynau'n briodol ac wedi dewis y cynnig uchod.

Mae Estyn o'r farn bod y cynnig hwn o leiaf yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol.

Mae ymateb llawn Estyn i'r cynnig ynghlwm yn **ATODIAD A**.

5. Ymatebion i'r Ymgynghoriad

5.1 Y Consensws Cyffredinol

Lle y dewisodd ymatebwyr ddefnyddio'r ffurflen ar-lein neu'r copi caled a ddarparwyd, gofynnwyd iddynt ymateb i un cwestiwn er mwyn sefydlu pa un o'r datganiadau canlynol a oedd yn adlewyrchu eu barn orau. Mae'r canfyddiadau fel a ganlyn:

*Nodwch pa un o'r canlynol sy'n adlewyrchu eich barn ar y cynnig:
Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn ardal Penfro*

	Cyfanswm	
	Nifer	%
Nid wyf yn teimlo'n gryf y naill ffordd neu'r llall	10	3.1%
Rwy'n cefnogi'r cynnig	173	52.9%
Nid wyf yn cefnogi'r cynnig	144	44%
CYFANSWM	327	

Mae'n dda gweld yr ymateb sylweddol i'r ymgynghoriad hwn a bod mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig.

5.2 Barn rhieni

Roedd yr ymatebion gan rieni i'r ymgynghoriad (gan gynnwys rhieni cyn-ysgol) yn dangos safbwynt cytbwys fel a ganlyn:

	Cyn-ysgol	Rhieni	Pob rhiant
Yn cefnogi	15	65	80
Ddim yn cefnogi	12	67	79
Amwys	0	4	4

5.3 Barn ymatebwyr a oedd yn uniaethu ag ysgolion unigol

O ran pob grŵp o ymatebwyr a nododd ddiddordeb mewn ysgol unigol, mae'r wybodaeth ganlynol yn berthnasol:

	Ysgol Gelli Aur		Ysgolion cynradd eraill yn yr ardal		Ysgol Harri Tudur		Ysgol Caer Elen ac Ysgol y Preseli	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Yn cefnogi	30	38%	9	31%	7	22%	72	89%
Ddim yn cefnogi	46	59%	20	69%	23	72%	4	5%
Amwys	2	3%	0	0%	2	6%	5	6%

5.4 Barn disgyblion

Cafwyd ymatebion gan ddisgyblion o saith ysgol, yr oedd rhai ohonynt yn Gynghorau Ysgol; ar sail pleidlais syml a gynhaliwyd ym mhob ysgol, roedd y canfyddiadau fel a ganlyn:

Ysgol	Yn cefnogi	Ddim yn cefnogi	Amwys
P1 – Gelli Aur Ffrwd Gymraeg	10	0	0
P1 – Gelli Aur Ffrwd Saesneg	0	11	2
P2 – Ysgol Harri Tudur	2	24	1
P3 – Pennar	0	3	4
P4 – Llandyfái	5	2	5
P5 – Doc Penfro	22	30	24
P6 – Hafan y Môr	25	2	1
P7 – Ysgol Caer Elen	29	1	4

5.5 Dadansoddiad o'r sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad

Mae rhestr o'r holl sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ynghlwm yn **ATODIAD B**.

Mae'r ohebiaeth a gafwyd yn datgelu nifer o faterion yr oedd ymgynghoreion wedi'u codi. Mae'r rhain yn adlewyrchu cefnogaeth, meysydd pryder, cynigion eraill a gwrthwynebiad, ac fe'u rhestrir isod.

5.5.1 Sylwadau o blaid y cynnig

- Cydnabod materion strategol a diwylliannol yn gysylltiedig â'r Gymraeg, h.y.
 - Dylai'r holl blant yng Nghymru gael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg;
 - Mae angen i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg fod yn gyfartal â'r ddarpariaeth Saesneg;
 - Cyflawni'r dyhead am filiwn o siaradwyr Cymraeg;
 - Yr angen i hybu Cymreictod yn gyffredinol;
 - Yr angen i ystyried cyflogadwyedd a dewis dysgwyr yn y dyfodol;
 - Cyfraniad tuag at fwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Sir Benfro fel rhan o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg;
 - Pwysig manteisio ar grant cyfalaf Llywodraeth Cymru
- Materion sy'n benodol i dde Sir Benfro a'r sir yn gyffredinol, h.y.
 - Mae'r cynnig yn cynrychioli darpariaeth y mae ei hangen yn fawr yn yr ardal ac mae'n cynrychioli mwy o ddewis i rieni;

- Mae gormod o agweddau negyddol tuag at yr iaith yn yr ardal;
 - Ac eithrio Ysgol Hafan y Môr, mae de'r sir wedi'i esgeuluso i raddau helaeth o safbwynt darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
 - Mae'n rhy bell i deithio i Ysgol Caer Elen neu Ysgol Hafan y Môr i gael darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar ei ben ei hun;
 - Byddai'r ysgol newydd, pe bai'n cael ei sefydlu, yn ganolbwynt cymunedol pwysig i'r iaith yn yr ardal;
 - Mae'r cyfnod cynradd yn Ysgol Caer Elen yn llawn;
 - Mae'n bwysig sicrhau nifer digonol o ddisgyblion ar gyfer y cyfnod uwchradd yn Ysgol Caer Elen.
- Materion yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth bresennol yn yr ardal, h.y.
 - Mae angen profiad trochi cyfrwng Cymraeg;
 - Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn lleoliad dwy ffrwd yn anodd, a hynny mwy fyth mewn ardal Saesneg ei hiaith yn bennaf;
 - Bydd profiad trochi yn cynorthwyo rhieni yn well ac yn annog ehangu addysg cyfrwng Cymraeg;
 - Ystyriir bod Ysgol Gelli Aur / Golden Grove School yn ysgol cyfrwng Saesneg gyda'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ychwanegiad, gan gynnwys cyfeiriadau at adroddiad Estyn ar yr ysgol;
 - Mae buddion i ddisgyblion yn y ffrwd Gymraeg o fod yn rhan o ysgol fwy, e.e. cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys chwaraeon tîm, cynrychiadau drama/cerddoriaeth, cerddorfa;
 - Mae pwysau cyfoedion (Saesneg) yn arwyddocaol mewn ysgol dwy ffrwd;
 - Mae'r grwpiau blwyddyn cymysg yn yr ysgol yn broblem;
 - Mae'n bwysig nad yw'r argraff yn cael ei rhoi bod Ysgol Gelli Aur yn ysgol sy'n methu o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
 - Mae'n bwysig sicrhau nad yw Cymraeg ail iaith yn yr ysgol yn dirywio os rhoddir y cynnig ar waith;
 - Mae'n bwysig bod disgyblion sy'n trosglwyddo o ardal Penfro i Ysgol Caer Elen ym Mlwyddyn 7 yn gyfartal â'r rhai sy'n trosglwyddo o gyfnod cynradd yr ysgol honno, h.y. eu bod wedi cael profiad o drochi yn y Gymraeg.
- Materion sy'n awgrymu cefnogaeth amodol
 - Mae angen buddsoddi yn Ysgol Gelli Aur os bydd yn colli ei ffrwd Gymraeg, neu mae'n annheg fel arall;
 - Mae Ysgol Gelli Aur yn elwa o ardaloedd chwarae helaeth – mae'n bwysig bod yr un peth ar gael ar safle newydd;
 - Cynnal safonau sy'n allweddol, o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg;
 - Mae pennaeth Cymraeg ei iaith yn bwysig, fel y mae datblygu ethos Cymreig i'r ysgol. Fodd bynnag, mae pryderon am argaeledd staff Cymraeg eu hiaith;
 - Mae pryderon am y safle sy'n cael ei ffafrio, yn benodol o ran traffig a pha mor agos y bydd i ddarpariaeth Green Links yn Bush Farm. Mewn

rhai achosion, roedd ymatebwyr yn annog y Cyngor i chwilio am safle arall i'r ysgol, gan gynnwys ystyried hen Ysgol Gatholig y Santes Fair yn Noc Penfro.

5.5.2 Sylwadau yn erbyn y cynnig:

- Nid oes angen y cynnig oherwydd:
 - Mae yna ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn barod – mae'r ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Gelli Aur yn ddigonol ac nid oes angen newid;
 - Mae dwy ffrwd yn gweithio'n dda ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar y ffrwd Saesneg; mae hyn yn dylanwadu ar berfformiad da mewn Cymraeg ail iaith;
 - Bydd y cynnig yn arwain at wagio disgyblion o'r ysgol wrth iddynt fynd i'r ysgol newydd, gan gael effaith niweidiol ar Ysgol Gelli Aur ac ysgolion eraill yn yr ardal. Hefyd, bydd yn effeithio ar broffil prydau ysgol am ddim y disgyblion yn yr ysgolion hyn;
 - Nid oes galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal;
 - Mae'r iaith yn marw – pam buddsoddi mewn iaith sy'n marw?
 - Ardal Saesneg ei hiaith yw hi'n bennaf – ychydig neu ddim siaradwyr Cymraeg sydd yn yr ardal;
 - Mae gormod o arian yn cael ei fuddsoddi yn y Gymraeg – buddsoddwch mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn lle hynny;
 - Mae'r cynnig yn elitaidd – byddai ysgol Gymraeg ar ei phen ei hun yn peri rhwyg ac annog gwahanu
 - Mae dwyieithrwydd yn nodwedd o'r cwricwlwm newydd, felly mae'r cynnig yn ddiangen.
- Dylai Llywodraeth Cymru/y Cyngor fod â blaenoriaethau uwch:
 - Mae ysgolion Sir Benfro ymhlith y gwaethaf yng Nghymru, gyda nifer mawr ohonynt mewn mesurau arbennig neu yn y categori cymorth coch;
 - Mae safonau mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn wael a dylid blaenoriaethu hynny cyn ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- Dylai'r arian gael ei flaenoriaethu rhywle arall:
 - Dylai'r arian cyfalaf gael ei fuddsoddi yn Ysgol Gelli Aur neu mewn ysgolion lleol eraill;
 - Dylai'r arian gael ei ddefnyddio i gynyddu'r cyllid refeniw a roddir i ysgolion yn Sir Benfro, neu ei fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill, e.e. ADY, iechyd a lles, gwasanaethau iechyd meddwl, Ysbyty Llwynhelyg.
- Sylwadau yn gysylltiedig â'r safle dewisol:
 - Bydd y safle dewisol wrth ymyl Ysgol Harri Tudur yn ychwanegu at y tagfeydd traffig sylweddol sydd yn yr ardal yn barod;

- Mae'r safle dewisol wrth ymyl Old Bush Farm, sy'n gartref i Green Links – byddai'n amhrïodol i blant ysgol gynradd fod mor agos ato;
- Mewn nifer bach o achosion, teimlwyd y byddai'r cynnig yn peryglu darpariaeth Green Links.
- Sylwadau yn gysylltiedig â'r amgylfrediad o'r effaith ar yr ardal leol:
 - Bydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar Ysgol Harri Tudur / Henry Tudor School oherwydd bydd llai o ddoniau'n ymuno â'r ysgol honno;
 - Mae'r cynnig yn annheg ar blant a theuluoedd a drosglwyddodd i Ysgol Gelli Aur (ffrwd Gymraeg) yn sgil uno'r ysgolion ar benrhyn Angle; bydd ysgol newydd yn golygu eu bod nhw'n trosglwyddo eto i ysgol arall.
- Pryderon amgylcheddol:
 - Bydd adeiladu ysgol newydd arall yn niweidio'r amgylchedd;
 - Mae'r cynnig yn cynyddu'r effaith amgylcheddol, oherwydd bydd angen i fwy o ddisgyblion deithio ymhellach i gael darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg;
 - Mae'r safle arfaethedig o fewn ardal gadwraeth.

5.5.3 Opsiynau amgen a ddarparwyd

Mae'r opsiynau amgen canlynol yn cynrychioli'r opsiynau a gynigiwyd gan ymatebwyr o blaid ac yn erbyn y cynnig:

- Yn hytrach nag adeiladu ysgol newydd ym Mhenfro, lle ceir darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn barod, beth am adeiladu yn Aberdaugleddau, neu mewn mannau eraill lle nad oes darpariaeth?
- Ychwanegu ffrydiau Cymraeg at ysgolion cynradd eraill yn yr ardal;
- Cadw Ysgol Gelli Aur fel y mae, ond darparu cludiant i ddisgyblion sydd eisiau addysg cyfrwng Cymraeg o ardal ehangach;
- Darparu cludiant i ddisgyblion sydd eisiau darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ysgolion eraill;
- Dylai'r cynnig fod yn defnyddio hen Ysgol Gatholig y Santes Fair yn Noc Penfro;
- Dylai'r arian gael ei ddefnyddio yn hytrach i adnewyddu un o'r adeiladau ysgol gwag niferus sydd eisoes yn bodoli yn yr ardal;
- Mae angen i gwmpas y cynnig fod yn ehangach a dylai fod ar gyfer ysgol i blant 3-16 oed.
- Dylai'r ysgol newydd fod i ddisgyblion newydd yn unig. Dylai disgyblion ar gofrestr y ffrwd Gymraeg yn Ysgol Gelli Aur aros yn yr ysgol honno hyd nes byddant yn gadael yr ysgol.
- Newid Ysgol Gelli Aur yn ysgol cyfrwng Cymraeg – dim angen adeilad newydd;
- Sefydlu ffrwd Gymraeg yn Ysgol Harri Tudur / Henry Tudor School.

5.6 Nodi themâu sy'n deillio o'r ymgynghoriad

Cynhaliwyd dadansoddiad ansoddol o'r sylwadau hyn ac mae hwn yn datgelu nifer o themâu, y rhoddir rhestr fanwl ohonynt isod ynghyd ag ymatebion priodol yr Awdurdod. Nod y dadansoddiad oedd dal, dehongli a chyflwyno amgyffrediad y cyhoedd yn gysylltiedig â'r cynnig, a hynny mor ffyddlon â phosibl. Rhoddwyd yr un pwys ar yr holl sylwadau, ni waeth beth yw eu ffynhonnell, na helaethder y cynnwys. Dylid nodi bod rhai o'r sylwadau isod wedi'u mynegi yng nghyd-destun cefnogaeth a gwrthwynebiad i'r cynnig. Enghraifft o hyn yw pan fydd cytundeb mewn egwyddor i'r cynnig, ond pryderon ynghylch y safle sy'n cael ei ffafrio ar gyfer yr ysgol newydd. Yn yr un modd, lle y nododd ymatebwyr eu gwrthwynebiad, gallai rhai o'r opsiynau eraill a gynigiwyd awgrymu bod y rhain yn cael eu ffafrio yn lle hynny.

Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i Bryderon a Godwyd
Mae'r cynnig yn ddiangen gan fod y ddarpariaeth dwy ffrwd yn Ysgol Gelli Aur yn ddigon ar gyfer y galw yn yr ardal. Mae Penfro yn ardal Saesneg ei hiaith ac wedi bod erioed. Mae'r cynnig yn elitaidd ac yn peri rhwyg. Cadwch y sefyllfa fel y mae hi.	Cydnabyddir bod ardal Penfro yn ardal Saesneg ei hiaith yn bennaf, gyda rhai'n arddel disgrifiad o 'Little England beyond Wales'. Nid yw'r cynnig yn ceisio peri rhwyg trwy wahaniaethu yn erbyn teuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg, nac eithrio unrhyw aelodau o'r gymuned o'u cymuned leol mewn unrhyw ffordd. I'r gwrthwyneb, mae'r cynnig hwn yn mynd ati i roi'r cyfle i fwy o blant ddod yn gwbl ddwyieithog a meddu ar y sgiliau i allu darllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg a Saesneg erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd. Mae'n bwysig nodi bod tua 90% o'r 193 o ddisgyblion sydd ar gofrestr Ysgol Hafan y Môr, Dinbych y Pysgod, ar hyn o bryd yn dod o gartrefi nad ydynt yn siarad Cymraeg. O ran perthnasedd arwyddocaol i'r cynnig hwn, ac er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019, bydd yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi cynllun deng mlynedd ar sut bydd yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio, cyflwyno a thyfu addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd hwn yn gonglfaen i gyfraniad y Cyngor tuag at strategaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050; mae'r sylfaen a osodir gan ffrwd Gymraeg Ysgol Gelli Aur a'r cynnig ar gyfer ehangu ym Mhenfro yn rhan o gyfraniad y Cyngor tuag at y dyhead hwnnw.
Ar sail bod y cynnig yn ddiangen, defnyddiwr yr arian gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r ysgolion sydd gennym yn barod neu wasanaethau lleol eraill sydd wedi'u torri i'r byw oherwydd llymder. Mae gan y sir anghenion mwy ar hyn o bryd, e.e. perfformiad ei hysgolion uwchradd, Ysbyty Llwynhelyg, gwasanaethau iechyd meddwl ac anghenion dysgu ychwanegol.	Mae'r cyllid grant y mae'r Cyngor wedi gwneud cais amdano yn gyllid i gefnogi buddsoddiad cyfalaf i hwyluso'r twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg a defnyddio'r Gymraeg yn unig – ni ellir ei ddefnyddio fel gwariant refeniw. Yn ôl y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, mae'r gwahaniaeth sylfaenol rhwng cyllid cyfalaf a chyllid refeniw fel a ganlyn: Cyfalfaf – dyma draul a wneir yn sgil buddsoddi mewn adeiladau, seilwaith a darnau drud o offer. Mae gwariant cyfalaf gan gynghorau'n cael ei ddefnyddio'n bennaf i brynu, adeiladu neu wella asedau ffisegol, fel adeiladau, tir, cerbydau, offer a pheiriannau.

Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i Bryderon a Godwyd				
	Refeniw – yw'r gair sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r swm mae cyngor yn ei wario ar gynnal gwasanaethau o ddydd i ddydd.				
Ar sail bod y cynnig yn ddiangen, defnyddiwch yr arian gan Lywodraeth Cymru i ariannu gwelliannau cyfalaf i ysgolion cynradd eraill yn yr ardal. Mae gormod o arian yn cael ei fuddsoddi yn y Gymraeg – dylai gael ei fuddsoddi mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn lle hynny.	Mae'r cyllid grant y mae'r Cyngor wedi gwneud cais amdano yn gyllid i gefnogi buddsoddiadau cyfalaf sy'n hwyluso twf mewn addysg Cyfrwng Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg. Mae wedi'i anelu'n benodol at brosiectau cyfalaf a fydd yn cyfrannu'n eglur at gyrraedd nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Roedd yn ofynnol i'r Cyngor gyflwyno achos busnes manwl i Lywodraeth Cymru a oedd yn darparu manylion yr opsiynau a ystyriwyd; yn ogystal â'r cynnig, roedd y rhain yn cynnwys ymestyn ac adnewyddu Ysgol Gelli Aur, ymestyn ac adnewyddu hen safle ysgol (Ystangbwl) ac adnewyddu hen ysgol gynradd (Canolfan Dechrau'n Deg ym Mhennar). Cafodd pob un o'r opsiynau hyn eu rhoi i'r neilltu ac roedd eu manylion wedi'u cynnwys ar dudalennau 29 i 30 y Ddogfen Ymgynghori.				
	O ran y farn bod gormod o arian yn cael ei fuddsoddi mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, h.y. ar draul ysgolion cyfrwng Saesneg, mae dadansoddiad o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor, o ran gwariant gwirioneddol a symiau wedi'u cyllidebu ar draws Bandiau A a B, yn datgelu bod tuag 80% o gyfanswm y gwerth wedi/yn cael ei fuddsoddi mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. O ran Band A, roedd 34.5% o'r cyfanswm wedi'i fuddsoddi yn ardal ehangach Penfro. Nid oes unrhyw dystiolaeth felly i gefnogi'r canfyddiad bod ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi cael lefel fwy ffafriol o fuddsoddiad.				
	Categoriâu laith yr Ysgol	Cyfrwng Saesneg	Saesneg â defnydd sylweddol o'r Gymraeg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfanswm
	Prosiect	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn
	Ysgol Gynradd Aber Llydan	2.5			
Ysgolion Dinbych-y-pysgod*	9.6				
Johnston	6.1				

Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i Bryderon a Godwyd				
	Gelliswick	12.0			
	Harri Tudur	38.3			
	Ysgol Wirfoddol a Reolir Penrhyn	3.8			
	Ysgol Bro Gwaun		14.7		
	Ysgol Caer Elen			28.1	
	Waldo Williams	2.5			
	CYFANSWM BAND A	79.0	14.7	28.1	121.8
		65%	12%	23%	
	Ysgol Uwchradd Hwlfordd	48.7			
	Ysgol Uwchradd Aberdaugleddau	36.6			
	Ysgol Gynradd Aberdaugleddau	9.0			
	Ysgol Portfield**				
	Canolfan Ddysgu Sir Benfro**				
	CYFANSWM BAND B**	94.3	-	-	94.3
		100%	0%	0%	
	CYFANSWM Y RHAGLEN	173.3	14.7	28.1	216.1
		80%	7%	13%	
* Mae ysgolion Dinbych-y-pysgod yn cyfeirio at Ysgol Wirfoddol a Reolir Dinbych-y-pysgod ac Ysgol Hafan y Môr. Fel ysgol newydd, gwnaed mwyafrif helaeth y buddsoddiad yn Ysgol Wirfoddol a Reolir Dinbych-y-pysgod (cyfrwng Saesneg) ** Mae'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys ar gyfer Band B yn amcangyfrifon yn unig ac yn debygol o newid wrth i waith pellach i benderfynu ar hyfywedd fynd yn ei flaen ac yn sgil prosesau achos busnes dilynol. Nid yw ffigurau yn gysylltiedig ag Ysgol Portfield					

Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i Bryderon a Godwyd
	a Chanolfan Dysgu Sir Benfro wedi'u cynnwys gan nad oes gan y sefydliadau hyn gategorïau iaith dynodedig.
Ar sail bod yna ddarpariaeth Gymraeg ym Mhenfro yn barod, defnyddiwch yr arian cyfalaf i adeiladu ysgol rhywle arall, er enghraifft lle nad oes darpariaeth bresennol. Byddai adeiladu ysgol newydd yn Aberdaugleddau yn synhwyrol.	Cydnabyddir bod ardaloedd eraill yn Sir Benfro heb ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o gwbl ar hyn o bryd, gan gynnwys Aberdaugleddau. Mae sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Aberdaugleddau yn debygol o gael ei ystyried fel rhan o'r gwerthusiad o opsiynau gyda'r achos busnes ar gyfer buddsoddiad Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gyfer Ysgol Gynradd Gymunedol Aberdaugleddau. O ganlyniad, pe bai darpariaeth o'r fath yn hyfyw, gallai cynnig gael ei gyflwyno i'r Cyngor ei ystyried. Dylid nodi bod yr achos busnes sydd wedi arwain at gael cynnig grant cyfalaf wedi'i seilio ar sefydlu ysgol newydd ar safle newydd ym Mhenfro ac nid rhywle arall. Roedd y dadleuon a ystyriwyd gan Lywodraeth Cymru o blaid buddsoddi ym Mhenfro yn gysylltiedig â darpariaeth dwy ffrwd hirsefydledig yn y dref a bod hyn yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer ehangu i ddarpariaeth lwyddiannus ar ei phen ei hun; mae hyn yn arwyddocaol, yn enwedig yng nghyd-destun y twf sy'n ofynnol i fodloni cyfraniad Sir Benfro tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
Bydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar Ysgol Gelli Aur ac ysgolion eraill yn yr ardal. Bydd nifer y disgyblion yn gostwng yn yr ysgolion hynny, gan felly greu lleoedd dros ben a fydd, yn ei dro, yn arwain at gynigion i gau ysgolion. Bydd y cynnig hefyd yn cael effaith niweidiol ar broffil ysgolion presennol o ran Prydau Ysgol am Ddim. Mae amgylfrediad y bydd hyn wedyn yn arwain at lai o ddoniau mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai ffrydiau	Nod y cynnig yw creu dewis ychwanegol i rieni wrth ddewis naill ai darpariaeth cyfrwng Saesneg neu ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar ei phen ei hun i'w plant. Dewis rhieni sy'n dylanwadu ar boblogaeth y disgyblion mewn ysgol ac mae'n anochel y bydd ysgolion yn mynd o ysgolion eraill i'r ysgol newydd (os caiff ei chymeradwyo). Os dyma'r achos, bydd angen i'r awdurdod fonitro'r sefyllfa a gweithredu yn unol â hynny. O ran perthnasedd arwyddocaol i'r cynnig hwn, ac er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019, bydd yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi cynllun deng mlynedd ar sut bydd yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio, darparu a thyfu addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd hwn yn gonglfaen i gyfraniad y Cyngor tuag at strategaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050; mae'r cynnig ar gyfer Penfro yn rhan o gyfraniad y Cyngor tuag at yr uchelgais hwnnw.

Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i Bryderon a Godwyd
Cymraeg gael eu hychwanegu at ysgolion eraill yn y clwstwr, gan gynnwys Ysgol Harri Tudur.	O ran yr awgrym y dylai ffrydiau Cymraeg gael eu hychwanegu at yr ysgolion eraill yn y clwstwr, ystyrir y byddai hyn yn gostus iawn ac yn aneffeithiol; i bob diben, byddai angen i bob ysgol ddyblu'i darpariaeth, o'r dosbarth meithrin i flwyddyn 6. Byddai cam o'r fath yn gofyn bod gan bob ysgol ethos llawer mwy Cymreig a'r gallu i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, h.y. nid Cymraeg ail iaith. Ar sail y dyhead i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ystyrir mai'r ffordd orau o fynd i'r afael â hyn yw trwy sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg ar ei phen ei hun.
Mae'r ddarpariaeth dwy ffrwd yn Ysgol Gelli Aur yn gweithio'n dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar ffrwd Saesneg yr ysgol, gan felly hyrwyddo dwyieithrwydd. Mae disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn cyrraedd safonau da o ran Cymraeg ail iaith. Ni all cyflawni targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg gael ei wneud trwy greu ysgolion cyfrwng Cymraeg – mae angen iddo dargedu plant Cymraeg ail iaith ac, felly, byddai'n well cael darpariaeth dwy ffrwd lle mae disgyblion Saesneg yn elwa o glywed y Gymraeg yn cael ei siarad.	Mae'r farn y gall presenoldeb disgyblion cyfrwng Cymraeg gael effaith gadarnhaol ar ffrwd Saesneg yr ysgol yn cael ei chydabod; ar sail bod disgyblion yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o Gymraeg ail iaith yn yr ysgol, mae hyn yn cyfateb i 84% yn 2019, gyda chyfartaledd o oddeutu 80% dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw'r lefel hon o gyrhaeddiad yn annhebyg i nifer o ysgolion eraill, y mae'r rhan fwyaf ohonynt heb ffrwd Gymraeg a rhai ohonynt â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn awgrymu y dylai'r ysgol allu cynnal y lefel hon o gyrhaeddiad gan ddisgyblion os rhoddir y cynnig ar waith, h.y. heb ffrwd Gymraeg. Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysgu (Cymru) 2019 yn cynnwys gofynion i awdurdodau lleol baratoi cynllun strategol deng mlynedd (2021 - 2030) a fydd yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio, darparu a thyfu addysg cyfrwng Cymraeg; felly, bydd awdurdodau'n gallu cyfrannu'n sylweddol at Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Ymhlith eraill, bydd targedau lleol o fewn yr amserlen uchod yn mynnu ymrwymiad i gynyddu canran y dysgwyr ym mhob blwyddyn ysgol sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2031. Mae'n bwysig nodi bod y targedau a ddisgwyli'r awdurdodau lleol wrth sicrhau'r cynnydd hwn yn dargedau sy'n ofynnol yn y sector cyfrwng Cymraeg, yn hytrach na Chymraeg ail iaith. Yn Sir Benfro, mae'r targed hwn yn seiliedig ar gynyddu nifer y dysgwyr Blwyddyn 1

Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i Bryderon a Godwyd
	sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, neu yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg, o fan cychwyn o 19.9% yn 2017/2018 (CYBLD 2018) i 30% - 34% yn 2030; mae hyn yn cyfateb i gynnydd o oddeutu 100 yn nifer y disgyblion. Er bod ffocws clir ar gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais hefyd i drawsnewid sut rydym yn addysgu'r Gymraeg i bob dysgwr i sicrhau bod o leiaf 70% o'r dysgwyr hynny'n dweud erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol.
Nid yw'r safle a ddewiswyd ar gyfer yr ysgol arfaethedig yn addas. Mae'r traffig a'r tagfeydd yn agos iawn at Ysgol Harri Tudur yn sylweddol a bydd ychwanegu ysgol newydd yn y cyffiniau ond yn gwaethygu'r sefyllfa. Hefyd, mae'r safle dewisol wrth ymyl darpariaeth Green Links yn Old Bush Farm. Ystyrir ei bod hi'n amhriodol bod plant ysgol gynradd ifanc mor agos at y ddarpariaeth hon.	Mae'r Awdurdod wedi cynnal asesiad manwl o safleoedd y mae'r Cyngor yn berchen arnynt yn yr ardal cyn ystyried mai tir yn Old Bush Farm oedd y safle dewisol. Diben hyn oedd cael gwybod p'un a oedd y tir wedi'i leoli'n briodol, yn addas ac â'r arwynebedd cywir ar gyfer yr ysgol, h.y. sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Bwletin Adeiladu 1999 Llywodraeth Cymru. At hynny, pwrpas cyfyngu'r opsiynau i safleoedd y mae'r Cyngor yn berchen arnynt yn unig oedd fel y gellid gwario mwyafrif y gyllideb gyfalaf sydd ar gael ar adeiladau, yn hytrach na gorfod prynu tir. Ar ôl cwblhau'r broses bwrdd gwaith hon, cyflwynwyd dau safle i ymgynghorwyr allanol ystyried eu hyfywedd yn ffurfiol, sef: - Tir i'r de o Ysgol Harri Tudur, a adwaenir yn Old Bush Farm, - Tir i'r gogledd-orllewin o Ysgol Harri Tudur, ochr yn ochr â Pembroke Road. Cynhaliodd yr ymgynghorwyr allanol asesiad manwl o'r ddau barsel hyn o dir i gael gwybod p'un a oeddent yn addas ac i asesu'r canlynol: - Lleoliadau'r opsiynau safle - Gwasanaethau adeiladu - Ecoleg - Archwilio'r tir - Golwg ar briffyrdd a thrafnidiaeth - Gwerthusiad ariannol - Rhaglen y prosiect.

Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i Bryderon a Godwyd
	Cydnabyddir y pryderon ynghylch traffig a thagfeydd, yn enwedig gydag ysgol uwchradd fawr yn y cyffiniau. Fodd bynnag, mae'r astudiaeth ddichonoldeb a amlinellir uchod wedi cynnig nifer o awgrymiadau ar gyfer lliniaru hynny. Un ateb posibl yw creu system draffig unffordd ar hyd y lôn o Bush Hill, gyda'r unig ffordd allan tua'r gogledd o'r safle, i ffordd y B4322 (Pembroke Road). Ystyrir y gall y drefn hon, ynghyd â threfniadau rheoli priodol, gynnig mynediad diogel a phriodol i'r ysgol newydd a, chyn bwysiced, datrysiaid gwell i Ysgol Harri Tudur. Mae Green Links yn Gwmni Buddiant Cymunedol a sefydlwyd i ymateb i angen a amlygwyd gan y cyn Ysgol Penfro am gyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol ychwanegol o ansawdd uchel, i bobl ifanc. Mae Green Links wedi'i leoli ar dir Ysgol Harri Tudur, gan gynnwys Old Bush Farm. Yn unol â menter Llwybrau Dysgu 14 i 19 Llywodraeth Cymru, mae Green Links yn cefnogi'r angen i drawsnewid darpariaeth, a galluogi pobl ifanc i ennill y sgiliau a'r cymwyseddau ehangach y mae arnynt eu hangen i ymateb i newidiadau mewn cyfleoedd gwaith. Yn ogystal â disgyblion prif ffrwd mewn ysgolion uwchradd lleol, mae Green Links yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant a gweithgareddau meithrin sgiliau i amrywiaeth eang o gyfranogwyr ag anawsterau dysgu, problemau ymddygiadol ac oedolion y mae angen cymorth arnynt i fynd i, neu ddychwelyd i, waith. Mae amrywiaeth eang o gyrsiau a gweithdai wedi'u datblygu: Gwaith Saer, Adeiladu, Peirianeg, Sgiliau Coedwig a Chefn Gwlad a chysiau Gwallt a Harddwch, gyda'r rhain wedi'u hachredu trwy gymwysterau Tystysgrif Estynedig Lefel 2 BTEC Edexcel. Yn yr un modd â phob prosiect adeiladu ysgol newydd yn Sir Benfro, bydd y safle, gan gynnwys adeilad yr ysgol newydd arfaethedig, yn cael eu dylunio i gyd-fynd â gofynion diogelu Cyngor Sir Penfro ac egwyddorion 'Secured by Design' https://www.securedbydesign.com/.

Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i Bryderon a Godwyd
Gall cynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg gael ei gyflawni'n rhan o'r ddarpariaeth bresennol, h.y. yn Ysgol Gelli Aur. Gellir cyflawni hyn trwy fuddsoddi yn safle presennol yr ysgol ac ehangu'r dalgylch i ddenu disgyblion o ardal ehangach. Cydnabyddir bod gan yr ysgol ddigon o dir i'w ddefnyddio i ehangu adeilad yr ysgol ac mae'r tir hwnnw yn ardal chwarae a dysgu awyr agored effeithiol a deniadol. Bydd ymestyn y ddarpariaeth bresennol yn arwain at gynnal y ddwy ffrwd (ethos dwyieithog) ac yn sicrhau bod safonau Cymraeg ail iaith yn gallu cael eu cynnal. Awgrymodd rhai safbwyntiau eraill y dylid buddsoddi yn Ysgol Gelli Aur, ond gyda'r nod o newid yr ysgol yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn gyfan gwbl.	Mae darpariaeth dwy ffrwd wedi bod ar waith yn Ysgol Gelli Aur ers nifer o flynyddoedd ac mae hyn wedi gosod sylfaen gadarn ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol; y sylfaen hon yw'r union reswm pam mae gennym gryn hyder bod angen ysgol cyfrwng Cymraeg ar ei phen ei hun ym Mhenfro ac y bydd yn ffynnu. Cydnabyddir yr awydd i ymestyn y ddarpariaeth dwy ffrwd bresennol, yn enwedig yr awydd i fuddsoddi yn adeilad yr ysgol. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn y bydd cynnal darpariaeth dwy ffrwd yn cyfrannu at gynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion yn yr ardal hon. Disgrifiodd y ddogfen ymgynghori sut mae ysgolion dwy ffrwd yn wynebu her gweithio fel dwy ysgol o dan un to o ran y categorïau ieithyddol cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, er gwaethaf y ffaith eu bod yn gweithredu fel un ysgol. Mae risg posibl mewn ysgolion o'r fath y bydd disgyblion yn rhoi'r gorau i addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn parhau â'u haddysg yn y ffrwd cyfrwng Saesneg, gan felly gyfyngu ar eu dilyniant ieithyddol. O ganlyniad, dyma pam rydym o'r farn y bydd sefydlu darpariaeth ar ei phen ei hun yn gwneud gwahaniaeth go iawn ac y bydd yn denu mwy o blant i amgylchedd cyfrwng Cymraeg lle cânt eu trochi yn yr iaith. Nid ydym o'r farn y bydd safonau mewn Cymraeg ail iaith yn dioddef o ganlyniad i'r cynnig hwn, oherwydd bod nifer o ysgolion eraill sydd heb ffrwd Gymraeg yn cyflawni'r un mor effeithiol. Cafwyd nifer bach o ymatebion o blaid newid Ysgol Gelli Aur yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, ar sail nifer y disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn Ysgol Gelli Aur dros y deng mlynedd diwethaf, bach iawn o dystiolaeth sydd o dwf sylweddol; mae'r ffrwd Gymraeg yn cynrychioli tua thraean o'r ysgol gyfan. Ystyrir mai bach iawn o gefnogaeth y byddai'r opsiwn hwn yn ei chael, yn enwedig gan y rhai sydd heb fawr o frwdfrydedd na pharch tuag at y Gymraeg. Yn hynny o beth, mae'r cynnig yn rhoi cyfle cyfartal i rieni ddewis naill ai darpariaeth cyfrwng Saesneg neu Gymraeg i'w plant.

Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i Bryderon a Godwyd
Ni ddylai'r Cyngor fod yn buddsoddi mewn mwy o adeiladau newydd – 'defnyddiwch y rhai sydd gennych yn barod'. Mae digon o hen adeiladau ysgol yn yr ardal, gan gynnwys hen Ysgol Gatholig y Santes Fair yn Noc Penfro. Gwariwch yr arian sydd ar gael ar adnewyddu un o'r adeiladau hyn.	Cydnabyddir y dylid ffafrio aildddefnyddio adeiladau ysgol gwag neu hen yn hytrach nag adeiladu rhai newydd, ac mae'r cyngor yn ystyried hyn fel rhan o bob datblygiad cyfalaf posibl. Ystyriwyd hen adeiladau ysgol neu rai gwag fel rhan o achos busnes y cynnig hwn yn 2019. Adeg cyflwyno'r achos busnes i Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2018, roedd Ysgol Gatholig y Santes Fair ar agor. Ystyriwyd hen safle Ysgol y Santes Fair ar ôl ei chau ym mis Ebrill 2019, ond mae'r problemau sylfaenol yn hyn o beth fel a ganlyn: • Mae'r safle ym mherchnogaeth elusen cofrestredig ynghlwm a'r Eglwys Gatholig ac er mwyn ei ddefnyddio at ddiben ysgol cyfrwng Cymraeg newydd, byddai angen i'r cyngor brynu'r safle – byddai hynny'n gostwng lefel y buddsoddiad sydd ar gael ar gyfer yr adeilad; • Dim ond lle i 81 o ddisgyblion oedd yn hen Gatholig y Santes Fair. Hyd yn oed pe bai ardaloedd eraill o fewn yr ysgol yn cael eu haddasu'n ystafelloedd dosbarth, ni fyddai'r lle canlyniadol yn agos at yr hyn sy'n ofynnol i sicrhau bod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ehangu yn yr ardal. Fel rhan o'r asesiad cynnar o adnewyddu adeiladau addysg a'u blaenoriaethu i'w cynnwys mewn rhaglen gyfalaf, caiff pob ased unigol ei asesu'n dechnegol ar sawl lefel, fel gwaith cynnal a chadw sy'n weddill, cynnwys asbestos, oes economaidd, cyflwr gwasanaethau'r adeilad, asesiad strwythurol a chyflwr yr adeiladwaith, ynghyd â meini prawf addasrwydd. Yr hyn sy'n eglur o gynlluniau adnewyddu diweddar yw bod gwybodaeth yr arolwg cychwynnol sydd gan yr Awdurdod ar gyfer asedau addysgol presennol wedi'i seilio ar arolwg gweledol ac wedi'i chostio yn unol â hynny. Y rheswm dros hyn yw na ellir cael at elfennau adeileddol a strwythurol allweddol yr adeilad oherwydd problemau asbestos ar y safle neu oherwydd ei bod hi'n anodd cynnal arolwg dinistriol mewn amgylchedd byw. Mae newidiadau diweddar a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru bellach yn categoreiddio lefelau adnewyddu o Ysgafn i Drwm:

Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i Bryderon a Godwyd
	Adnewyddu Ysgafn – Mae'r buddsoddiad yn canolbwyntio ar ardaloedd cyffredin a gwaith atgyweirio hanfodol yn unig. Caiff oes economaidd yr adeilad ei ymestyn gan ryw bum mlynedd. Mae'r gwaith yn cynnwys stripio'r cyfan o'r gofod presennol, ac adnewyddu'r gragen a'r craidd, gan gynnwys gwaith diweddarau cosmetig. Mae'n rhagdybio y bydd y prif adeilad a'r lloriau a'r nenfydau presennol yn cael eu cadw. Adnewyddu Canolig – Mae'r buddsoddiad yn cynnwys uwchraddio gwasanaethau a gorffeniadau'r adeilad presennol yn llawn, ond nid yw'n gwneud newidiadau strwythurol mawr. Caiff oes economaidd yr adeilad ei ymestyn gan ryw 15 mlynedd. Mae'r gwaith yn cynnwys stripio'r cyfan o'r gofod presennol, ac adnewyddu'r gragen a'r craidd, gan gynnwys gwaith diweddarau cosmetig. Nid oes unrhyw newidiadau strwythurol mawr na newidiadau mawr i'r isadeiledd. Cedwir lloriau a nenfydau presennol a gwneir mân waith atgyweirio yn unig i'r ffasâd. Adnewyddu Trwm – Mae'r buddsoddiad yn cynnwys newidiadau strwythurol mawr a gall hefyd gynnwys gosod ffasadau a gorffeniadau newydd ar y to. Caiff yr holl osodiadau mewnol, gorffeniadau a systemau mecanyddol, trydanol a phlymwaith eu hadnewyddu. Yn nodweddiadol, mae'r adeilad yn wag. Caiff oes economaidd yr adeilad ei ymestyn gan ryw 15 i 30 mlynedd. Mae'r gwaith yn cynnwys stripio'r cyfan o'r gofod presennol, ac adnewyddu'r gragen a'r craidd, gan gynnwys gwaith diweddarau cosmetig. Bydd lloriau uchel a nenfydau newydd yn cael eu gosod, a gwasanaethau newydd. Mae sicrhau bod adeiladau presennol yn bodloni gofynion rheoleiddiol presennol o ran adeiladwaith, defnydd ynni, strategaethau tân, amgylcheddau dysgu, acwsteg ac ati, yn anodd ac yn gostus. Yr hyn sy'n eglur o gynlluniau adnewyddu diweddar gan yr Awdurdod yw bod arolygon manwl o adeiladau'n tueddu i gyfeirio at opsiwn adnewyddu trwm; mae hyn yn arwain at waith sylweddol, mae'n tarfu ac mae'n anodd iawn ei raglennu gyda sicrwydd. Mae'r gyfradd sydd wedi'i phennu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith adnewyddu trwm yn agos iawn at gyfradd adeilad newydd ac, o ganlyniad, mae hyn yn arwain at gwestiynau ynghylch gwerth am arian.

Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i Bryderon a Godwyd
Bydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd. Mae'r safle dewisol mewn ardal gadwraeth a bydd gofyn i rieni yrru'u plant i'r ysgol newydd, gan felly ychwanegu at y traffig sylweddol sydd yno'n barod ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Yn ogystal, bydd ar ddisgyblion angen cludiant i'r ysgol os byddant yn dewis trosglwyddo i'r ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Caer Elen, Hwlfordd. Yng ngoleuni hyn, dylid ystyried sefydlu'r ysgol newydd fel ysgol i ddisgyblion 3 i 16 oed.	Cydnabyddir bod rhai ymatebwyr wedi codi pryderon amgylcheddol am y cynnig; fodd bynnag, mae pryderon o'r fath yn anochel yng nghyd-destun ad-drefnu ysgolion, pan gaiff darpariaeth newydd ei hychwanegu, ei diwygio neu ei dileu. O ran materion cludiant a traffig, mae'r rhain yn broblemau sy'n pryderu'r rhan fwyaf o ysgolion, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd trefol; rydym yn ymwybodol bod problemau traffig sylweddol yn Ysgol Gelli Aur a'i bod yn delio â'r mater mor effeithiol â phosibl. Fodd bynnag, mae cyfrifoldeb sylweddol ar rieni yn hyn o beth i gyfyngu teithiau car i'r ysgol ac adref, yn enwedig os ydynt yn byw o fewn pellter cerdded i'r ysgol. Mae safle arfaethedig yr ysgol o fewn pellter cerdded hawdd i nifer o ddatblygiadau tai yn yr ardal, ac mae nifer o lwybrau cerdded diogel wedi'u sefydlu fel rhan o ofynion Teithio Llesol y Cyngor. At hynny, mae'r lleoliad dewisol yn addas ar gyfer system draffig unffordd a fyddai'n gwella diogelwch cerddwyr ac yn lliniaru'r tagfeydd traffig yn yr ardal dan sylw. Mae'r safle arfaethedig wedi'i leoli yn Ardal Gadwraeth Penfro. Wrth amlygu'r safle, gweithiwyd gyda Swyddog Cadwraeth ac Adeiladau Rhestredig y Cyngor, a nododd: <i>"Ystyriwyd mai'r safle a ddewiswyd oedd yr un mwyaf priodol gan fod coed eisoes yn ei amgáu, nid yw mewn ardal o dir agored fel y safleoedd eraill, mae'n bellach i ffwrdd o'r Castell a byddai'n cael ei weld (mewn golygfeydd o'r Castell ei hun) yng nghyd-destun yr adeiladau ysgol presennol sydd y tu ôl iddo. Mae hyn, a'r potensial wrth ddylunio'r ysgol i liniaru unrhyw effeithiau posibl ar leoliad y castell, yn haws eu cyflawni yn y lleoliad hwn nag yn y lleill y gellid bod wedi'u dewis."</i> Yn ystod cam y cais cynllunio, bydd y cynigion manwl yn cael eu hasesu yn erbyn y Cynllun Datblygu Lleol a'i bolisiâu. Bydd angen cynigion dylunio a thirlunio sensitif i fynd i'r afael â dynodiad yr Ardal Gadwraeth ac agosrwydd at y Castell. Hefyd, bydd materion mynediad a pharcio/cludiant yn cael eu hystyried yn ystod cam y cais cynllunio. Mae cludiant eisoes i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg uwchradd yng Nghrymmych neu Hwlfordd a chydabyddir effaith hyn ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, mae sefydlu

Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i Bryderon a Godwyd
	Ysgol Caer Elen yn Hwlfordd ym Medi 2018 wedi caniatáu i rieni gael dewis go iawn p'un ai ddewis i'w plant gael addysg cyfrwng Cymraeg ai peidio. Cyn y cyfnod hwn, byddai'n rhaid i unrhyw ddisgybl yn ffrwd Gymraeg Ysgol Gelli Aur a oedd yn trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd oddef teithiau hir ar y bws i Grymmych. Roedd hyn yn fuddsoddiad amser sylweddol, ac mae'n parhau felly, i rai disgyblion; gellir dadlau bod cost amgylcheddol i hyn hefyd. Fodd bynnag, mae Ysgol Caer Elen wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn amseroedd teithio ac, o bosibl, llai o effaith ar yr amgylchedd. Cyn hir, bydd swyddogion yn dechrau ar y gwaith o baratoi Cynllun Strategol 10 mlynedd y Gymraeg mewn Addysg, y bydd angen iddo gynllunio ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth yn y sir. Ar sail hyn, mae'n rhesymol y bydd angen ystyried p'un a yw trefn bresennol yr ysgolion a'u hystod oedran yn briodol.
Nid yw'r Ddogfen Ymgynghori wedi'i hysgrifennu'n dda ac nid yw'n cydnabod cryfderau'r ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Gelli Aur yn ddigonol, na'r cynnydd a wnaed gan yr ysgol ers ei harolygiad yn 2017.	Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol i gydymffurfio â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. O ran y feirniadaeth benodol ynghylch diffyg cydnabyddiaeth honedig o gryfderau'r ysgol neu ei chynnydd ers yr arolygiad diwethaf, mae'r ddogfen yn cyfeirio at y barnau sy'n deillio o arolygiad diweddaraf Estyn a'r cynnydd a wnaed gan yr ysgol yn erbyn argymhellion Estyn. Amlygir y rhain yn Adran 4 y Ddogfen Ymgynghori ac roeddent yn gywir adeg ei chyhoeddi ym mis Tachwedd 2019.

Ymateb Estyn i'r cynnig i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd i blant 3-11 oed yn ardal Penfro.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Cyflwyniad

Mae'r cynnig gan Gyngor Sir Benfro.

Y cynnig yw i

- Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd i blant 3-11 oed er mwyn gwasanaethu ardaloedd Penfro a Doc Penfro.
- Addasu cyfrwng yr addysgu yn Ysgol Gelli Aur/Golden Grove School.

Crynodeb/Casgliad

Mae'r cynnig yn cyd-fynd ag amcan Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg), a hynny trwy gynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg mewn addysg yn ardal Penfro a Doc Penfro.

Mae'r cynnig yn gyson ag amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Benfro.

Mae'r Cyngor wedi ystyried ystod o opsiynau'n briodol ac wedi dewis y cynnig uchod.

Ym marn Estyn mae'r cynnig hwn o leiaf yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol.

Disgrifiad a Manteision

Mae'r cynigiwr yn darparu rhesymwaith clir a manwl ar gyfer y rhesymeg y tu ôl i'r cynnig. Mae'n nodi'n gywir bod y cynnig hwn yn cyd-fynd ag amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Benfro yn ogystal ag amcanion Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg. Mae'n cyfeirio'n berthnasol at ganlyniadau o'r asesiad galw rhieni am addysg Gymraeg yn ardal Penfro/Doc Penfro. Mae'n haeru'n gadarn ei fod yn ystyried mai dim ond drwy sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg ar wahân, yn hytrach na chadw'r ysgol ddwy ffrwd bresennol, y gellir cyflawni ei ddyheadau i ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg yn yr ardal. Mae'n nodi'n bendant bod twf yn ffafriaeth rhieni dros ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd tebyg eraill yn Sir Benfro. Mae hyn yn ei arwain yn

rhesymol at y casgliad byddai sefydlu ysgol Gymraeg newydd yr un mor llwyddiannus â sefydlu ysgolion Cymraeg eraill yn ddiweddar, megis Ysgol Hafan y Môr yn Ninbych-y-Pysgod ac Ysgol Caer Elen yn Hwlfordd. Mae'r cynigiwr yn datgan yn ddilys bod ganddo gyfle gwerthfawr i fanteisio ar grant cyfalaf 100% gan Lywodraeth Cymru i sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd ynghyd â chyfleusterau gofal plant.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth ddilys i ddewisiadau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys parhau â'r sefyllfa bresennol, estyn ac adnewyddu cyfleusterau'r uned Gymraeg yn Ysgol Gelli Aur; sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd ar hen safle Ysgol Wirfoddol a Reolir Ystagbwl; sefydlu ysgol Cymraeg newydd ar hen safle Ysgol Fabanod Pennar; a'r opsiwn mae'n ei ffafrio, sef sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd ar safle newydd yn ardal Penfro.

Mae'r cynigiwr yn nodi manteision, anfanteision a risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig a'r opsiynau gwahanol yn glir. Mae'n datgan yn gadarn pam ei fod yn ffafrio'r cynnig ac yn cyfeirio'n gadarn at fuddiannau agor ysgol cyfrwng Cymraeg newydd.

Mae'n honni'n gytbwys byddai symud y ffrwd Gymraeg o Ysgol Gelli Aur i ysgol newydd yn mynd i'r afael â'r angen tebygol i ddarparu rhagor o leoedd cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gelli Aur yn dilyn datblygiadau tai arfaethedig dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r cynigiwr yn tynnu sylw yn berthnasol at y ffaith bydd y cyfleusterau ar safle'r ysgol newydd yn darparu amgylchedd dysgu sy'n bodloni gofynion yr oes sydd ohoni ac yn cynnig hyblygrwydd i allu cefnogi unrhyw newid yn y dyfodol.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth drwyadl i effaith y cynnig ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod. Mae'n honni'n deg byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y nifer o leoedd sydd ar gael o fewn addysg Gymraeg yn ardal Penfro/Doc Penfro.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith y cynigion ar drefniadau teithio disgyblion ac ar hygyrchedd y ddarpariaeth. Mae'n datgan yn glir mai ymestyn y ddarpariaeth yw'r nod a ni fydd unrhyw ddarpariaeth yn cael ei diddymu na'i chau Fodd bynnag, mae'n cydnabod yn gytbwys bydd safle arfaethedig yr ysgol ychydig ymhellach i ffrwd ar gyfer rhai disgyblion. Serch hynny, mae'n nodi'n yn glir bydd nifer o'r disgyblion yn trosglwyddo i addysg uwchradd cyn rhoi'r cynnig ar waith ac ymddengys o'i ddadansoddiad, wrth gymharu â'r sefyllfa bresennol, bydd llai o blant yn byw mwy na dwy filltir o'r ysgol.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynigiwr yn rhoi ystyriaeth fanwl i effaith y cynigion ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn yr ysgol.

Mae'n cyfeirio'n berthnasol at ddeilliannau adroddiadau arolygu diweddaraf Estyn ar Ysgol Gelli Aur, a'i chategori a band cymorth.

Mae'n dod i'r casgliad rhesymol nad yw'n rhagweld unrhyw effeithiau negyddol ar ansawdd safonau addysg, lles, profiadau dysgu neu arweinyddiaeth. Mae'n haeru'n gryf bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar addysg disgyblion. Mae'n datgan yn deg bydd modd i'r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd ddarparu'n effeithiol i ddiwallu

anghenion dysgwyr â staff arbenigol sy'n deall medrau ieithyddol disgyblion. Yn ogystal bydd yr ysgol yn medru cyflwyno cwricwlwm llawn trwy gyfrwng y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnodau allweddol 1 a 2. O ganlyniad, mae'n taeru bydd hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at wella agweddau at ddysgu a lles drwy ddatblygu un continwum iaith cyson yn yr ysgol. Mae'r cynigiwr yn honni'n gryf bydd y cynnig yn rhoi cyfle i greu tîm arwain yn yr ysgol Gymraeg newydd a fydd yn deall a gweithredu athroniaeth addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn ogystal, y bydd yn gyfle i gryfhau'r arweinyddiaeth yn yr ysgol cyfrwng Saesneg.

Mae'r cynigiwr wedi cynnal asesiad o effaith y cynnig ar gydraddoldeb ac yn honni'n rhesymol na ddylai'r cynnig gael effaith andwyol ar unrhyw grwpiau penodol. Mae'n datgan yn deg byddai'r cynnig yn sicrhau bydd holl adeiladu'r ysgol newydd yn gwbl hygyrch i ddisgyblion ag anableddau.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i aflonyddwch posibl ar ddisgyblion presennol ac wedi ymddwyn yn addas i leihau unrhyw effaith amrynt.

Sefydlu Ysgol Gynradd Gymraeg newydd 3-11 yn ardal Penfro

Gohebiaeth a dderbyniwyd fel rhan o ymgynghoriad statudol

Cyf.	Sylwadau
3	Mae de'r sir wedi cael ei hesgeuluso ers blynnyddoedd o ran darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod ysgol yn Ninbych-y-pysgod bellach, byddai ysgol arall yn ardal Penfro o fudd i bobl leol gan fod yr uned yn Gelli Aur eisoes yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn.
5	Ofnadwy bod adeilad yr ysgol cyfrwng Saesneg mewn cyflwr mor wael ac eto rydych chi'n gofalu am leiafrif bach sy'n siarad Cymraeg
6	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
7	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
9	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
10	Chwerthinllyd mewn ardal a fu'n siarad Saesneg am 900 o flynyddoedd
11	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
12	Dydw i ddim yn siŵr faint fyddai'n manteisio ar leoedd gan fod hon yn ardal sy'n siarad Saesneg yn bennaf, ond hoffwn anfon fy merch i ysgol cyfrwng Cymraeg
13	Mae'n syfrdanol bod cymaint o arian yn cael ei fuddsoddi yn yr iaith Gymraeg. Adeiladwch ysgolion newydd ar gyfer plant ysgolion cynradd Saesneg eu hiaith, sy'n gorfod dysgu mewn hen adeiladau gydag offer annigonol
14	Dydw i ddim yn teimlo bod ardal Penfro angen ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae'r mwyafrif o drigolion yn Saesneg iaith gyntaf. Mae'n iaith sy'n marw ac ar wahân i swyddi cyfyngedig yng Nghymru, ni fyddai'r Gymraeg yn ofynnol yn statudol ar gyfer swyddi yn y dyfodol. Faint o'r disgyblion sy'n dysgu iaith gyntaf Cymraeg sy'n ei defnyddio fel iaith gyntaf? Yn aml, mae rhieni sy'n siarad Saesneg fel iaith gyntaf ond yn anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd oherwydd y cyfleusterau yn yr ysgolion newydd ac nid oherwydd yr iaith. Os yw disgyblion yn mynd ymlaen i brifysgol yn Lloegr, ac mae llawer yn gwneud hynny, ni fyddant yn defnyddio eu Cymraeg.

Cyf.	Sylwadau
	Gwariwch yr arian ar wella ansawdd addysg a chyfleusterau yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg a chael uned Gymraeg fel rhan o'r ysgol cyfrwng Saesneg. Peidiwch â gwastraffu arian ar fympwy diweddaraf y llywodraeth i gynyddu'r iaith Gymraeg ac edrychwch ar y darlun ehangach.
15	Rwy'n teimlo nad yw safon y Gymraeg yn Gelli Aur yr un fath ag yng Nghaer Elen. Mae gen i brofiad o blant yn y ddwy ysgol.
16	Mwy o gludiant i'r myfyrwyr hynny ar lefel uwchradd, gydag effeithiau a chost garbon/llygredd yn sgil hynny i'r cyngor, gan nad oes darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg i'r de o Hwlfordd. Mae hunanddewis rhieni sydd wedi ymgysylltu â'r broses o anfon disgyblion o gartrefi Saesneg i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gostwng talent mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg ac yn creu ysgol artiffisial o dda ac yn achosi i ysgolion 'suddo'. Rhowch adnoddau ychwanegol i wella ysgolion uwchradd mewn ardal fel bod pobl yn hapusach i ddefnyddio ysgolion lleol waeth beth fo'u hiaith.
17	Nid ydym angen ysgol newydd arall, buddsoddwch yr arian yn yr hyn sydd gennym yn barod. Mae cyllidebau ar gyfer addysg yn cael eu torri o flwyddyn i flwyddyn, mae rhai o'r staff cymorth â'r cyflogau isaf yn gweithio yn ein hysgolion lleol. Nid yw rhieni sy'n anfon plant i ysgolion Cymraeg yn siarad yr iaith sut y gallant gefnogi eu plentyn os nad ydynt yn siarad neu'n deall yr iaith, credaf y bydd hyn yn cael effaith andwyol ar y disgybl. Mae canran y bobl sy'n siarad Cymraeg rhugl neu Gymraeg fel iaith gyntaf ym Mhenfro/Sir Benfro yn llai na 5% Y dewis arall yw ail-fuddsoddi'r arian yr ydych wedi'i neilltuo i ysgolion sydd gennym eisoes yn yr ardal.
18	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
19	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
20	Mae'n rhaid dod o hyd i leoliad addas ar gyfer y safle, mae un o'r ardaloedd a nodwyd yn agos i dir Ysgol Harri Tudur ac yn anaddas iawn ar sail y tagfeydd sy'n broblem fawr nawr a byddai tagfeydd bob dydd gan effeithio'n fawr ar yr amgylchedd a dysg pob myfyriwr.
21	Credaf ei bod yn briodol i CSP ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer Addysg Gymraeg yn ardal Penfro, ond rwy'n gwrthwynebu'r safle arfaethedig yn gryf. Mae'r lleoliad arfaethedig yn agos iawn at rai o'r darpariaethau amgen sy'n cael eu defnyddio gan Ysgol Harri Tudur. Teimlaf y byddai'n amhriodol dros ben i leoli plant oedran cynradd yn union drws nesaf i rai o'ch dysgwyr mwyaf heriol ac agored i niwed, y mae eu hymddygiad mor eithafol fel eu bod yn gofyn am ddarpariaeth nad yw'n brif ffrwd a chymorth ychwanegol. Yr wyf hefyd yn siomedig iawn ynglŷn â'r diffyg ystyriaeth sydd i'w weld, i bob golwg, i'r plant a'r teuluoedd y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt, yn enwedig y rheini ar benrhyn Angl. Mynychodd fy merch Ysgol Ystagbwll, nes i CSP benderfynu uno'r ysgolion yn yr ardal honno a chreu

Cyf.	Sylwadau
	Penrhyn. Fe wnaethon ni benderfynu symud ein merch i Gelli Aur fel y gallem fanteisio ar y ddarpariaeth Gymraeg, ac rydyn ni wedi bod yn hapus iawn gyda'r cyfleoedd a'r gefnogaeth anhygoel mae hi wedi'u cael yno. Er fy mod yn cytuno y byddai ysgol categori A yn golygu ysgol wedi'i hariannu'n well a gydag adnoddau gwell i hyrwyddo a datblygu Addysg Gymraeg, i ni, byddai'r ysgol newydd arfaethedig yn golygu symud ysgol eto gyda throsglwyddiad ychwanegol i Gaer Elen ar ddiwedd Blwyddyn 6. Mae'n amlwg bod hyn yn cynnig taith addysgol ddigyswllt iawn, a bydd y diffyg cysondeb yn cael effaith negyddol ar y rhai a allai gael eu gorfodi unwaith eto i symud eu plant oherwydd newid parhaus yn y ddarpariaeth addysgol sydd ar gael ym Mhenfro.
23	A yw'n gost angenrheidiol pan fo cyllidebau addysg mor dynn? Cynyddwch y ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion sy'n bodoli eisoes.
24	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
26	nid oes galw am hyn - byddai'n wastraff adnoddau buddsoddwch yn yr ysgolion presennol
27	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
28	Rwy'n credu y dylid defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg ac os oes galw yna byddai ysgol cyfrwng Cymraeg newydd o fudd i'r ardal. Rwy'n pryderu am y cynnydd posibl yn y traffig ar y safle ac rwy'n meddwl tybed a oes lleoliad mwy addas.
29	Rwyf yn cefnogi darparu ysgol Gymraeg, ond rwyf yn gwrthwynebu'r cyfleusterau gofal plant sydd wedi cael eu hawgrymu. Fel y nodwyd yn Rhan 5 o'r ddogfen 'Ysgol Cyfrwng Cymraeg gyda chyfleusterau gofal plant cysylltiedig' gan na fu unrhyw ymgynghori â'r ddarpariaeth gofal plant bresennol. Rydym yn ddarpariaeth gofal plant gyda 85 o leoedd a'r iaith Gymraeg yn cael ei siarad yn ddyddiol wedi ei lleoli ym Mhenfro. Ar hyn o bryd, mae tua 60% o'n capasiti wedi'i lenwi ac rydym wedi cymryd rhan mewn nifer o gyrsgiau iaith Gymraeg i wella'r Gymraeg sy'n cael ei siarad yn ein sefydliad. Rydym yn hapus i gefnogi defnyddio'r iaith Gymraeg ymhellach yn ein sefydliad, ond wedi cael anhawster i recriwtio staff Cymraeg eu hiaith. Mae defnyddio arian cyhoeddus i ariannu gwasanaethau gofal plant pan fo ddarpariaeth eisoes yn llai na milltir o Gelli Aur, heb ymgynghori â ni'n hunain yn fy mhoeni. Rydym wedi cael gradd Rhagorol ym mhob maes o'n harolygiad diwethaf gan AGC. Byddwn yn croesawu ymgynghoriad pellach ar beth mae'r 'gwasanaethau gofal plant' sy'n cael eu cynnig yn ei olygu er mwyn sicrhau nad oes dadleoli'n digwydd, gan effeithio ar gynaliadwyedd y ddarpariaeth bresennol.

Cyf.	Sylwadau
30	Mae'r cwricwlwm Cymraeg newydd yn hyrwyddo dwyieithrwydd gyda'r Saesneg yn derbyn pwysoliad cyfartal i'r Gymraeg. Ni ddylem annog gwahanu, gall siaradwyr Cymraeg gefnogi siaradwyr Saesneg a gwella safonau Cymraeg yn y ddarpariaeth bresennol. Ni fydd targedau Cymru ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn cael eu cyrraedd drwy wahanu. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn dderbyniol ac yn annog dwyieithrwydd. Nid yw rhieni plant sydd ar hyn o bryd yn mynychu'r uned Gymraeg yn Gelli yn dymuno i'w plant fynd i ysgol Gymraeg. Pan fyddant yn cyrraedd oedran uwchradd bydd yn rhaid iddynt deithio pellter mawr i ysgol uwchradd Gymraeg, eto, nid yw hyn yn annog dwyieithrwydd ac nid yw'n cyd-fynd â nodau'r cwricwlwm Cymraeg newydd. Cefnogwch staff yn y ddarpariaeth bresennol i siarad a hyrwyddo'r Gymraeg. Bydd hyn yn effeithio mwy ar dargedau siarad Cymraeg na'u hanfon i ysgol wahanol!
31	Mae fy mhlentyn yn mynychu ysgol Gelli Aur ar hyn o bryd, fel y gwnes i. Ers i mi gofio, roedd gan Ysgol CC y Gelli ei huned Gymraeg ei hun, a wnaeth Ysgol y Gelli yn ddeniadol ac unigryw. Yn dilyn y gofynion dysgu Cymraeg ehangach, dydw i ddim yn cytuno y dylai Gelli roi'r gorau i'w haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond caniatáu i ysgolion eraill yn yr ardal ganiatáu lle ac adnoddau i fwynhau'r gallu i addysgu plant ysgol yn y Gymraeg hefyd. Dylai ysgol Gymunedol Doc Penfro ddarparu ei dosbarthiadau a'i hadnoddau cyfrwng Cymraeg ei hun, yn ogystal â'r ardaloedd cyfagos. Byddai hyn yn sicrhau na fyddai gwahanu rhwng y dosbarthiadau.
32	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
33	Rydw i'n amharod fy nghefnogaeth i'r cynnig gan fy mod yn teimlo bod ysgol Gelli Aur wedi cael ei darlunio fel ysgol nad yw'n cyflawni anghenion addysg Gymraeg ym Mhenfro. Mae fy mab, sydd bellach yn ddisgybl blwyddyn 8 yn ysgol Caer Elen, yn perfformio'n dda ac mae yn y set uchaf ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg, fel y mae ei gyfoedion sydd hefyd wedi mynychu'r ffrwd Gymraeg yn Ysgol Gelli Aur. Ni ddylai darpariaeth ysgol cyfrwng Cymraeg ym Mhenfro fod ar draul ysgol Gelli Aur, a dylid buddsoddi yn yr ysgol hon i'w datblygu i 'safon ysgolion yr 21ain ganrif' hefyd.
34	Credaf fod y safle arfaethedig yn syniad ofnadwy am y rhesymau canlynol: 1. Mae ger y ddarpariaeth ca 3 a 4 oddi ar y safle ar gyfer ysgol Harri Tudur nad ydyn nhw'n gallu ymdopi mewn ysgol brif ffrwd. Byddai'r disgyblion hyn o gwmpas perimedr yr ysgol drwy gydol y diwrnod ysgol. Nid yw'r bobl ifanc hyn yn cael eu hystyried yn addas i fod ar safle ysgol YHT felly mae'n anghredadwy y gallai unrhyw un feddwl y byddai'n briodol i ysgol gynradd fod mor agos i Greenlinks. 2. Mae'n hysbys yn lleol bod y coedwigoedd sy'n amgylchynu'r ardal hon yn cael eu defnyddio ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol e.e. yfed, camddefnyddio sylweddau gan bobl ifanc ac oedolion felly pam bod ysgol gynradd yn cael ei gosod yn y cyffiniau hyn? 3. Mae traffig i mewn ac allan o'r ardal hon yn hurt eisoes yn y bore ac ar ôl 3pm. Mae ysgol arall yno yn y pen draw yn mynd i ychwanegu at y problemau hyn.

Cyf.	Sylwadau
	Er y byddai'n well gennyf fi i'm plentyn aros yn Gelli Aur, nid wyf yn llwyr yn erbyn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, ond mewn ardal arall o Benfro
35	Mae angen ysgol gynradd Cymraeg yn Penfro mae diddordeb mawr mewn addysg ddwyiaethiog sy'n tyfu
36	Darpariaeth bresennol yn fwy na digon! Hyfryd gweld y plant yn integreiddio yn y maes chwarae eang a'r ardal werdd. Mae disgyblion ffrwd Saesneg yn elwa o glywed Cymraeg yn cael ei siarad yn yr ystafelloedd dosbarth a gan ddisgyblion sy'n mynd ar neges. Bydd y penderfyniad hwn yn lleihau nifer y siaradwyr Cymraeg ac nid yn ei gynyddu fel mae targedau'r Llywodraeth yn ei awgrymu. Unwaith eto, dyma gasgliad rhagweladwy gan lywodraeth Cymru a'r cyngor. Cofiaf fynychu cyfarfod tebyg iawn sawl blwyddyn yn ôl ar gyfer darpariaeth ym Mhenfro/Doc Penfro. Dywedwyd wrthym y byddai cyfarfodydd pellach na ddigwyddodd byth hyd y gwn i, y peth nesaf y gwyddem oedd ei fod yn cael ei adeiladu yn Hwlfordd! A gaf i ychwanegu hefyd, yn y cwestiwn 'Fy niddordeb', nad oedd teidiau a neiniau wedi'u cynnwys hyd yn oed. Efallai y gwneir hynny os hoffai eich tîm ymweld â'r ysgol i weld faint o neiniau a theidiau sy'n casglu eu hwyrion a'u hwyresau yn enwedig o'r unedau Cymraeg. Buaswn yn dweud bod y mwyafrif yn cael eu casglu gan neiniau a theidiau ac felly siawns y dylent fod wedi cael eu cynnwys! Aros yna!
37	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
38	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
40	Mae addysgu plant mewn gwahanol ieithoedd yn creu cymdeithas ranedig, y rhai sy'n siarad Saesneg a'r rhai sy'n siarad Cymraeg. Os yw'r rhai sydd wedi cael eu haddysgu mewn ysgolion Cymraeg yn cael blaenoriaeth mewn cyfleoedd dros y rhai sydd wedi'u haddysgu yn Saesneg gallai hynny greu cymdeithas ddwy haen. Gallai'r rhai sydd am gael cyfleoedd, ond sy'n teimlo rhwystredigaeth bod blaenoriaethau'n cael eu rhoi i siaradwyr Cymraeg, adael Cymru. Gallai fod drwgdeimlad rhwng siaradwyr Cymraeg a Saesneg. Cododd y cyngor y Dreth Cyngor 12% yn ddiweddar er mwyn talu am dwll du yn y cyllid. Mae gwasanaethau wedi cael eu cwtogi i'r lleiafswm, mae darpariaeth annigonol ar gyfer y rhai sy'n agored i niwed yn y sir hon. A fyddech cystal â gwario'r arian lle mae o fudd i'r holl drigolion.
41	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
42	Rwy'n credu y byddai'n gyfle gwych i ardal Penfro gael uned Gymraeg ar wahân ar gyfer disgyblion.

Cyf.	Sylwadau
43	Nid oes gan Benfro/Doc ganolfan ddigon mawr o boblogaeth i gyfiawnhau rhannu ein haddysg ysgol gynradd. Mae darpariaeth dda eisoes ar gyfer y rhai sydd am i'w plant gael eu haddysgu yn y pynciau craidd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r plant yn gallu parhau i gysylltu â'u ffrindiau "sy'n cael eu haddysgu yn Saesneg" yn ystod amser chwarae, gan felly atal gwahaniad cystadleuol "ni a nhw". Os oes cymaint o arian ar gael ar gyfer buddsoddi ... dylech ei ddefnyddio i wella ein hysgolion presennol!
44	Mae darpariaeth ddigonol eisoes yn Ysgol Gelli Aur.. Nid oes angen adeiladu ysgol arall. Rwy'n cofio, o gyfarfodydd blaenorol wrth drafod lleoliad ysgol Gymraeg newydd 3-16, dywedwyd wrthym na fyddai'n bosibl i ni gael yr ysgol dan sylw ar dir Ysgol Gyfun Penfro dan unrhyw amgylchiadau ac eto dyma ni'n cael gwybod mai dyma lle mae'r ysgol ddiangen a digroeso hon yn mynd i fod. Drwy gael gwared ar addysg Gymraeg o Ysgol Gelli Aur, rydych chi'n cael gwared ar ddylanwad Cymreig a'r ffordd mae'r iaith yn cael dysgu ar y cyd amgylchedd dysgu gwych. Beth am fuddsoddi'r arian i ddarparu adnoddau dysgu gwell a mwy o staff i'r ysgol sydd eisoes yn bodoli. Disgwyliaf fod y penderfyniad wedi'i wneud eisoes ac mai ymarfer ticio bocsys yn unig yw hwn. Siomedig iawn!!!!
45	bydd yn tynnu plant o'r ysgolion cynradd presennol yn yr ardal, fydd yn golygu eu bod nhw'n cael llai o arian. Nid yw'r rhagolygon cyfradd genedigaethau yn awgrymu y bydd yr ysgolion presennol dros eu capasiti felly bydd lleoedd dros ben a bydd hyn yn effeithio ar staff a chyllid. Mae'n fuddiol i bob plentyn yn y Gelli Aur i gael ffrwd Gymraeg i wella Cymraeg cymuned yr ysgol gyfan ac i sicrhau bod gan yr ysgol staff Cymraeg arbenigol. Os ydych yn ceisio cyrraedd targed y llywodraeth o swm o x o siaradwyr Cymraeg erbyn pa ddyddiad bynnag, mae angen i chi gefnogi'r rhai mewn ysgolion cyfrwng Saesneg i siarad Cymraeg fel arall ni fydd y niferoedd yn gweithio. Rhowch arian ac amser i gefnogi'r ysgolion gwych sydd gennych eisoes yn yr ardal. Cefnogwch y staff a'r myfyrwyr yn yr ysgolion hynny i ddod yn siaradwyr Cymraeg.
46	Diangen
47	Nid wyf yn teimlo bod angen ysgol Gymraeg ym Mhenfro. Teimlaf y dylid defnyddio'r arian i wella'r ysgolion presennol megis Gelli Aur a Llandyfái gan fod angen eu moderneiddio
48	Bydd yn braf i'r ysgol fynd yn ei blaen ond staffio fydd y broblem gyda siaradwyr Cymraeg rhugl felly a fydd yr ysgol hon o fudd i'r plant mewn gwirionedd?
51	Ar ôl darllen y ddogfen, rwy'n cytuno'n llwyr, er mwyn i'n siaradwyr Cymraeg ifanc ddatblygu mae angen i ni eu hymdrwytho yn yr iaith Gymraeg. Ar ôl cael dau blentyn yn mynd drwy Ysgol Gelli Aur, gallaf weld sut y bydd y cynnig hwn yn galluogi'r athrawon i ddarparu'r amgylchedd sydd ei angen i ddatblygu sgiliau iaith. Fy unig ddymuniad yw na fyddai gen i un plentyn erbyn hyn yn Ysgol y Preseli ac un yn Ysgol Caer Elen - nid yw hon yn sefyllfa ddelfrydol i ni - dau fws gwahanol, dwy noson rieni gwahanol, dwy Ffair Nadolig wahanol, dau wahanol ar gyfer popeth ... mae'n cymryd llawer o amser. A oes angen i'r cyngor sir edrych hyd yn oed ymhellach i'r dyfodol ac ystyried

Cyf.	Sylwadau
	ysgol Gymraeg 3-16 ym Mhenfro, gan osgoi'r 2 awr y dydd ar fws. Os ydych am hybu niferoedd y dysgwyr Cymraeg, yna credaf y byddai lleihau amser teithio yn apelio at gynulleidfa lawer ehangach, gan arwain at gynnig llawer mwy apelgar i'r teuluoedd yn yr ardal.
52	Rwyf yn bryderus iawn y bydd ysgolion yn ardal Penfro/Doc Penfro yn colli disgyblion oherwydd agor ysgol newydd. Nid oes digon o blant i warantu ysgol newydd heb i ysgolion presennol gael eu heffeithio'n andwyol sy'n golygu bod diswyddiadau yn debygol o ddigwydd mewn amser sydd eisoes yn heriol yn ariannol i ysgolion/teuluoedd. Teimlaf hefyd y gellid defnyddio'r arian hwn yn fwy effeithiol i helpu ysgolion sy'n bodoli eisoes i brynu hanfodion ar gyfer disgyblion y maen nhw'n ei chael hi'n anodd gwneud hynny, oherwydd y toriadau milain sy'n digwydd ym myd addysg ar hyn o bryd. Parhau â'r ddarpariaeth Gymraeg yn y Gellir Aur a'r arian ar gyfer ysgol newydd i'w wario ar ysgolion presennol sydd mewn trafferthion ariannol mawr.
54	Bydd adeiladu ysgol newydd yn golygu bod tir yn cael ei golli, bydd adnoddau sy'n niweidiol i'r amgylchedd yn cael eu defnyddio. Bydd plant sy'n cael eu symud o'r Gelli Aur yn colli cyfleoedd i gydfodoli ag eraill, bydd y gwaith o ddarparu'r ysgol yn cael ei ddyblygu. Ni fydd disgyblion yn yr ysgol newydd yn cael cyfleoedd i chwarae ystod eang o chwaraeon ac i elwa o'r ddarpariaeth yn y Gelli Aur. Yn gryno...nid oes angen yr ysgol arfaethedig. Y sefyllfa fel y mae. Mae'r ysgol yn y Gelli Aur yn gweithio'n dda.
55	Mae'r tri o fy mhlant wedi mynychu Gelli Aur ac wedi symud ymlaen yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae'r frwydr gyson rhwng darparu cyfleusterau ac adnoddau wedi bod yn amlwg. Mae darparu athrawon wedi bod yn broblem cyhyd ag y gallaf ei gofio oherwydd nad yw'r cyllid yn cael ei rannu ac am nad yw athrawon yn cael eu neilltuo ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg. Mae awydd pendant ymhlith mwy o rieni i roi eu plant mewn addysg Gymraeg yn unig ond mae'r pwysau gan gyfoedion mewn ysgol ddwy ffrwd yn sylweddol. Gall y cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg fod yn beth da a bydd yn cynyddu niferoedd ac ansawdd y gwasanaethau.
56	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
57	Pam gwastraffu arian ar y Gymraeg, rydyn ni yn ne sir Benfro. Dylid gwario arian ar wasanaethau pwysicach. Dylid ariannu ysgolion presennol ym Mhenfro. Ariannwch wasanaethau eraill fel canolfan gyswllt fel y gallwch gysylltu â'r cyngor.
58	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
62	Mae llawer o arian yn cael ei wario ar ysgolion Cymraeg, beth am wario arian a gwella Pob ysgol gynradd ym Mhenfro/Doc Penfro. Nid oes angen ysgol Gymraeg arall arnom, gwariwyd digon o arian ar Gaer Ellen, a'r hyn fyddwch chi'n ei weld yw y bydd pobl ond yn anfon eu

Cyf.	Sylwadau
	plant i'r ysgolion Cymraeg hyn am eu bod nhw'n newydd sbon a gyda llwythi o adnoddau! A phryder enfawr hefyd yw lle'r ydych yn bwriadu adeiladu'r ysgol hon, oherwydd os yw gyferbyn â Bush House, bydd y traffig yn draed moch! Mae'n ddigon drwg yn awr, bydd hyn yn ddamwain yn bygwth digwydd. Meddyliwch am iechyd a lles y plant i gyd, nid plant yr ysgol Gymraeg yn unig. Defnyddiwch yr arian i ymestyn/gwella ysgol Grove/Gelli Aur. Cadwch ef yn Gymraeg a Saesneg.
63	O weld yr uned Gymraeg yn Gelli yn ffynnu ac yn tyfu rwy'n credu bod angen am hyn. I gael eu hymdrwytho'n llwyr yn yr iaith Gymraeg ym mhob agwedd o'r ysgol gan gynnwys cymdeithasol.
64	Byddai'n ddefnyddiol iawn pe byddai ysgol wedi'i neilltuo i'r Gymraeg a gallai fod yn ddefnyddiol i unrhyw un sy'n dymuno dysgu'r iaith.
65	Ail syniad
66	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
67	Mae'n bwysig dros ben i ni yn yr ardal gael ysgol gymraeg newydd sbon. Yn anffodus yn yr ardal mae agwedd negyddol wedi bod a thrwy adeiladu a sefydlu yr ysgol newydd hon, bydd yn codi statws yr iaith Gymraeg. Prosiect cyffrous iawn! Pob lwc gyda'r gwaith ac i ddyfodol ein haith.
68	Nid wyf yn credu bod Penfro angen cael ysgol ffrwd Gymraeg annibynnol. Mae Gelli Aur yn ysgol ddwy ffrwd wych ac mae'r plant a'r rhieni yn hoff iawn o'r ffaith bod y plant yn gynhwysol a bod y ffrwd Gymraeg a Saesneg yn gyfartal. P'un ai yn y ffrwd Gymraeg neu Saesneg mae'r plant i gyd yn chwarae ac yn ffrindiau ac nid ydynt ar wahân, sef sut y bydd hi os bydd ysgol ffrwd Gymraeg yn unig yn cael ei hadeiladu. Yn hytrach na gwario'r holl arian hwnnw ar ysgol newydd dydw i ddim yn gweld pam na ellir defnyddio arian i ehangu neu ddiweddarau'r ysgol ddwy ffrwd bresennol. Pam newid rhywbeth sy'n gweithio'n dda iawn. Os oes gan y cyngor arian i adeiladu ysgol newydd yna pam nad oes arian ar gyfer gwasanaethau eraill yn ein sir sydd wirioneddol ei angen?
70	Dydw i ddim yn meddwl bod y safle arfaethedig (ger Ysgol Harri Tudur) yn addas. Mae gormod o draffig ar y safle'n barod ar amseroedd ysgol, mae tagfeydd yn aml yn y maes parcio a'r ffordd fynediad fel y mae. Byddai ychwanegu mwy o draffig o'r ysgol gynradd yn gwaethygu'r sefyllfa. Nid yw'n ymddangos bod safle hen Ysgol Gatholig y Santes Fair wedi'i ystyried. Gan fod mwyafrif y disgyblion o Benfro/Doc Penfro byddai hyn yn lleoliad cyfleus.
72	Er fy mod i wedi ticio 'ddim yn teimlo'n gryf y naill ffordd na'r llall' - byddai'n well gen i dicio blwch i nodi bod gen i deimladau cymysg am hyn. Os bydd ysgol cyfrwng Cymraeg yn cael ei hagor yn yr ardal yna credaf y bydd yn bwysig iawn cael darpariaeth wedi ei hariannu'n

Cyf.	Sylwadau
	dda i gynnwys rhieni plant y blynyddoedd cynnar nad ydynt yn siaradwyr dwyieithog neu siaradwyr Cymraeg hyderus fel na fydd eu plant dan anfantais oherwydd eu diffyg sgiliau Cymraeg ac y bydd plant, mewn gwirionedd, yn cael mantais yn y tymor hir oherwydd effaith Deddf yr iaith Gymraeg ar y sector cyhoeddus a chyfleoedd cyflogaeth. Mae gennyf bryderon mai rhieni 'dosbarth canol' sydd wedi symud i Gymru sy'n manteisio'n bennaf ar y cynnig iaith Gymraeg ac nid y cymunedau hynny yn Sir Benfro nad ydynt yn draddodiadol wedi bod yn siaradwyr Cymraeg. Er fy mod yn cydnabod pwysigrwydd darparu profiad 'ymdrwytho' i blant drwy ddarparu ysgol sy'n siarad Cymraeg yn unig - a thrwy hynny bod o fudd i sgiliau iaith Gymraeg y disgyblion a'u hymgysylltiad â diwylliant Cymru byddwn yn drist iawn pe byddai darparu ysgol Gymraeg yn yr ardal yn arwain at rannu cymuned. Mae angen cefnogaeth bellach ar gyfer Cylch Meithrin yn ardal Penfro.
73	Rydym wedi aros yn hir amdani ond mae'n wych i'r Gymraeg ac mae cynnig addysg ddwyieithog yn gadarnhaol iawn i'r ardal.
74	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
75	Er fy mod yn cefnogi'r cynnig, nid wyf yn teimlo bod angen adeiladu ysgol gyfan newydd Dylai Gelli Aur ddod yn ysgol cyfrwng Cymraeg a'r Saeson yn symud
76	Bydd yn lleihau'r cyfleusterau chwaraeon yn YHT (ysgol Harri Tudur) os byddwch chi'n adeiladu'r ysgol ar ein cae rygbi hefyd mae'r amser casglu yn brys iawn eisoes heb ychwanegu ysgol arall yn yr un cyfleuster Ailwampio ysgol y Santes Fair ac agor honno fel ysgol Gymraeg
77	Rwy'n credu ei fod yn syniad gwych ac y dylai fod mwy nag un ysgol Gymraeg yn yr ardal, mae'n drist iawn bydd fy mab, mae'n debyg, yn dechrau yn yr ysgol uwchradd erbyn i hyn ddigwydd, a bydd wedi colli'r cyfle i gael y sgiliau y bydd yr ysgol hon yn eu darparu.
78	Nid wyf yn cefnogi'r cynnig ar hyn o bryd oherwydd fy mhrofiad fel llywodraethwr mewn un arall o ysgolion newydd Sir Benfro. Cynigiwyd cau tair ysgol bentref ac adeiladu ysgol newydd gyda chyllid ysgolion yr 21ain ganrif fel ateb i'r gostyngiad yn nifer y disgyblion a dirywiad adeiladau yn ein hardal. Unwaith yr oedd y cynnig wedi'i dderbyn a'r prosiect wedi dechrau, cafodd y corff llywodraethu dros dro sioc o ddarganfod nad oedd y gyllideb gennym mewn gwirionedd i staffio X4 o ystafelloedd dosbarth gydag athrawon a phennaeth. Yr ateb, sy'n dal i fod ar waith, oedd rhoi'r staff addysgu ar gontractau 0.875. Rwy'n anhapus iawn am yr ateb hwn. Nid adeiladau sy'n addysgu plant - staff ar gyflogau da, brwdfrydig, wedi'u haddysgu'n dda sy'n addysgu plant - mewn unrhyw iaith. Rwy'n gwrthwynebu cynnig sy'n gwario mwy o arian tra bo ysgolion presennol yn ei chael yn anodd mantoli'r cyfrifon, ar draul addysg y plant sy'n eu mynychu. Mae cymhlethdod ac amrywiaeth anghenion disgyblion, o ADY cymhleth i broblemau emosiynol a chymdeithasol sy'n effeithio ar bresenoldeb a'r gallu i ddysgu, yn parhau i waedu adnoddau cyfyngedig yn sych - heb fawr o ryddhad yn y llu o grantiau cymhleth, heriol o ran amser sydd ar gael.

Cyf.	Sylwadau
	Heriwch Lywodraeth Cymru ar y gyllideb a buddsoddi mewn staff addysgu â chymwysterau uchel.
79	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
81	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
82	Ddim yn teimlo bod angen hyn yn yr ardal. Mae ysgolion yn y clwstwr sydd â chabanau dros dro wedi bod yno ers dros 15 mlynedd. Nid ydyn nhw'n addas i'r diben ond ni fyddant yn cael eu disodli oherwydd diffyg cyllid. Mae angen gwario arian ar sicrhau bod ysgolion eraill yn cael eu diweddar yn lle gwario miliynau ar yr ysgol hon.
83	Nid wyf yn credu bod digon o angen am ysgol Gymraeg yn yr ardal hon ac yn credu y byddai'n well gwario'r arian ar wella'r ysgolion cynradd presennol sydd gennym eisoes! Gwariwch yr arian ar wella ysgolion cynradd sy'n bodoli eisoes!
85	Mae'r Cwricwlwm Cymreig newydd yn hyrwyddo dwyieithrwydd felly pam yr ydym yn gwahanu'r ieithoedd i ysgolion gwahanol. Bydd hyn ond yn creu diswyddiadau mewn ysgolion! Nid oes galw amdano yn yr ardal hon. Nid yw'r targedau Cymreig ar gyfer dwyieithrwydd yn mynd i gael eu cyrraedd gan wahanu ieithoedd chwaith! Gadewch i'r di-Gymraeg ddysgu gan siaradwyr Cymraeg i hyrwyddo'r Gymraeg. Buddsoddwch i wella'r ddarpariaeth Gymraeg yn ein hysgolion cynradd, peidiwch â hyrwyddo gwahanu!
86	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
87	Rwy'n credu ei fod yn syniad da gan fod plant ar hyn o bryd yn teithio i Hwlfordd i fynd i ysgol Gymraeg sydd yn llawer o deithio ar gyfer plant ifanc
88	Mewn ardal Saesneg ei hiaith teimlaf nad oes angen hyn yn Noc Penfro. Mae Uned Gymraeg yn bodoli eisoes yn Ysgol Gelli. Mae hyn yn mynd i gael effaith enfawr ar yr holl ysgolion eraill yn yr ardal.
89	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
91	Hen bryd i hyn gael ei wneud, mae dosbarthiadau Cymraeg yn Ysgol Gelli yn gwbl annigonol gyda llawer o grwpiau blwyddyn yn rhannu un dosbarth, gan ymestyn athrawon a staff cymorth. Mae'n ymddangos bod prifathro yn Gelli yn ymddiddori'n fwy mewn chwaraeon felly gobeithio y bydd Pennaeth Ysgol a fydd yn darparu'n llawn ar gyfer Diwylliant ac Addysg Cymraeg gydag amgylchedd addysgu a dysgu llawer gwell i staff a phlant

Cyf.	Sylwadau
92	Defnyddiwch yr arian i wella'r cyfleusterau presennol yn Ysgol Gelli Aur. Hefyd nid yw'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n ddigon eang yn ardal Penfro i gyfiawnhau cost ysgol newydd. Fel uchod. Llawer gwell i ehangu'r cyfleusterau presennol. Neu ddefnyddio rhai o adeiladau'r cyngor sy'n wag ar hyn o bryd ar gyfer yr ysgol.
93	Mae'n hen bryd. Mae Penfro yn haeddu ysgol Gymraeg gwbl ymroddedig. Sut mae'n bosibl rhoi'r un lefel o barch i'r Gymraeg mewn ysgol lle nad yw'r pennaeth yn siarad yr iaith a rhai staff yn eithaf agored eu bod nhw yn erbyn y Gymraeg? Fe wnaethom benderfyniad ymwybodol i addysgu ein plant yn Gymraeg ac er bod y staff sy'n siarad Cymraeg yn wych, mae agweddau rhai aelodau eraill o staff yn eithaf gwarthus ac amharchus. Mae ein plant yn haeddu ysgol Gymraeg ac mae staff Gelli Aur yn haeddu gweithio mewn ysgol Gymraeg lle maen nhw'n cael eu gwerthfawrogi, eu talent a'u sgiliau yn cael eu cydnabod, a lle mae'r Gymraeg yn cael y parch mae'n ei haeddu.
94	Mae gennym ddarpariaeth Gymraeg yn Gelli nad yw'n orlawn, pam mynd i'r gost o greu ysgol newydd pan mai'r plant hynny fyddai'n mynychu! Efallai na fyddan nhw am gael eu gwahanu! Mae dwyieithrwydd yn flaenoriaeth yng Nghymru gyda thargedau newydd, dysgu'r iaith gan y naill a'r llall, sut fydd hyn yn cael ei gyflawni gydag ysgol newydd? Mae'r cwricwlwm newydd Cymru yn rhoi pwysoliad cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu haddysgu ochr yn ochr, ac mae angen i awdurdod lleol Sir Benfro ddeall hyn. Dylid darparu hyfforddiant i staff presennol yn ein hysgolion cynradd i hyrwyddo'r Gymraeg o dan gwricwlwm newydd Cymru, codi safonau Cymru i BAWB nid llong dwrn a fyddai'n dymuno mynychu ysgol newydd a drud a fyddai yn y tymor hir yn creu diswyddiadau mewn mannau eraill.
95	Byddai nifer y plant a fyddai'n mynychu'r ysgol hon yn swm bach iawn, a'r swm wedi'i wrthbwysu yw cost yr ysgol hon a diswyddiadau yn yr ysgolion presennol. Pam nad yw'r arian yn cael ei fuddsoddi i wella'r Gymraeg yn ein hysgolion cynradd fel y gall pawb fod o fudd nid ychydig o rai dethol yn unig gan fod y plant hyn yn elwa ar ddarpariaeth Gymraeg fwy na digonol yn Gelli eisoes nad yw'n orlawn. Yr arian i fynd i mewn i'n hysgolion cynradd presennol i wella'r ddarpariaeth Gymraeg er mwyn codi cyrhaeddiad i bawb!
96	Dydw i ddim yn teimlo bod angen hyn, nid oes llawer o bobl yn siarad Cymraeg iaith 1af yn ardal Penfro, doc p. Gellir gwario arian mewn mannau eraill ar iechyd gwella ysgolion presennol
97	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
98	Mae gen i 2 o blant yn yr uned Gymraeg yn Gelli Aur, maen nhw'n hapus ac yn gadarnhaol o ran eu haddysg a'u profiadau yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol amgylchedd cymunedol ardderchog ac mae'r athrawon yn yr uned Gymraeg yn gefnogol, yn calonogol ac yn brofiadol iawn. Ni

Cyf.	Sylwadau
	allaf weld yr angen i wario symiau mor fawr o arian i adeiladu ysgol gynradd arall yn yr ardal. Maen nhw'n mwynhau eu haddysg am gynifer o resymau y tu hwnt ei fod yn Gymraeg, a dweud y gwir iddyn nhw mae'r Gymraeg yn amherthnasol, dim ond yr iaith maen nhw'n dysgu ynddi yw hon. Mae'r gweithgareddau allgyrsiol, brwdfrydedd y staff addysgu, cyfleusterau awyr agored rhagorol a choetiroedd, cysylltiadau a defnydd o lawer o atyniadau a chanolfannau lleol ac yn gyffredinol ymdeimlad cadarnhaol o les yn gwneud eu profiad dysgu yn hwyl ac yn addysg o ansawdd yn gyffredinol. Rydym yn deulu sy'n siarad Saesneg, fel y mae llawer sydd wedi dewis yr opsiwn hwn. O'm safbwynt i, roedd y ffaith ei fod yn ddwy ffrwd yn gwneud y penderfyniad o ddewis Cymraeg yn fwy apelgar ac yn caniatáu i'm plant fynd i ysgol fwy yn hytrach nag ysgol fach fel ysgol bentref, gan ehangu eu profiadau a'r bobl maen nhw'n eu cyfarfod. Mae lleoliad arfaethedig yr ysgol newydd yn peri pryder i mi o gofio ei bod yn agos at ysgol uwchradd rwyf am osgoi gweld fy mhlant yn ei mynychu a'r ddarpariaeth Greenlinks. Yn ychwanegol at hyn, bydd cael cynifer o bethau mewn ardal gywasgedig o'r fath yn ychwanegu pwysau traffig ar ardal sydd eisoes o dan straen. O amgylch yr ysgol uwchradd a'r prif ffyrdd o amgylch mae atalfeydd sy'n achosi problemau yn ddyddiol wrth fynd i mewn ac allan o Benfro, ni fydd gwasanaethau ychwanegol yn yr un ardal yn gwneud dim i wella hyn. Y pwynt olaf i mi, gyda phlant ym mlynedd 1 a 4, yw na welaf unrhyw fantais i'w haddysg gael ei darfu ddwywaith drwy ychwanegu cyfnod pontio ychwanegol gydag ysgol newydd. Pe byddai hyn yn cael ei gwblhau cyn i'r naill neu'r llall o'm plant orffen cyfnod allweddol 1 neu 2, byddwn yn edrych i symud fy mhlant i Gaer Elen yn gynnar er mwyn iddynt wynebu un cyfnod pontio yn hytrach na 2 mewn cyfnod byr iawn. Os oes arian wedi'i glustnodi ar gyfer addysg, hyd yn oed os yw hynny'n benodol i'r Gymraeg ar hyn o bryd, dylai gael ei fwydo i system addysg sydd eisoes o dan straen. Dylech wella'r hyn sydd gennych yn lle adeiladu o'r newydd yn gyson. Weithiau mae newydd yn fuddiol, mae Harri Tudur yn edrych yn well o lawer, ond mae Gelli Aur yn ysgol ardderchog sydd â chyfleusterau rhagorol, buddsoddwch yn y rhain, datblygwch y rhain, tyfwch y rhain. Mae hen ysgol gynradd segur gyferbyn â'r Gelli Aur eisoes, dyma wastraff, efallai y byddai modd gwella hon a'i defnyddio mewn rhyw ffordd i ehangu'r ddarpariaeth bresennol os yw gofod yn cael ei ystyried yn broblem.
99	Nid oedd yr arolwg cychwynnol a gynhaliwyd yn egluro y byddai darpariaeth Gymraeg yn cael ei symud o'r Gelli. Dim ond nifer fach iawn o bobl wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad cychwynnol, swm llai fyth a ofynnodd am ddarpariaeth Gymraeg. Nid oes arolwg wedi'i gynnal mewn ysgolion cynradd lleol i ofyn i rieni a fyddent mewn gwirionedd yn hoffi darpariaeth Gymraeg, dim ond os oedd eich plant o dan oedran ysgol y gallech ymateb i'r arolwg cychwynnol! Mae rhieni eisiau dwyieithrwydd ac i blant gymysgu, dydyn ni ddim eisiau gwahanu ac wedyn gorfod chwilio am ysgol uwchradd Gymraeg ymhellach i ffwrdd. Fe allech chi adeiladu ysgol i ddwsin o ddisgyblion, gwastraff arian pan allai arian gael ei fuddsoddi yn ein holl ysgolion cynradd i helpu i roi'r Gymraeg ar waith er mwyn cyrraedd targedau Cymraeg! Arian i fynd i bob ysgol gynradd i wella safonau'r Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn ddigonol!!
100	

Cyf.	Sylwadau
	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
101	Dwi'n meddwl ei fod yn syniad da, gan fod tri o fy mhlant wedi mynd i Gelli Aur a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Roeddwn i'n teimlo weithiau nad oedd yr adran Gymraeg yn cael cefnogaeth, ac er nad oedd fy mhlant i'n cael eu bwlio, roedd myfyrwyr yr uned Saesneg yn galw enwau arnyn nhw ac yn eu halltudio. Doedd fy mhlant i ddim yn siarad Cymraeg ar yr iard nac yn yr ysgol gan nad oedden nhw'n gyfforddus yn gwneud hynny, felly rwy'n teimlo y byddai ysgol gynradd Gymraeg gyfan yn bwysig, petai ond i wneud plant yn falch o'u gallu yn ddwyieithog a theimlo'n gyfforddus yn ei ddefnyddio.
102	dylai gwella nifer y siaradwyr Cymraeg yn ne Sir Benfro fod yn flaenoriaeth i'r awdurdod lleol.
103	
	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
105	
	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
106	Nid wyf yn credu y gall ffrwd cyfrwng Cymraeg lwyddo o ddifrif a chael y gefnogaeth a'r gydnabyddiaeth mae'n eu haeddu tra yng nghysgod ysgol Saesneg. Bydd strategaethau sy'n gwrthdaro bob amser oni bai bod ysgol uniaith Gymraeg yn cael y cyfle i arwain drostyn nhw eu hunain.
107	
	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
108	Mae ardal Penfro yn un o'r ardaloedd Sir Benfro sy'n siarad Saesneg yn draddodiadol ers yr oesoedd canol hwyr. Mae ei phensaernïaeth, ei thirwedd a'i thraddodiadau yn adlewyrchu dylanwad cannoedd lawer o flynyddoedd o ffyrdd o fyw a thraddodiadau'r gorllewin a hen ardaloedd y Gororau yng Nghymru. Nid yw ysgol cyfrwng Cymraeg yn cydnabod yr hanes hwn o "Little England Beyond Wales". Dydw i DDIM yn erbyn hyrwyddo'r Gymraeg yng Nghymru... mae'n iawn ac yn briodol yn y rhannau hynny o Gymru lle mae ganddi bresenoldeb hirsefydlog. Er eu bod yn tynnu ar agweddau o'i orffennol Cymreig, gellir dadlau bod gan boblogaeth De Sir Benfro hanes, traddodiad a threftadaeth, mae hefyd yn cymysgu hyn gyda gwraidd cadarn De-orllewin Lloegr. Dylid parhau i addysgu'r Gymraeg fel sydd angen neu sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, ond mewn amgylchedd cyfrwng Saesneg.
109	Byddai amgylchedd cwbl Gymraeg yn fuddiol iawn i'r plant
110	
	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
111	
	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)

Cyf.	Sylwadau
112	Mae cymaint o ysgolion cynradd yn yr ardal felly, drwy ychwanegu'r ysgol hon rydych chi'n gostwng y niferoedd mewn ysgolion eraill. Nid oes lle i ysgol arall yn yr ardal arfaethedig gan fod y ffyrdd hyn yn brysur iawn fel y mae. Beth am ychwanegu uned(au) Cymraeg i'r ysgolion cynradd sy'n bodoli eisoes yn lle hynny?
113	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
114	Nid yw'n ardal sy'n siarad Cymraeg, nid oes galw mawr am addysg cyfrwng Cymraeg. Mae angen buddsoddi mwy o arian mewn addysg well ac nid ar y Gymraeg yn unig.
115	Mae'n bwysig hybu dwyieithrwydd, lle'n ddewisol ond bydd angen sicrhau nad yw Cymraeg ail iaith yn dirywio yn yr ardal o ganlyniad i symud ffrwd Gymraeg allan o Gelli Aur. A fyddai'n bosib cyfuno sefydlu ysgol Gymraeg a swydd Athrawes Bro yn seiliedig yn yr ysgol?
116	Rwy'n credu bod darpariaeth Gymraeg dda iawn ym Mhenfro eisoes yn Gelli Aur. Mae'r ysgol wedi gweithio'n galed i uno'r ddwy ffrwd ac i osgoi arwahanu. Mae'r Gymraeg ail iaith yn hynod lwyddiannus oherwydd yr ymdrwytho mae'r ffrwd Gymraeg yn ei ddarparu i'r ysgol gyfan. Bydd hynny'n cael ei golli petai'r arbenigedd Cymraeg yn cael ei symud i fan arall. Dylai'r disgyblion gael eu huno, nid eu gwahanu. Mynychodd fy nau fachgen y ffrwd Gymraeg yn Gelli Aur ac mae'r ddau yn gwneud yn dda yn Ysgol Y Preseli. Nid wyf yn gweld unrhyw fantais i'r cynnig hwn a chredaf y byddai'n well gwario'r arian ar flaenoriaethau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru. Teimlaf y byddai'n well gwario arian ar adeiladu Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg mewn ardal arall yn Sir Benfro lle mae angen hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach.
117	Mae'r ddogfen ymgynghori wedi'i hysgrifennu'n ofnadwy ac yn sicr yn ffafrio sefyllfa'r ALL o fod eisiau ysgol Gymraeg newydd. Nid oes unrhyw gydnabyddiaeth o gryfderau ein hysgol na'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud. Mae ein canlyniadau Arolygiad o Haf 2018 yn cael eu datgelu i bawb eu gweld, ac fe wnaethom eu derbyn fel ysgol a gweithio'n galed arnyn nhw. Mae ein categoreiddio diweddar wedi ein rhoi yn ôl i Felyn. Yr hyn yr hoffwn ei ychwanegu, fodd bynnag, yw ein bod wedi gofyn am ac wedi cael 'arolygiad bach' i asesu ein Ffrwd Gymraeg yng Ngwanwyn 2018. Nododd yr adroddiad hwnnw fod 'Sawl agwedd yn gadarnhaol a barnwyd bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da.' Mae'r gefnogaeth Ymgynghorol a gawsom ar gyfer Cymraeg iaith 1af yn sicr wedi bod yn amheus ac yn bendant dylid ei nodi fel gwendid. Un nodyn pwysig i'w ychwanegu yma yw ein bod yn cael adborth ffafriol iawn ar y plant yr ydym wedi eu hanfon i Breseli neu Gaer Elen. Fy nheimpladau mewn addysg yw bod angen cydweithio'n gryf gyda natur gynhwysol iawn. Rwyf yn ymwybodol iawn bod fy athrawon cryfaf yn fy Ffrwd Saesneg ac rydym wedi gwella cydweithrediad ein staff, ar draws y ddwy ffrwd, ac rydym yn gweithio'n gadarnhaol tuag at gyflwyno'r Cwricwlwm Newydd. Mae ein Hathrawon Cymraeg yn elwa o arbenigedd yr Athrawon Saesneg, ac i'r gwrthwyneb. Yn anffodus, mae addysg yn Sir Benfro wedi mynd yn gynhennus ac yn ddetholus gydag agwedd ddwy-haen ac anghyfrannol.

Cyf.	Sylwadau
	Nid yw rhieni newydd sy'n ymuno â'n Ffrwd Gymraeg yn gwneud hynny oherwydd eu bod am gyfrannu at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, maen nhw'n gwneud hynny er mwyn osgoi'r ysgol uwchradd leol, Ysgol Harri Tudur. Mae Ysgol y Preseli yn ysgol uwchradd sy'n perfformio'n uchel yn Sir Benfro (ac mae newydd ddod yn 3ydd yn rhestr y Sunday Times o'r ysgolion uwchradd gorau yng Nghymru) gyda'r Pennaeth yno hefyd yn cymryd yr ysgol newydd 3-16 cyfrwng Cymraeg drosodd, Ysgol Caer Elen. Dyma lle mae nifer fawr o rieni yn symud iddo o bob rhan o'r sir, ac am yr un rhesymau rwy'n eu gweld ym Mhenfro. Mae'n digwydd yn Aberdaugleddau, Dinbych-y-pysgod a Hwlfordd, yn ogystal â Phenfro, ac mae'r ysgolion uwchradd hyn i gyd ymhell i lawr y rhestr ar y siartiau perfformiad ar gyfer ysgolion uwchradd. Roedd ein Cyfarwyddwr yn falch iawn bod Llywodraeth Cymru wedi canmol ei Chynllun Strategol Cymraeg, ond hoffwn pe bai ganddi gynllun ar gyfer addysg uwchradd yn ei chyfanrwydd yn Sir Benfro, yn enwedig yr ysgolion hynny mewn trefi mawr yr wyf wedi sôn amdanynt, sy'n hofran yn barhaus dros y categori Ambr/Coch (3 Coch ac un Ambr ar hyn o bryd) gyda chanlyniadau arolygu gwael. Gall y Cyngor Lleol a'r Cyfarwyddwr siarad yn gadarnhaol iawn am y cynnydd aruthrol yn y niferoedd mewn Addysg Gymraeg yn y sir, sy'n wych, ond ni ellir caniatáu iddo barhau oherwydd perfformiad gwaeth yr ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg. Mae rhieni yn pleidleisio â'u traed yn syml ar berfformiad yr ysgolion uwchradd. Nid yw hynny'n deg ac nid yw'n iawn. Mae'n amlwg bod diffyg addysg uwchradd yn ein hysgolion mawr cyfrwng Saesneg a bod angen canolbwyntio ar hynny. Ac yn amgylcheddol, dydw i wir ddim yn deall y system grantiau a pham mae'n rhaid i ysgolion fod yn gwbl newydd. Fe fydd, ac mae, nifer o adeiladau ysgol gwag yn bodoli yn Sir Benfro ac mae'n ymddangos bod diffyg rhagwelediad llwyr ar gyfer datblygu ysgolion yn y sir. Rydyn ni, er enghraifft, wedi ceisio nifer o weithiau i gael Mudiad Meithrin yn yr ysgol i ddatblygu ein darpariaeth ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar yn sylweddol, ond mae hynny wedi bod yn ofer. Teimlwn y byddai hyn wedi rhoi sylfaen gryfach i'n plant yn y Gymraeg, yn enwedig o ystyried yr ardal Seisnigaidd iawn yr ydym yn byw ynddi. Eto i gyd, bydd hyn yn yr ysgol newydd arfaethedig. Yn olaf, un peth a ddywedodd yr arolygwyr wrthym yn 2018 oedd bod ein Cymraeg Ail Iaith yn gryf iawn. Rwy'n siŵr bod hyn i'w briodoli i raddau helaeth am ein bod yn ddwy ffrwd. Fy marn i yw na chawn filiwn o siaradwyr Cymraeg drwy greu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unig; bydd yn cael ei gyflawni drwy ganolbwyntio ar y Gymraeg fel ail iaith hefyd, sef yr hyn yr wyf yn dyst iddo yn fy ysgol. Rydyn ni wedi gweithio'n galed iawn ar ddatblygu ein hethos Cymraeg yn yr ysgol, gan gynnwys y gymuned ysgol gyfan ac mae'n cael effaith. Nid wyf am fanylu ar yr holl fuddion cymdeithasol eraill mae'r plant yn elwa arnynt yn yr ysgol, drwy ddod ynghyd ar gyfer y celfyddydau, cerddoriaeth, drama a chwaraeon, sy'n llawer haws i'w wneud fel ysgol fwy. Cawsom ein cyfarfod ymgynghori neithiwr gyda'r Cyfarwyddwr a Huw Jones. Gorffennodd drwy ddweud y bydd y gallu i siarad Cymraeg yn dod yn uwch fyth ar yr agenda ar gyfer ymgeiswyr am swyddi yn Sir Benfro, yn enwedig gyda gwasanaethau cyhoeddus, ac mae eisoes yn uchel iawn ar yr agenda yn Sir Fynwy. Mae'n destun pryder y byddai'n bosibl edrych ar hyn fel rhethreg hiliol bron lle mae ein plant Saesneg eu hiaith yn cael eu cosbi am beidio â gallu siarad Cymraeg. Soniodd un aelod o staff wrth y Cyfarwyddwr y bydd yn awr yn cynghori ei phlant i redeg am y bryniau - i groesi'r ffin i golegau yn Lloegr ac i aros yno. Mae fy merch newydd gyflawni canlyniadau rhyfeddol yn ei harholiadau TGAU ac mae am fod yn feddyg. Yn yr un modd, byddaf yn ei chynghori i groesi'r ffin gan nad wyf yn hoffi'r hyn yr wyf yn ei glywed ar hyn o bryd. Yn olaf, mae iechyd meddwl plant yn cael ei grybwyll yn aml ac ychydig iawn sy'n cael ei wneud yn

Cyf.	Sylwadau
	ei gylch yn Sir Benfro. Rydym fel ysgol wedi cychwyn ar brosiect Ymwybyddiaeth Ofalgar gyda'n clwstwr o ysgolion gan ein bod wedi cael plant mor ifanc ag 8 mlwydd oed yn dweud eu bod am ladd eu hunain. Rydym hefyd wedi cael plant yn arddangos anhwylderau bwyta yn 10 mlwydd oed, a gwn fod y ddau fater hyn yn dod yn fwy cyffredin ar draws y sir, ac mae Dr Simmonds hyd yn oed (Paediatregydd Ymgynghorol) wedi dweud wrthym fod sylwadau hunanladdol wedi dod yn norm. Mae atgyfeiriadau i rai o'r plant hyn i CAMHS wedi'u gwrthod am nad ydynt yn bodloni'r meini prawf, ac nid oes digon o arian i ddarparu ar gyfer pawb. Rydyn ni, fel ysgol, wedi buddsoddi mewn Cynorthwywyr Cymorth Dysgu Emosiynol i ddarparu ar gyfer y nifer cynyddol o blant sydd angen cymorth iechyd meddwl. Fel yr oeddwn i wedi'i ofyn o'r blaen am addysg uwchradd, beth yw'r cynllun strategol ar gyfer iechyd meddwl plant yn Sir Benfro? Buddsoddwch yn y ddarpariaeth bresennol drwy ddarparu Mudiad Meithrin; uwchraddio eu hadeilad 'gwael'. Canolbwyntiwrch ar ddatblygu'r Gymraeg ar gyfer ein dysgwyr ail iaith ar draws y sir. Sicrhewch fod y blaenoriaethau yn Sir Benfro yn iawn yn gyntaf - ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg mawr, iechyd meddwl plant, cyllidebau ysgolion. Sicrhewch fod gennych gyngor sy'n herio LIC ar y cynlluniau hyn, yn enwedig ar adeg o galedi ac ansicrwydd ynghylch Brexit. Datblygwch system addysg deg nad yw'n cosbi plant/rhieni nad ydynt yn dewis addysg ffrwd Gymraeg. Mae lleoliad yr ysgol newydd hefyd yn chwerthinllyd gan ei bod eisoes yn hynod o brysur ar ddiwedd y diwrnod ysgol gyda thraffig YHT. Dydw i ddim yn derbyn y ffaith bod yr ALL hefyd yn ceisio denu plant o gefndiroedd mwy amrywiol i gynnwys mwy o blant ar y cynllun Prydau Ysgol am Ddim; fel arall byddai'r cynnig hwn yn Noc Penfro, ar safle'r Santes Fair o bosibl, neu rywle arall yn y dref. Mae Penfro yn ardal mwy dosbarth canol, a dyna pam y cafodd ei ddewis (ac yn yr un modd pam nad oes gan Aberdaugleddau un eto).
118	Rwyf yn cefnogi'r cynnig i gael ysgol Gymraeg ym Mhenfro yn llwyr. Dewisodd llawer o rieni leoli eu plant yn yr Uned Gymraeg yn Gelli Aur, ond nid yw'r plant yn cael eu hymdrwytho'n llwyr yn yr iaith gan fod yr ysgol yn ysgol ddwy ffrwd. Mae'r athrawon yn yr Uned Gymraeg yn gwneud eu gorau glas i hyrwyddo'r iaith, yn anffodus mae nifer sylweddol o'r staff nad ydynt yn siarad Cymraeg, felly sut mae disgwyl i'r plant siarad Cymraeg drwy gydol y dydd os na all staff sgwrsio â nhw'n rhugl. Byddai peidio â chael grwpiau blwyddyn cymysg yn well o lawer i'r plant a'r athrawon hefyd. Byddai ysgol cyfrwng Cymraeg yn fuddiol iawn i Benfro a Doc Penfro ac rwy'n siŵr y bydd galw am leoedd, fel y dangoswyd gan nifer y disgyblion yn Ysgol Hafan y Môr a Chaer Elen. Rwyf wedi darllen y cynnig ac mae gen i bryderon ynghylch traffig a thagfeydd a allai ddigwydd yn Ysgol Henry Tudur a'r cyffiniau. Mae problem fawr gyda thagfeydd yn Ysgol Gelli Aur yn ystod amseroedd gollwng/casglu yn yr ysgol gydag oedolion yn parcio ar linellau melyn dwbl ar hyn o bryd ac mae trigolion lleol wedi cwyno i'r ysgol. O ystyried nifer y plant yn yr ysgol uwchradd a'r nifer posibl ar gyfer yr ysgol cyfrwng Cymraeg gallai Bush Hill a'r ffordd uchaf i Ddoc Penfro ddod yn broblem fawr o bosibl.
119	Mae Ysgol Gelli Aur yn ysgol ddwyieithog sy'n profi'n effeithiol. Mae'r Cymry yn dysgu gan siaradwyr Saesneg a'r Saesneg yn dysgu gan siaradwyr Cymraeg. Mae llawer o gefnogaeth i'r ddau yn yr ysgol. Mae adeiladu ysgol newydd yn wastraff arian unwaith eto pan fo rhywbeth eisoes ar gael ac yn affeithiol. Drwy dynnu'r Gymraeg o'r ysgol mae'n gwahanu'r ysgol. Mae gan blant eu hawliau eu hunain a

Cyf.	Sylwadau
	thrwy barhau â hyn mae'n cymryd eu hawliau i ddysgu'r ddwy iaith i ffwrdd oddi wrthyn nhw. Mae holl aelodau staff a disgyblion yr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd yn enwedig y plant. Maen nhw'n chwarae gyda'i gilydd ar yr iard chwarae felly maen nhw'n cymysgu â Saeson a hefyd yn addysgu'r Gymraeg wrth iddyn nhw chwarae. Mae plant yn falch o fod ar wahân i ysgol Gelli Aur a thrwy dynnu'r Gymraeg i ffwrdd mae'n cymryd eu hawliau i ddysgu'r ddwy iaith i ffwrdd oddi wrthyn nhw! Rhowch arian i mewn i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth mewn ysgolion, offer ac addysg!
121	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
122	Ar hyn o bryd, Ysgol Gelli Aur yw'r unig ddarpariaeth gyfrwng Gymraeg yng nghlwstwr Penfro a dwy ffrwd yn unig ydyw. Mae diffyg opsiynau gwirioneddol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg i drigolion ym Mhenfro a Doc Penfro. Mae'n ymddangos bod safonau yn Gelli Aur yn gostwng ac mae llawer o rieni yn dewis Ysgol Caer Elen sydd bellach yn llawn. Mae angen arlwy leol arall ar y bwrdd! Rwy'n cytuno bod angen ysgol Gymraeg newydd yn ardal Penfro i ddod â thegwch i dde'r sir. Bydd hyn ond yn gwella safonau ac yn helpu tuag at darged LIC o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
123	Dylai aros lle y mae fel bod ffrydiau Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. Mae'r ddwy ffrwd yn cefnogi ei gilydd. Drwy wneud hyn rydych chi'n gwahanu ac yn gwahaniaethu yn erbyn y rhai sydd am aros yn y ffrwd Saesneg. Mae pobl leol yn dewis y ffrwd Gymraeg presennol er mwyn osgoi addysg uwchradd ym Mhenfro, gan ei bod mor dlawd. Ar ôl cael dau blentyn yn mynd drwy'r broses hon bydd plant presennol sydd angen y gwyddorau ar gyfer rhagolygon swyddi yn y dyfodol oni bai eu bod eithriadol o ddisglair neu os yw eu rhieni'n talu am wersi preifat, fel yr wyf i wedi'i wneud a'r ysgol yn derbyn y clod, yn methu yn ysgol uwchradd Penfro. Nid yw ysgol Penfro yn darparu ar gyfer y plant a fyddai'n radd c. Dim ond yn y rhai â gallu is mae ganddynt ddiddordeb i gynnig cyrsiau galwedigaethol. Maen nhw'n defnyddio dosbarth elitaidd ar gyfer y plant mwy disglair a gadael y plant cyffredin i golli eu trywydd. Dylai addysg Gymraeg fod yn fater o ddewis drwy gael ysgol gwbl Gymraeg rydych chi'n cael gwared ar y bartneriaeth o blant yn gweithio'n gyfartal gyda'i gilydd i gefnogi a gwella'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n bwysig defnyddio rhywfaint o Gymraeg mewn cymdeithas ond hefyd yn bwysig cael gallu da i gyfathrebu yn Saesneg ar raddfa fyd-eang. Ni fydd rhoi plant mewn ysgol uniaith Gymraeg yn helpu Llywodraeth Cymru i gyrraedd eu targedau ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Bydd gwella Cymraeg yr holl blant a staff mewn ysgol ddwy ffrwd yn estyn allan at fwy ac yn creu mwy o ddysgwyr Cymraeg. Ewch ati i gyfoethogi a datblygu'r safle ar ysgol Gelli Aur. Bydd y Gymraeg a'r Saesneg ar eu hennill. Bydd pawb yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg. Mae digon o dir i ehangu ar gyfer cynnydd yn yr angen am ddosbarthiadau yn y dyfodol. Gwrandewch ar yr hyn mae rhieni wedi'i ddweud am Ysgol Penfro a rhoi trefn ar y diffyg addysgu. Mae hon wedi bod yn broblem barhaus am flynyddoedd ac nid yw wedi cael sylw erioed gan y cyngor

Cyf.	Sylwadau
124	Dwi'n meddwl ei bod hi'n bechod mawr tynnu'r ffrwd Gymraeg allan o Gelli Aur. Mae'n ysgol dda, lle mae plant yn ddiogel, yn hapus ac yn gwneud cynnydd da. Mae'n gynhwysol yn hytrach na gwahanu plant yn seiliedig ar yr iaith maen nhw'n dysgu drwyddi. Cadwch ef fel y mae.
125	Rydych chi eisoes wedi cyflwyno arolwg a gafodd gefnogaeth isel iawn, dangosodd nad oedd yr ardal yn cefnogi gofyniad cyfrwng Cymraeg pellach yn yr ardal hon Mae Gelli eisoes yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg dda, os oes angen mwy buddsoddwch yn ysgol Gelli a gwella eu cyfleusterau.
126	Rwy'n credu ei fod yn gam cadarnhaol ac yn galonogol o ran y Gymraeg
127	Mae Hwlfordd yn byrstio!
128	Rwy'n difaru na chefais gyfle i ddysgu Cymraeg mewn ysgol gynradd ym Mhenfro. (300 mlynedd o hynafiaid De Penfro.). Nid yw fy wyrion, nad oedd yn gwybod unrhyw Gymraeg tan yr ysgol, wedi cael dim byd ond budd o fynychu addysg gynradd Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin. I rywun â theulu eu hynafiaid yn byw islaw llinell y Landsger, rwy'n llwyr gefnogi darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Benfro am resymau addysgol ac am ei fod yn dreftadaeth nid yn unig o Gymru, ond i Gymru, Lloegr a De'r Alban.
129	Mae'n holl bwysig eich bod yn adeiladu'r ysgol hon.
130	Mae'r cynnig hwn fel cam yn ôl mewn amser - gwahanu'r Saesneg iaith 1af oddi wrth Cymraeg iaith 1af. Onid yw bod yn ysgol ddwy ffrwd yn well i'r plant? Beth am i ni annog hynny yn y byd modern yn yr 21ain ganrif rydyn ni'n byw ynddo. Rydyn ni'n gofyn i blant fod yn oddefgar o wahanol ddiwylliannau, ethnigrwydd ac ieithoedd ond dyma oedolion sy'n cynnig anoddefiad llwyr a'u gwahanu oddi wrth eu cyfoedion. Dylai'r Gymraeg fod yn ddewis, ond mae angen i hyd yn oed y rhai sydd yn Gymraeg iaith 1af allu siarad Saesneg rhugl dda gan ei bod yn un o'r ieithoedd mwyaf dymunol a mwyaf eu defnydd ar y blaned. Wrth ddarllen adroddiad Estyn i'r ysgol mae'n amlwg iawn i weld bod y rhai mewn awdurdod yng Nghymru yn amlwg yn lladd Gelli Aur/Golden Grove er mwyn creu canlyniad sy'n cyd-fynd â'u targedau yn y dyfodol, mae'r rhai sydd mewn awdurdod yn amlwg yn ddall ac nid ydynt yn gweld y manteision gwych sydd gan yr ysgol ddwy ffrwd hon i'w cynnig. Yn ogystal â'r gwaith o wthio ysgol Gymraeg trwodd, rydych chi'n rhoi halen ar y briw drwy gynnig adeiladu ysgol newydd mewn ardal sydd eisoes yn anodd ei chyrchu y rhan fwyaf o'r diwrnodau oherwydd traffig yr ysgol gyfun a'r ganolfan hamdden brysur. Bydd yn creu ardal brysur a pheryglus iawn pe bai ysgol arall yn cael ei hadeiladu yno. Beth am yr effaith amgylcheddol hefyd?? Rydych chi'n cynnig adeiladu ysgol newydd mewn ardal llain las! Heb sôn am gostau rhedeg ysgol arall - un peth yw dweud bod gennych chi'r arian i'w hadeiladu ond beth sy'n digwydd wedyn?? Mae'r awdurdodau wedi cau nifer o sefydliadau yn yr ardal yn ddiweddar oherwydd niferoedd a thoriadau, yn ogystal â gwasgu arian ysgolion yn gyson ar yr ysgolion sy'n bodoli eisoes.

Cyf.	Sylwadau
	Rhowch mwy o gyllid i'r ysgol ddwy ffrwd sydd eisoes yn alluog, ehangwch honno os bydd angen yn y dyfodol gan fod y safle lle mae Gelli Aur/Golden Grove yn ddigon mawr. Rwy'n siŵr y byddai Gelli Aur/Golden Grove yn croesawu rhywfaint o fuddsoddiad ar gyfer uwchraddio a byddai hynny'n ffraciwn o'r gost rydych chi'n cynnig ei wario ar ysgol newydd sbon ddiangen!
131	Diangen. Rwy'n teimlo bod y ddarpariaeth gyfredol yn Gelli Aur yn ddigonol. Parhewch fel y mae, neu adeiladwch estyniad yn Gelli Aur os oes angen. Mae'r ysgol yn eistedd ar lain fawr iawn.
132	 (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
133	Mae gennyf lawer o wrthwynebiadau i'r cynnig i'r ysgol Gymraeg newydd ym Mhenfro. Nid wyf yn credu y bydd hyn o fudd i'r dysgwyr ifanc yn y gymuned leol. Prif nod y cynnig hwn yw cyflawni nod Llywodraeth Cymru o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Fel ysgol dwy ffrwd, mae disgyblion Gelli Aur yn fwy tebygol o gyflawni'r nod hwn drwy alluogi plant yn y dosbarthiadau Saesneg i barhau i ddysgu ochr yn ochr â'r plant yn y dosbarthiadau Cymraeg. Nododd adroddiad arolygu ESTYN sut yr oedd Cymraeg 2il iaith yn gryf yn ysgol Gelli Aur ac rwy'n credu mai un o'r rhesymau am hyn yw bod y staff yn yr ysgol yn cael y gefnogaeth gan y siaradwyr Cymraeg. Mae'r disgyblion yn clywed y Gymraeg bob dydd ac yn gwneud cynnydd o ran eu safonau. Trwy wahanu'r dysgwyr a'r staff, sydd wedi gweithio'n galed i fod yn ysgol unedig trwy gynllunio a dysgu gyda'i gilydd, bydd yn niweidiol i gynnydd y disgyblion yn ein hiaith Gymraeg. Siawns y dylai dysgu a siarad Cymraeg fod yn rym sy'n uno ym Mhenfro yn hytrach na bod yn ffactor i wahanu plant mewn cymuned leol? Un o nodau'r Cwricwlwm Newydd yw i blant fod yn falch o'u 'Cymreictod' fel sydd wedi'i nodi yn un o'r Pedwar Diben (Plant i fod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus yng Nghymru). Nod Adroddiad Donaldson yw i blant wella eu dealltwriaeth o Gymru a'r iaith. Nid yw gwahanu dysgwyr yn syml yn ôl yr iaith mae eu rhieni yn dewis iddyn nhw ddysgu drwyddi yn cyfleu'r neges gywir i blant. Mae Cyngor Sir Benfro yn wynebu'r risg y bydd plant yn tyfu i fyny gan feddwl nad ydynt yn 'ddigon Cymreig' gan nad ydynt yn dysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. Rwy'n credu'n wirioneddol mai ysgol Gelli Aur yw'r lleoliad gorau i blant deimlo'n falch o fod yn Gymry ac mae'n caniatáu iddyn nhw wrando ar fodolau rôl a chyfoedion yn cyfathrebu yn y Gymraeg mewn bywyd bob dydd. Mae Ysgol Gelli Aur yn ysgol y dylid edrych arni fel model ar sut y dylid rhedeg ysgolion yng Nghymru yn y dyfodol er mwyn symud ymlaen gyda'r Cwricwlwm Newydd. Yn olaf, rwy'n credu nad yw'r adroddiad ymgynghori yn rhoi safbwynt gwrthrychol ar y cynnig hwn. Fel yr wyf wedi'i ddatgan o'r blaen, nododd ESTYN fod Cymraeg 2il iaith yn gryf yn yr ysgol, ac eto nid oedd hyn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. Mae'n amlwg fod awduron hwn yn rhagfarnllyd a'u prif amcan oedd cyflwyno Ysgol Gelli Aur fel ysgol wael lle nad oes cynnydd yn yr iaith Gymraeg. Gan fod yr adroddiad hwn wedi cael ei weld gan rieni, efallai fod rhai wedi cael eu dylanwadu i feddwl, gan Gyngor Sir Penfro, mai cael ysgol ar wahân fyddai'r ffordd orau ymlaen, yn hytrach na bod y cyngor yn darparu safiad gwrthrychol. Mae llawer o sylwadau yn mynd o gwmpas ynghylch y ffordd mae Cyngor Sir Penfro eisoes wedi gwneud penderfyniad a bod ymgynghoriadau'n cael eu cynnal fel 'gwasanaeth gwefus'. Yn anffodus, mae'r ffordd mae'r adroddiad ymgynghori hwn wedi cael ei ysgrifennu yn rhoi'r argraff honno. Rwy'n gobeithio y gall pwy

Cyf.	Sylwadau
	bynag sy'n ymwneud â'r bleidlais hon weld bod yr adroddiad hwn yn oddrychol, yn anwybodus a'i fod ond wedi cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi un safbwynt. Dylai'r arian y mae disgwyl iddo gael ei wario ar adeiladu'r ysgol Gymraeg newydd gael ei roi i ehangu ysgol Gelli Aur a'r ddarpariaeth Gymraeg.
134	Fel rhiant i fyfyrwr cyfrwng Saesneg yn yr ardal, teimlaf fod y cynnig yn parhau i annog agwedd elitaidd tuag at y Gymraeg ym maes addysg. Er gwaethaf yr effaith gadarnhaol mae dysgu Cymraeg yn ei gael a'r manteision sydd i'w dysgu hyd at Gyfnod Allweddol 4, mae'n ymddangos bod rhaniad amlwg rhwng cymorth ac arian ar gyfer y plant hynny sy'n rhugl yn y Gymraeg, a'r rhai sy'n ei dysgu fel rhan o'r cwricwlwm. Mae'r cynnig yn codi nifer o gwestiynau ynghylch yr angen am ysgol cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, er enghraifft; beth yw'r gymhareb o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg a Saesneg, a fydd arian a chefnogaeth gyfatebol ar gael i ysgolion cyfrwng Saesneg? Rwyf yn poeni o ddifrif am ddyfodol fy mhientyn gan ei bod yn ymddangos bod y rhai nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg yn yr ardal hefyd yn gorfod derbyn safon o ddysgu sy'n llai na boddhaol pan fyddan nhw'n cyrraedd yr ysgol uwchradd. Faint o'r ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn yr ardal sydd wedi cael eu sgorio'n foddhaol neu'n dda? Rwy'n credu bod hyn o ganlyniad i gyllid a chanfyddiad amrywiaeth o randdeiliaid fel rhieni ac athrawon, lle mae myfyrwyr yn symud ysgolion neu athrawon yn ail-hyfforddi er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn, neu'n rhan o, lefel dda o addysg. O ganlyniad, mae safonau ac ymddygiad hefyd yn dirywio, gan achosi arwyddocâd negyddol yn gysylltiedig ag ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae'n sicr y bydd y cynnig yn parhau i geisio annog y canfyddiad elitaidd hwn o'r Gymraeg mewn ysgolion. Dylid ariannu a chefnogi pob ysgol yn yr ardal yn gyfartal.
135	Sut mae'n ymddangos bod pot o arian hud ar gyfer y Gymraeg? Mae ysgolion, a llawer o wasanaethau eraill, ledled Cymru yn cael trafferth ariannol ac eto, dyma £5.9 miliwn ar gyfer ysgol newydd er bod un berffaith dda ym Mhenfro. Darllenais adroddiad Estyn ar Greenhill neithiwr, ac roedd yn ddigon i godi cywilydd. Yno yn gwyno mae'r rheswm pam mae Ysgol Hafan y Môr wedi tyfu mewn poblogrwydd ac y bydd yn gwneud yn awr yn fwy fyth mae'n debyg! Mae gen i lawer o ffrindiau yn Ninbych-y-pysgod ac maen nhw'n disgrifio beth ddigwyddodd gyda gwahanu'r ddwy ysgol - wedi'u gwahanu gan ffens fetel gydag ychydig iawn o gydweithio rhyngddynt - fel apartheid addysgol. Fe wnaeth fy mhiant, a aeth i ddosbarthiadau Saesneg Gelli elwa o fod gyda siaradwyr Cymraeg ac o'u cwmpas, ac mae'r cyngor am gymryd hynny i ffwrdd? Dylai'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg ganolbwyntio ar y rhai nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg, nid eu gwahanu i ysgol wahanol. Os ydych chi eisiau gwella a chynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn rygbi, dydych chi ddim yn canolbwyntio ar rai sydd eisoes yn chwarae! Yn ogystal â sefyllfa Greenhill, mae'r ysgolion uwchradd yn Aberdaugleddau, Penfro a Hwlfordd hefyd wedi cael canlyniadau gwael gan Estyn a chanlyniadau gwael o ran categoraidd. Beth yw strategaeth y cyngor ar gyfer hyn? Ai cael pawb mewn ysgol sy'n cael ei rhedeg gan bennaeth Preseli? Mae'n amlwg bod y cyngor yn gwneud cam â'r mwyafrif llethol o'n plant ysgol uwchradd, gyda'r Cynghorydd Guy Woodham hyd yn oed yn ceisio taflu'r baich ar Greenhill drwy ddweud bron eu bod nhw wedi rhoi'r

Cyf.	Sylwadau
	gefnogaeth angenrheidiol i mewn, a'i bod hi'n siomedig na wnaed digon o gynnydd. Pryd mae'r cyngor yn mynd i ddeffro a herio addysg yn Sir Benfro - ymddygiad, gwaharddiadau, presenoldeb, safonau -mae'r rhestr yn mynd ymlaen! Mae'n debyg y bydd yr arolygiad sydd ar ddod yn dangos llwyddiant y tîm addysg! A dydw i ddim hyd yn oed wedi sôn am iechyd meddwl plant. Mae tri o blant wedi marw drwy hunanladdiad yn ystod y blynyddoedd diwethaf o YHT. Pa ymdrechion sy'n cael eu gwneud gan y cyngor ar y mater hwn, gan nad yw fy mhlant yn ymwybodol o unrhyw beth 'ychwanegol' yn yr ysgol. Faint o arian sydd wedi mynd i hynny? Beth yw strategaeth y cyngor ar gyfer gwella iechyd meddwl plant? Mae ein merch yn dioddef o [REDACTED] ac, er mor dda yw'r gefnogaeth rydyn ni wedi'i chael gan YHT, daeth y cymorth gwirioneddol pan fu i ni fod yn rhagweithiol a chael cymorth gan y tîm [REDACTED]. Duw yn unig a wŷr lle byddem wedi bod hebddyn nhw. Rwy'n siŵr y bydd digon o bobl yn cefnogi hyn, yn enwedig siaradwyr Cymraeg balch a'r rhai sydd yn y system. Ond teimlaf fod y bobl hyn yn datblygu golwg hunanol ar ddatblygiad y Gymraeg, 'Rydw i am i'm plentyn fynd i Breseli/Caer Elen ac rydw i'n iawn'. Popeth i osgoi'r ysgolion uwchradd Saesneg mawr. Os yw'n wir fod y rhan fwyaf o rieni'n dewis Cymraeg i osgoi ysgolion penodol, yna mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn cyn unrhyw drafodaeth ar ysgol newydd gan ei fod yn gwaethgu'r bwlch. Yn olaf, fe wnaeth fy mechgyn elwa'n gymdeithasol yn ogystal ag yn ieithyddol o fod mewn ysgol dwy ffrwd, yn chwarae gyda phlant o ddwy ochr yr ysgol gan eu bod i gyd o ardal Penfro. Ac yn yr un modd gyda phlant yn y dosbarthiadau Cymraeg. Bydd hyn yn dod i ben gyda chreu ysgol newydd. Rhowch yr arian lle mae ei angen yn Ysgolion Sir Benfro, gan gynnwys gwneud yn siŵr bod gan Gelli y capasiti ar gyfer unrhyw ehangu - gan ei fod yn safle enfawr. Lluniwch gynllun strategol ar gyfer cydraddoldeb yn ein system addysg fel y gall pob plentyn lwyddo yn Sir Benfro. Lluniwch gynllun strategol iechyd meddwl a buddsoddi'n helaeth yn hyn. Dylid osgoi gwahanu mewn addysg - bod yn gynhwysol o fanteision ieithyddol ysgol dwy ffrwd. (Mae rhai sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – gwybodaeth bersonol a allai fod yn sensitif)
136	Pwysig irhoi cyfle i plant yr ardal cael mynediad i addysg gymraeg heb gorfod teithio.
137	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
138	Teimlaf fod angen cefnogi rhieni sy'n dymuno addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant ym Mhenfro mewn ysgol benodedig yn hytrach nag mewn ffrwd Gymraeg. Fe fydd yn rhoi cyfle i feithrin amgylchedd Gymraeg a Chymreig i'r disgyblion a'r staff ac o'r herwydd credaf y bydd niferoedd y rhieni sy'n dymuno addysg Gymraeg i'w plant yn cynyddu. Fe fydd hyn hefyd o fantais i'r disgyblion wrth iddynt drosglwyddo i adran uwchradd Ysgol Caer Elen.
139	Credaf fod angen ysgol Gymraeg yn ardal Penfro, gan fod ysgolion yn darparu addysg Cymraeg yn ardal Hwlfordd a Chrymym, felly mae angen un yn ardal Penfro er mwyn cynnig addysg i blant sydd ddim yn yr ardaloedd hynny. Os fydd ysgol Gymraeg ym Mhenfro, ni fydd gofyn i ddisgyblion o'r ardal hynny deithio i ysgolion mewn ardaloedd bell i ffrwd er mwyn derbyn addysg Gymraeg, ac yn hytrach,

Cyf.	Sylwadau
	byddant yn medru mynychu ysgol sydd yn eu hardal nhw. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod mwy o lefydd mewn ysgolion yng ngweddill Sir Benfro i blant sydd yn dod o'r ardal hynny. Dim
140	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
142	Nid oes digon o leoedd dros ben i warantu adeiladu ysgol newydd yn yr ardal hon. Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael eisoes yn y dref, byddai ysgol newydd yn difrodi'r boblogaeth ysgol yn y sefydliad hwnnw. Fel y gwelwyd mewn ardaloedd eraill lle mae hyn wedi digwydd, bydd sawl ysgol leol yn ei chael hi'n anodd cadw disgyblion pan fydd rhieni'n cael y cynnig o ysgol newydd sbon sy'n arwain at broblemau diswyddo ar draws yr awdurdod. Os yw'r arian wedi'i glustnodi ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, oni ellir ei ddefnyddio i gryfhau'r ddarpariaeth sydd eisoes ar gael yn yr awdurdod? Os nad yw wedi'i neilltuo yna'n sicr gellir ei ddefnyddio i gryfhau'r holl addysg ar draws yr awdurdod.
143	Nid yw Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Llandyfái yn cefnogi'r cynnig i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ym Mhenfro. Ein rhesymeg yw - 1. Mae pob ysgol Cyfrwng Cymraeg yn Sir Benfro wedi'u gosod yn chwarterl 1 prydau ysgol am ddim gyda chyfartaledd o 6.6%. Mewn cymhariaeth, Ysgol Harri Tudur sydd yn chwarterl 4 gyda 24.4% o'r disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim. Mae Estyn yn datgan - 'Mae cysylltiad ystadegol cryf rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol isel. Yn gyffredinol, nid yw dysgwyr o deuluoedd tlotach yn cyflawni cystal â'u cyfoedion.' Amddifadedd Disgyblion 2014, Estyn. Mae gennym bryderon mawr y bydd canrannau prydau ysgol am ddim yn cynyddu goramser yn YHT ac y bydd hyn yn effeithio'n sylweddol ar safonau a darpariaeth. 2. Cafwyd llawer o sylwadau cadarnhaol yn arolygiad diweddar Estyn ynghylch y ddarpariaeth gyfredol yn Gelli Aur a gwnaed cynnydd da ers yr arolygiad hwn ar draws yr ysgol megis 'Mae sgiliau iaith disgyblion wedi gwella'n fawr. Ac 'Mae athrawon grŵp blwyddyn ar draws y ffrydiau Cymraeg a Saesneg bellach yn cynllunio'n effeithiol gyda'i gilydd gan sicrhau bod gan ddisgyblion fynediad cyfartal i'r cwricwlwm. 3. Ysgrifennwyd y ddogfen hon gyda thystiolaeth gyfyngedig i gefnogi'r achos dros ddarpariaeth Gymraeg ar wahân ym Mhenfro. Mae llawer o ddatganiadau yn y ddogfen megis, 'Ystyrir bod.....' nad ydynt yn cael eu hategu gan unrhyw dystiolaeth. 4. Ar hyn o bryd mae ysgol Gelli Aur, adeiladau a llety wedi'u graddio fel 'C' (gwael), tra bod ysgolion lleol eraill yn dal i ddarparu ar gyfer disgyblion mewn cabanau cludadwy (Llandyfái). Gydag adeilad newydd ar gyfer ysgol Gymraeg yn yr ardal, mae gennym bryderon na fydd y gost o ddiweddarau Gelli Aur mewn perthynas â disgywiliadau Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael eu cyflawni heb sicrhau bod refeniw ychwanegol ar gael. 5. Mae'r ddogfen ymgynghori'n nodi mai prin yw'r dystiolaeth bod y twf diweddar yn niferoedd y disgyblion yn y ffrwd Gymraeg, fodd bynnag, mae'r tabl ar dudalen 11 yn dangos cynnydd o saith plentyn 3 mlwydd oed a gofrestrwyd ym mis Ionawr 2016 i ugain o blant 3 mlwydd a gofrestrwyd ym mis Medi 2019. Mae hyn yn dangos bod twf a chynaliadwyedd posibl yn Ysgol Gelli Aur.

Cyf.	Sylwadau
	Cynnal y <i>status quo</i> . Mae tystiolaeth fel sy'n cael ei amlygu yn ein hymateb fod y nifer o ddisgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn Ysgol Gelli Aur yn dangos twf. Mae Estyn wedi adrodd bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn yr ysgol ar draws ffrydiau Cymru a Saesneg sy'n dangos bod gan yr ysgol Ethos Cymreig sydd effeithio ar gynnydd yn y niferoedd sy'n cael eu denu i'r ffrwd Gymraeg yn ddiweddar iawn.
144	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
145	Roeddem yn byw yn Noc Penfro ac fe wnaethom anfon ein merch i Ddinbych-y-pysgod ar gyfer yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg agosaf. Rydym bellach wedi symud tŷ er mwyn helpu i gefnogi ei haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
146	Bydd hyn yn rhoi fy ŵyr/wyres Saesneg ei iaith/hiaith o dan anfantais. Bydd peidio â chael athrawon a phlant yn yr ysgol sy'n siarad Cymraeg yn creu bwlch yn yr iaith Gymraeg sydd eisoes yn bodoli. Mae fy ŵyr/wyres yn siarad Cymraeg sylfaenol fydd wir yn rhoi llwyfan iddo/iddi yn ddiweddarach yn ei fywyd/bywyd. Rydych yn dweud mewn arolygiad diweddar fod Estyn wedi dweud nad oedd plant Cymraeg eu hiaith yn siarad yr iaith yn yr iard chwarae ac eto rydych yn awgrymu yn yr ysgol newydd y byddan nhw'n gwneud hynny, ac eto ar ôl ysgol gallant siarad Saesneg â'u ffrindiau yn eu hamser cymdeithasol. Beth sy'n mynd i ddigwydd i'r plant hynny lle nad yw'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt? Onid ydynt yn mynd i gael eu haddysgu yn y Gymraeg o gwbl ac yn sicr byddant dan anfantais am nad yw eu cyfoedion sy'n siarad Cymraeg yn eu hysgol? Adeilad newydd yn safle Gelli Aur efallai. Fodd bynnag, mae'n debyg eich bod eisoes wedi gwneud eich meddwl i fyny!
147	Yr wyf yn llwyr gefnogi'r cynnig. Mae'n hanfodol bod ysgol gynradd newydd yn cael ei sefydlu ym Mhenfro am nifer o resymau. 1. Bydd yn cefnogi sefydlu a datblygu Ysgol Caer Elen. Gyda'r ysgol newydd ym Mhenfro, ni fydd Ysgol Caer Elen yn cyrraedd capasiti ac felly ni fydd byth yn cyrraedd ei photensial gwirioneddol. 2. Mae'r ffrwd Gymraeg bresennol yn Gelli Aur wedi cael adborth negyddol yn eu hadroddiad Estyn ac mae'r niferoedd wedi lleihau. Mae hyn yn bosiblirwydd sy'n peri pryder i'r awdurdod. Mae'n amlwg bod angen ysgol Gymraeg newydd. 3. Mae tystiolaeth glir bod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Sir Benfro wedi bod yn llwyddiant h.y. Ysgol Caer Elen/Ysgol Hafan y Môr 4. Byddai'n droseddol colli'r arian sydd ar gael i adeiladu ysgol newydd wych yn yr awdurdod. 5. Bydd datblygu ysgol newydd yn dod â chyfleoedd newydd i Benfro/Sir Benfro h.y. gwaith
148	Teimlaf yn gryf iawn bod angen sefydlu'r Ysgol gynradd Cymraeg ym Mhenfro. Ar ol clywed am holl lwyddinat Ysgol Hafan y Mor ac Ysgol Caer Elen mae'n amlwg bof ffurfio ysgolion newydd uniaith Cymraeg yn gweithio ac yn boblogaidd. Braf iawn yw gweld gymaint o ddiddoreb mewn addysg Gymraeg ac felly byddai methu manteisio ar y cyfle euraidd hyn yn warthus.
150	Er y byddai cael un ysgol Gymraeg o fudd i'r rhai yn y ffrwd Gymraeg, bydd yn cael effaith negyddol ar safonau'r Gymraeg yn y ffrwd Saesneg ac ni fydd hyn yn cefnogi nod y sir i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ar hyn o bryd mae'r ddwy ffrwd yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd ac mae'r staff wedi gweithio'n galed iawn i waredu'r ysgol o hollt Seisnig / Cymreig. Ar hyn o bryd rydym yn ffodus iawn o'r tiroedd sydd gennym yn Gelli Aur lle gall plant gael mynediad i'n coetir, pwll a mannau chwarae ein hunain - sydd wedi'u creu

Cyf.	Sylwadau
	drwy gyngor yr ysgol ac ati. Oherwydd y tiroedd mawr a nifer y staff yn ein hysgol, rydym yn gallu cynnig amrywiaeth enfawr o weithgareddau chwaraeon. Mae hyn yn allweddol ar gyfer lles disgyblion. Yn ogystal â hyn, mae dau aelod gwrywaidd o staff yn fodolau rôl allweddol i'n disgyblion. Byddai gwahanu'r ddwy ffrwd yn golygu na fyddai gennym unrhyw staff gwrywaidd i gyflawni'r rôl hon. Ar hyn o bryd, mae disgyblion o'r ddwy ffrwd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau tîm gyda'i gilydd ac wedi datblygu cyfeillgarwch cryf drwy weithgareddau o'r fath. Yn y ddogfen ymgynghori, mae'n cyfeirio at lwyddiant Hafan y Môr ers iddyn nhw ddod yn ysgol Gymraeg yn unig. Fodd bynnag, mae canlyniadau'r profion cenedlaethol yn is nag ydyn nhw ar gyfer disgyblion ym Mlynnyddoedd 2 a 6 yn ein ffrwd Gymraeg. Wrth gystadlu yn yr Eisteddfod ardal yn gynharach eleni, roedd safon y Gymraeg yn y cystadlaethau llefaru yn amlwg yn well gan ein disgyblion ni. Mae llawer o rieni wedi rhoi adborth i ni am eu barn o ran cael ysgol Gymraeg newydd ac wedi dweud, petaem yn gwahanu, y byddent yn symud eu disgyblion i'r ffrwd Saesneg fel y gallent aros yn lle maen nhw. Rwyf yn cytuno'n llwyr y dylid cael ymgyrch i hyrwyddo'r Gymraeg yn ardal Penfro. Byddai'n bosibl gwneud hyn drwy ein helpu i hyrwyddo ein ffrwd Gymraeg a sefydlu cylch meithrin ar ein safle er mwyn darparu'r Gymraeg cyn gynted ag y bydd plant yn dechrau ar eu taith ysgol. Dylai plant o ardaloedd cyfagos fod â hawl i gludiant i'n ffrwd Gymraeg a byddai hynny'n helpu niferoedd yn y dosbarthiadau Cymraeg i dyfu,
151	Ie, da iawn - syniad da Cyngor Sir Penfro, gadewch i ni fanteisio i'r eithaf ar yr arian hael hwnnw gan Lywodraeth Cymru.
152	Mae darpariaeth sefydledig eisoes ar gyfer addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn Gelli Aur/Golden Grove. Byddai darparu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn cael effaith niweidiol ar ethos y gymuned ysgol honno yn ogystal â'r gymuned ehangach. Byddai sgil-effaith anochel i Ysgol Harri Tudur/Henry Tudor sy'n newydd ac yn gwella, gan y byddai mwy o ddisgyblion yn cael eu hannog i symud i ffwrdd o Benfro i barhau â'u haddysg. Ni ddylid diystyru effaith amgylcheddol naill ai ar wahân i effaith yr adeilad newydd ac effaith y llygredd cynyddol o draffig ychwanegol ar ffordd sydd eisoes yn orlawn, a'r disgwyl yw y bydd hyn yn annog mwy i deithio i Hwlfordd yn y pen draw ar ffyrdd sydd eisoes yn llawn tagfeydd. Er ei bod yn ddymunol darparu addysg cyfrwng Cymraeg, yn yr achos hwn rydych chi'n bwriadu cael gwared ar y ddarpariaeth bresennol, sy'n gwella, er mwyn ail-greu'r ddarpariaeth dim ond am fod arian yn cael ei gynnig. Unwaith y bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau, gan dybio bod y penderfyniad eisoes wedi cael ei wneud a'r ymgynghoriad felly'n golygu dim, sut fydd costau rhedeg yr ysgol honno yn cael eu talu? Mae lleihau'r cyllid ar gyfer yr holl ysgolion eraill sy'n bodoli i dalu amdano yn gwbl annerbyniol ac mewn gwirionedd mae'r holl fater hwn, gellid dadlau, yn ymylu ar fod yn annog hiliaeth yn ein cymdeithas. Teimlaf fod agenda cudd yn y cynllun hwn gan mai'r pwyslais ers blynnyddoedd fu cael gwared ar leoedd gwag mewn ysgolion, byddai hyn yn gadael Gelli Aur/Golden Grove gyda chapasiti sbâr. Ni allaf fod yr unig un sy'n credu bod dyfodol Ysgol Llandyfái yn sicr o dan fygythiad hefyd dan y cynigion hyn.

Cyf.	Sylwadau
	I roi cymorth i Gelli Aur/Golden Grove i wella eu cyfleuster presennol gyda chyllid i wella eu safonau addysg ymhellach drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel un a fu'n gweithio yn yr ysgol hon, byddwn yn tynnu sylw at y problemau o allu recriwtio digon o staff â chymwysterau addas yn yr ardal hon gan fod y rhan fwyaf yn ffafrio swyddi yn ardal Sir Gaerfyrddin lle mae llawer mwy o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.
153	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
154	Nid ydym yn cefnogi'r cynnig. Dylai'r Gymraeg fod yn gyfle cyfartal a mynediad i bawb. Mae gwahanu ysgolion yn ôl iaith yn achosi mwy o arwahanu yn ôl iaith a bydd yn niweidiol i ddatblygiad y Gymraeg ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn y sefydliad Cymraeg. Rydym am i bawb allu siarad Cymraeg a gellir helpu hyn drwy gael siaradwyr Cymraeg ym mhob ysgol. Bydd tynnu arbenigedd Cymraeg staff a disgyblion allan o ysgolion cyfrwng Saesneg yn ei gwneud yn anoddach i bob ysgol arall wneud cynnydd wrth ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg. Mae'r ddogfen ymgynghori yn rhagfarnllyd ac nid yw'n gwbl ffeithiol gywir. I gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ni fyddwch yn ei gyflawni drwy arwahanu, ond yn ei wneud drwy ganolbwyntio ar y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg. Os oes galw mawr am addysg iaith cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, mae corff llywodraethu PDCS yn cynnig bod yr ysgol yn creu uned Gymraeg o fewn yr ysgol. Credwn y bydd cadw'r arbenigedd o fewn yr ysgol yn cefnogi datblygiad y Gymraeg i bawb.
155	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
156	Yn gyntaf, mae sut y gall Llywodraeth Cymru ddarparu'r symiau mawr hyn o arian i hyrwyddo'r Gymraeg pan fo cyllidebau addysg ledled y wlad yn cael eu hystredu i'r eithaf yn annealladwy i mi. Rydyn ni'n cael plant mor ifanc â 9 yn ein hysgol ni'n dweud eu bod nhw eisiau 'lladd eu hunain' ac nid yw hyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cymorth. Fel y dywedodd Dr Simmonds wrthym, mae'r sylwadau hyn wedi dod yn norm. Mae iechyd meddwl plant yn bryder gwirioneddol i ni yn yr ysgol ac yn y blynyddoedd diwethaf, mae tri o blant o'r ardal hon wedi cyflawni hunanladdiad gydag un digwyddiad diweddar iawn yn Noc Penfro. Pa gymorth ariannol a roddwyd i'r maes hwn i gefnogi'r mater hwn? Ychydig iawn yr wyf yn ei ofni. Yr oedd y ddogfen ymgynghori'n sarhad ar y gwaith da sy'n digwydd yn Gellir Aur lle na nodwyd unrhyw gryfderau, ac mae'r gefnogaeth i'r cynnig, ar y gorau, yn seiliedig ar dybiaeth. Mae rhagdybio y byddai ysgol ym Mhenfro yn dilyn llwybr tebyg i Hafan y Môr yn Ninbych-y-pysgod yn freuddwyd gwrach gan eu bod yn ddwy ardal ddemograffig wahanol iawn. Mae adnabod llawer o bobl o ardal Dinbych-y-pysgod wedi rhoi cipolwg i mi ar gynnydd ym mhoblogrwydd yr ysgol ac nid yw wedi codi o awydd dirybudd i siarad Cymraeg, mae'n ddewis er mwyn osgoi Ysgol Greenhill a mynd i'r ysgol sydd yn y 3ydd safle o ran ysgolion gorau yng Nghymru. Nid yw hyn yn deg. Sut y gall CSP eistedd yn ôl a gwyllo tranc addysg uwchradd yn yr ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg mawr yn Sir Benfro, oherwydd nid yw hyn wedi digwydd dros nos! Mae hyn wedi bod tua 10 mlynedd, i gyd gyda Kate Evan-Hughes 'ysbrydoledig' ar y brig neu ger y brig. Dylai CSP ganolbwyntio'n llwyr ar sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg deg yn eu

Cyf.	Sylwadau
	hysgolion. Dylai clywed pobl yn disgrifio'r sefyllfa yn Ninbych-y-pysgod fel Apartheid Addysgol fod yn bryder i bob un ohonom. Yr hyn sydd hefyd yn ddiddorol yw'r cymariaethau parhaus â Hafan y Môr, ac eto roedd ein sgorau prawf yn uwch na'u sgorau ar gyfer Blwyddyn 2 a Blwyddyn 6 yr haf diwethaf (yr unig sgoriau prawf sydd ar gael). Yr hyn oedd yn ddiddorol hefyd oedd nad oedd yr Asesiadau Athrawon ar gyfer yr ysgol yn ymwneud â sgorau'r profion. Roedden nhw'n amlwg yn lwcus iawn nad oedd ganddynt yr un tîm arolygu a oedd gennym ni gan y byddai hynny'n sicr wedi effeithio ar eu barn. Hefyd, mae'r ddogfen yn gwrthddweud ei hun. Ar y dechrau mae'n dweud bod cwrmpas i ysgol newydd ddelio â'r niferoedd mawr o ddisgyblion yn yr ardal. Ond yn nes ymlaen mae'n amlygu gostyngiad sylweddol mewn cyfraddau defnydd yn arwain at 2024. Felly, byddai'n hawdd darparu ar gyfer y posibilrwydd o 75 o blant o ddatblygiadau tai newydd ar draws Penfro a Doc Penfro o fewn y ffigurau a gynhyrchwyd. I ychwanegu at hyn, mae'n ddiddorol y byddai'r cynlluniau ar gyfer yr ysgol newydd yn cynnwys Cylch Meithrin. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym wedi gofyn amdano yn yr ysgol dros nifer o flynyddoedd a hynny'n ofer. Byddai Cylch Meithrin yn caniatáu i ni ddarparu dechrau cynnar da i'r Gymraeg yn yr ysgol, fyddai'n ein galluogi i adeiladu arni. Byddai hyn yn cael effaith ar ein gallu i ddatblygu ein ffrwd Gymraeg ymhellach fyth. Cafodd Cymraeg Ail Iaith ei nodi yn gryfder gwirioneddol yn yr ysgol, sydd yn sicr yn ganlyniad i'r ffaith ein bod yn ddwy ffrwd. Rwy'n credu mai dyma'r ffactor pwysicaf mewn gwirionedd yn yr holl ymgynghoriad hwn, gan mai'r hyn y mae'r cynnig yn ei ddweud yw mai Addysg Gymraeg Iaith Gyntaf yw'r unig ffocws i nod LIC o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae'n dweud nad yw darpariaeth Gymraeg i'r 240 o blant yn ein ffrwd Saesneg yr un mor bwysig. Gallem ddeall a byddem yn cefnogi'r cynnig pe bai'n Aberdaugleddau, er enghraifft, gan nad oes darpariaeth yn y dref fawr iawn honno ac mae nifer dda o'r dref yn cael eu cludo i Gaer Elen. Os bydd y penderfyniad hwn yn mynd yn ei flaen, mae'n dweud wrthym yn y bôn nad yw Cymraeg Ail Iaith bellach mor bwysig felly gallwn ganolbwyntio ar y meysydd eraill. Roeddem ni fel staff hefyd yn teimlo pryder ynghylch sylwadau Kate ynglŷn â mwy o angen am y Gymraeg a sut mae Sir Fynwy, fel awdurdod, yn rhoi blaenoriaeth lawer uwch i hyn ar gyfer eu penodiadau. Pa mor hir fydd hi cyn bydd bod yn Gymraeg/di-Gymraeg ond yn siarad Saesneg yn nodwedd warchodedig yng nghynlluniau cydraddoldeb strategol yr ysgol! Mae'r ddogfen yn nodi y byddai'r ddwy ffrwd mewn sefyllfa well i fynd i'w cyfeiriad eu hunain gyda dyfodiad y Cwricwlwm Newydd. Rydym wedi cydweithio llawer mwy yn ddiweddar ac yn gweithio'n gryf gyda'n gilydd ar y CN. Mae'r datganiad yn gwbl anghywir. Nid ydym wedi cael unrhyw gymorth gan yr ALL ar y CN ac rydym wedi ei wneud ein hunain yn effeithiol. Yr hyn sy'n werth ei nodi hefyd yw bod yr arolygiad wedi nodi bod y Ffrwd Saesneg yn gryfach o lawer na'r Ffrwd Gymraeg a bod yr arbenigedd yn bodoli o fewn yr ysgol i gefnogi'r Ffrwd Gymraeg, sef yr hyn sydd wedi digwydd. Ni fydd hyn ar gael pe bai'r ddwy ffrwd yn cael eu gwahanu gan y bydd yr ysgolion, fel y sefyllfa yn Ninbych-y-pysgod, yn cystadlu â'i gilydd. Yn olaf, bydd y newid yn cael effaith andwyol ar y gweithgareddau a'r profiadau eang mae'r ysgol yn eu cynnig, yn fwy felly ar y Ffrwd Gymraeg. Bydd y gallu i ddarparu'r ystod o glybiau, darpariaeth cerddoriaeth a darpariaeth ddrama yn lleihau.

Cyf.	Sylwadau
	Penodwch gyfarwyddwr sydd â strategaeth ar gyfer gwella addysg ar draws Sir Benfro ar gyfer pob plentyn. Mae'n ymddangos i mi ei bod am adael gwaddol o gynyddu darpariaeth Gymraeg ar draul safonau ar draws ein sir. Dylid cael Cyngor sy'n herio LIC ar eu blaenoriaethau gwario.
157	Cynllwynio cymdeithasol hurt i orfodi ysgol Gymraeg ei hiaith ar ardal Saesneg
158	Nid oes galw am ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Sut mae'r ysgol yn mynd i oroesi gyda dosbarthiadau blwyddyn sengl os nad oes ganddi'r rhifau i'w llenwi. Sut fedrwn chi gyfiawnhau mwy o arian i fesul plentyn os ydyn nhw'n siarad Cymraeg yn hytrach na Saesneg??? Does dim tystiolaeth bod angen yr ysgol hon. Mae angen i chi wario arian ar ysgolion sy'n bodoli eisoes cyn creu ysgol a fydd yn cymryd arian oddi ar y rhai sy'n bodoli eisoes. Mae'r safleoedd arfaethedig yn hurt a byddant ond yn ychwanegu at sefyllfa draffig sydd eisoes yn beryglus. Nid yw'r holl beth wedi'i ystyried yn dda. Mae siaradwyr Cymraeg/dosbarthiadau canol yn elwa ar draul siaradwyr Saesneg. Dylech wella eich ysgolion presennol a'r uned Gymraeg mewn ysgol sydd eisoes yn darparu'r gwasanaeth ac yn perfformio'n well nag ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg lleol eraill
160	Rwy'n credu bod angen ysgol gynradd Gymraeg ym Mhenfro ond rwy'n credu bod y lleoliad yn anghywir. Mae ysgol uwchradd brysur (Saesneg ei hiaith) eisoes yn defnyddio'r un fynedfa.
161	 (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
162	Chwerthinllyd. Buddsoddwch arian yn yr ysgol sydd eisoes yn darparu darpariaeth addysgol Cymraeg yn yr ardal - Gelli Aur!
163	 (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
165	Mae angen gwario arian ar yr ysgolion presennol yn y clwstwr sydd ag adeiladau a chyfleusterau annigonol. Nid oes angen ysgol cyfrwng Cymraeg gan fod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dod o gefndiroedd Saesneg. Buddsoddwch yn yr ysgolion presennol.
166	Mae fy mab eisoes yn mynychu Gelli Aur ac mae maint ei ddosbarth yn gymharol fach yn y ffrwd Gymraeg. Mae rhieni yn dweud y byddent yn anfon eu plant i ysgol Gymraeg pe bai ar gael ond mae ar gael ac nad yw'n cael ei ddefnyddio! Byddai ysgol newydd yn wastraff llwyr. Buddsoddwch yr arian yn Gelli Aur i wella ei Uned Gymraeg bresennol sydd o safon ragorol ac nad yw'n cael ei ddefnyddio'n agos at ei photensial llawn
167	

Cyf.	Sylwadau
	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
168	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
169	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
170	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
171	Darpariaeth sydd ei hangen yn fawr ac yn gwbl hanfodol er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg mewn ardal draddodiadol uniaith Saesneg. Dim
172	Teimlaf fod cynnig y cyngor yn gam cadarnhaol tuag at sicrhau mwy o ddewis i rieni, h.y. drwy roi cyfle i blant ffynnu mewn lleoliad fyddai'n eu hymdrwytho yn y Gymraeg fel Hafanymor yn Ninbych-y-pysgod. Mae Gelli yn parhau yn ysgol cyfrwng Saesneg greiddiol, gydag uned Gymraeg wedi'i hychwanegu. Ymddengys fod hyn yn cael ei adlewyrchu yn adroddiad Estyn y llynedd.
174	Mae Gellir Aur eisoes yn gwasanaethu ardal Penfro. Lleoliad - Rwyf wedi cael gwybod y gallai'r ysgol newydd arfaethedig fod wedi'i lleoli ar safle presennol Greenlinks. Mae'n annerbyniol y gallai'r cynnig hwn beryglu Greenlinks. Mae Greenlinks yn cynnig achubiaeth i ddisgyblion sydd eisoes wedi cael eu gadael lawr gan addysg y brif ffrwd a dylid gwneud pob ymdrech i gadw a gwella'r cyfleuster hwn. Gellid gwario arian yn well ar wella safon addysg yr ysgolion presennol (sy'n wael) a chyflogi mwy o athrawon (o safon dda). Dylid ystyried lleoliad arall fel nad yw addysg pobl eraill yn cael ei pheryglu er mwyn darpariaeth newydd sydd eisoes yn bodoli ar ffurf Gelli Aur.
175	Mae'r aelodau'n teimlo bod digon o ysgolion yn yr ardal i ddarparu ar gyfer anghenion Cymraeg mewn addysg. Nid oedd yr aelodau'n cytuno â'r safle arfaethedig ar gyfer yr ysgol. Addysg Gymraeg yn parhau o fewn yr ysgolion presennol sy'n cael eu darparu yn y sir
176	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
177	Mae'r drefn bresennol o gyfrwng y Gymraeg a chyfrwng Saesneg yn Gelli yn gweithio. Byddai'n well buddsoddi cost adeiladu ysgol newydd mewn cyfleusterau addysg presennol. Efallai y gellir cynyddu nifer yr athrawon/dosbarthiadau yn yr ysgol bresennol. Mae'r tir yn Gelli yn caniatáu ar gyfer darparu gweithgareddau allgyrsiol rhagorol ar ôl ysgol na fyddai ar gael yn yr ysgol newydd. Cadwch at y drefn bresennol, defnyddiwch yr arian sydd wedi'i glustnodi i adeiladu'r ysgol hon ar wella'r cyfleusterau presennol.

Cyf.	Sylwadau
178	Bydd yn effeithio nid yn unig ar ffrwd Saesneg ond ar y ffrwd Gymraeg o blant gyda chyllideb ysgolion. Gadewch Gelli Aur fel y mae. Mae wedi bod yn gweithio'n berffaith ar gyfer y ddwy ffrwd.
179	Mae fy mab eisoes yn mynychu Ysgol Gelli Aur trwy gyfrwng y Gymraeg ac wedi derbyn addysg wych hyd yn hyn. Mae wedi ymgartrefu, yn hapus ac yn ffynnu yn yr ysgol. Rwy'n gryf yn erbyn y cynnig o ysgol newydd gan fy mod yn teimlo bod hyn yn gwbl ddiangen gan fod darpariaeth Gymraeg eisoes ar gael. Gadewch yr addysg Gymraeg fel ag y mae yn Ysgol Gelli Aur. Mae'r cynnig hwn yn achosi straen diangen i rieni, staff a phlant. Mae Ysgol Gelli Aur yn ysgol wych sy'n cefnogi plant Cymraeg a Saesneg, ac mae hyn yn gweithio'n dda. Mae'r system dwy ffrwd yn gweithio'n eithriadol o dda ac mae'n hyfryd gweld y cydweithio a'r ymgysylltu cefnogol sy'n digwydd rhwng plant a staff a gweld nad yw'r rhwystrau iaith yn effeithio ar unrhyw agwedd. Mae'n braf hefyd gweld y lefelau uchel o Gymraeg ail iaith a gweld y plant hynny sydd yn y ffrwd Gymraeg yn dysgu rhai ymadroddion Cymraeg i blant y ffrwd Saesneg. Wrth ddewis lleoli fy mhleintyn yn y ffrwd Gymraeg fe wnes i'r penderfyniad hwn ar sail y ffaith y byddai lefel ei Saesneg o safon uchel hefyd. Mae'n cael cyfle i wneud grwpiau o ffrindiau yn y ddwy ffrwd ac yn cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg. Mae'n teimlo'n gartrefol ac yn hapus yn ei amgylchedd dysgu a theimlaff y byddai symud ysgolion yn effeithio ar ei les personol yn ogystal â'i ddysgu. Rwy'n ansicr iawn p'un a fyddai fy mhleintyn yn symud i'r ysgol arfaethedig neu a fyddai'n parhau â'i addysg drwy gyfrwng y Saesneg, gan nad wyf yn credu y byddai am symud o amgylchedd lle mae'n teimlo'n hapus, yn ddiogel ac wedi ymgartrefu ynddo. A minnau'n gyn-ddisgybl o Ysgol Gelli Aur ac yn athrawes fy hun, mae'n drist iawn gweld yr ysgol hon yn cau ei huned Gymraeg ac yn dod yn ysgol cyfrwng Saesneg yn unig, yn enwedig pan fo'r ysgol yn gweithio'n dda fel y mae. Mae plant a staff Ysgol Gelli Aur fel teulu ac mae'n drueni meddwl y gallai hyn ddod i ben. Rwy'n gobeithio y bydd barn a safbwyntiau pawb yn cael eu hystyried gan fy mod yn teimlo y bydd y mwyafrif yn cefnogi gadael pethau fel y maen nhw. Nid oes angen newid rhywbeth pan nad oes rheswm iddo gael ei newid.
180	Mae angen enbyd yn yr ysgolion ym Mhenfro, yn enwedig yr ysgol uwchradd am arian gyda hanner yn cael ei wario ar addysg uwchradd o'i gymharu ag ysgolion cyfatebol yn Lloegr, dylai'r Llywodraeth fod yn canolbwyntio eu harian ar wella addysg i bawb nid addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig pan fydd addysg i bawb yn gywir bydd yn hyrwyddo symudedd cymdeithasol ysgol cyfrwng Cymraeg yn cael ei hagor yn Sir Benfro ar hyn o bryd byddai'n andwyl i ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Saesneg a bydd yn creu system addysg 2 haen yn ei hanfod ac yn cyfyngu ar gynhwysiant a pharhau â loteri cod post y gwasanaethau addysgol yn y sir hon gan barhau ag ariannu is na'r safon mae'r disgyblion yn y sir yn ei gael gan Lywodraeth Cymru! Os gwelwch yn dda rhwch yr arian arfaethedig i ariannu'r ysgolion presennol yn iawn fel teulu o ysgolion mae gennym 2 ysgol gynradd werdd mae pob un arall yn goch neu'n ambr! Cafodd yr ysgol uwchradd ei graddio yn y 3 isaf yng Nghymru yn y tablau cynghrair y llynedd! Mae'r cyllid mae'r disgyblion yn ei dderbyn yn annigonol! Mae yna broblemau ym mhob maes addysg. Yn Sir Benfro rhwch y cyllid i

Cyf.	Sylwadau
	ddatrys y problemau cyn agor mwy o ysgolion yn fy meddwl i mae hyn yn cosbi'r plant sydd eisoes mewn addysg ac yn parhau â loteri cod post addysg yn y wlad hon. Dylai fy mhlentyn 13 mlwydd oed gael yr un cyfle â phlentyn 13 mlwydd oed yn unman arall yn y DU fodd bynnag, mae'n cael hanner y cyllid mae fy nghefnidryd yn ei gael yn Surrey sut mae hyn yn deg neu'n iawn a sut allan nhw gyfiawnhau gwario arian ar ysgolion newydd pan fo'r arian mor brin yn y rhai sydd gennym eisoes mae'n hurt!
181	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
182	Daw'r sylwadau sy'n cael eu cyflwyno yn yr ymateb hwn gan Gorff Llywodraethu Ysgol Harri Tudor/Henry Tudor School ac fe'u codwyd yn ystod cyfarfod ymgynghori â'r Corff Llywodraethu a gynhaliwyd ar 4 Rhag 19. Cafodd y canlynol eu fel datganiadau unigol, eu trafod, eu crynhoi, a chytunwyd arnynt gan bawb oedd yn bresennol. Rhesymeg, Angen a Strategaeth y Cynnig • Roedd cytundeb unfrydol nad oedd achos cryf i adeiladu'r ysgol yn y lle cyntaf; yn hytrach na hynny, awgrymwyd y dylid rhoi'r cyllid yn ôl i Lywodraeth Cymru (LIC) ac y gellid awgrymu i LIC y dylid defnyddio'r arian yn lle hynny i godi safonau ar gyfer pob disgybl ar draws pob sector er mwyn hyrwyddo agenda lles MDPH. Gellid ei ddefnyddio hefyd i gynorthwyo LIC i gefnogi menter Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, i ddiogelu cyllidebau ysgolion ar hyd a lled Cymru neu i ddatblygu ysgolion dwyieithog. • Gofynnodd nifer o lywodraethwyr pam na ellid defnyddio adeilad ysgol y Santes Fair. • Awgrymwyd y gallai peth o'r arian gael ei ddefnyddio'n well i ganiatáu/cefnogi Golden Grove/Gelli Aur, ysgol gynradd Dwy Ffrwd clwstwr Penfro, er mwyn gwella a datblygu ei darpariaeth bresennol. • Awgrymwyd hefyd y gellid defnyddio'r cyllid efallai i alluogi ysgolion cynradd clwstwr Penfro eraill i ddatblygu dwy ffrwd fel bod tegwch ac uniondeb yn y cynnig addysgol. • Cafwyd sylwadau ynghylch p'un a fyddai'n well gwireddu'r Genhadaeth Genedlaethol i gyflawni 1m o siaradwyr Cymraeg drwy ddysgu Cymraeg yn ddwyieithog a gan ddefnyddio dull o ymdrwytho mewn lleoliad dwy ffrwd, o gofio ein bod yn byw ac yn gweithio mewn gwlad ddwyieithog. • Cafodd y sylw am alw sylweddol (yn ymwneud â'r angen am yr ysgol newydd) yn y ddogfen ymgynghori ei gwestiynu ac, yn benodol, beth oedd y dystiolaeth ategol ar gyfer hyn. Effaith ar Ysgolion Eraill • Roedd pryder sylweddol ynglŷn â'r effaith andwyol bosibl y byddai'r cynnig yn ei chael ar ysgolion eraill (gan gynnwys ein hysgol ni) ac yn uniongyrchol gysylltiedig â chyllid a llai o ddisgyblion yn y tymor canolig a'r hirdymor. Mae hyn yn peri risg o gau mewn ysgolion cynradd eraill. • Er nad oes dystiolaeth gadarn ar gyfer hyn, ydy'r rhieni yn ffafrio darpariaeth cyfrwng Cymraeg oherwydd yr awydd gwirioneddol i'w plant gael eu haddysgu yn Gymraeg? Sut fydd yr ysgolion sy'n gwella yn cael eu hystyried byth? • Beth yw'r effaith debygol ar ddarpariaeth Fferm Gymunedol GreenLinks sy'n cynnig darpariaeth werthfawr ar gyfer amrywiaeth o ddisgyblion o nifer o ardaloedd gwahanol, nid dim ond ardal Penfro a Doc Penfro? Yr Effaith ar Gampws Dysgu Penfro (CDP) • Mae traffig ar CDP, sy'n cynnwys Ysgol Harri Tudor/Henry Tudor school, Canolfan Hamdden Penfro, Canolfan Ddysgu Gymunedol fydd yno cyn bo hir, GreenLinks, Bush House, Canolfan Arddio Greenway ynghyd â llety gofalwr ysgol, yn anodd ei reoli ar hyn o bryd; byddai ysgol newydd yn ychwanegu at y risg sylweddol i iechyd a diogelwch rhieni/disgyblion/rhanddeiliaid campws oherwydd cynnydd amlwg mewn traffig. • Roedd cryn bryder ynghylch mynediad i'r gymuned ddysgu broffesiynol yn y dyfodol i'r CDP, o ran dod i mewn a gyrru ar y campws. Amlygwyd y pryder hwn yn arbennig mewn perthynas â

Cyf.	Sylwadau
	chartref gofal Bush House. ● Roedd angen ymgynghori â holl randdeiliaid CDP; yn arbennig, gyda chartref gofal Bush House. ● Codwyd pryderon sylweddol ynghylch yr effaith andwyol bosibl ar yr amgylchedd o ganlyniad i adeiladu'r ysgol, a'i rhedeg wedyn. Roedd llawer o'r pryder hwn yn ymwneud â lefelau traffig yn y dyfodol a mwy o lygredd. Arall ● Roedd siom bod aelodau etholedig o'r ALI sydd ar Gorff Llywodraethu yr ysgol wedi'u heithrio o gyfarfod ymgynghori'r ysgol; o ganlyniad, nid chawsant glywed llais a barn y Llywodraethwyr hynny oedd yn bresennol. ● Er ei bod yn ymddangos bod digon o arian wedi'i ddyrannu gan LIC i adeiladu'r ysgol, cwestiynwyd a oedd digon o arian i gefnogi ei weithrediad o ddydd i ddydd a beth oedd y gost i eraill yn yr ardal hon ● Roedd pryder y byddai'r cynnig yn gwanhau galluoedd Ysgol Harri Tudor/Henry Tudor School i fynd i'r afael ag addysg Gymraeg. Mae'n ymddangos bod Cymraeg Ail Iaith yn llawer llai pwysig. ● Pe byddai'r cynnig am ysgol gynradd Gymraeg yn mynd yn ei flaen, awgrymwyd y byddai angen i ysgol Harri Tudor/Henry Tudor School ystyried cynnig ffrwd cyfrwng Gymraeg ar 11 +. ● Roedd cytundeb unfrydol nad oedd achos cryf i adeiladu'r ysgol yn y lle cyntaf; yn hytrach na hynny, awgrymwyd y dylid rhoi'r cyllid yn ôl i Lywodraeth Cymru (LIC) ac y gellid awgrymu i LIC y dylid defnyddio'r arian yn lle hynny i godi safonau ar gyfer pob disgybl ar draws pob sector er mwyn hyrwyddo agenda lles MDPH. Gellid ei ddefnyddio hefyd i gynorthwyo LIC i gefnogi menter Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, i ddiogelu cyllidebau ysgolion ar hyd a lled Cymru neu i ddatblygu ysgolion dwyieithog. ● Awgrymwyd y gallai peth o'r arian gael ei ddefnyddio'n well i ganiatáu/cefnogi Golden Grove/Gelli Aur, ysgol gynradd Dwy Ffrwd clwstwr Penfro, er mwyn gwella a datblygu ei darpariaeth bresennol ● Beth am ofyn i Lywodraeth Cymru ystyried clwstwr Penfro i ddatblygu ffrydiau dwyieithog ym mhob un o'i ysgolion - yna gall rhieni ddewis yr ysgol a'r ddarpariaeth Gymraeg sydd orau ganddyn nhw mewn un lle. Byddai hynny'n gymorth sylweddol i ddatblygu 1m o siaradwyr Gymraeg. Yna gallai dysgwyr 11+ fwydo i ffrwd Gymraeg newydd yn yr ysgol gyfun leol, yn hytrach na gorfod teithio i Hwlfordd neu Crymych, byddai'n rhatach ac yn fwy amgylcheddol gyfeillgar.
183	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
184	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
185	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
186	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
187	Bydd sefydlu ysgol Gymraeg newydd 3-11 oed yn ardal Penfro yn caniatáu sefydlu hwb canolog ar gyfer gweithgareddau cymunedol y Gymraeg yn debyg i lwyddiant Ysgol Hafan y Môr yn Ninbych-y-pysgod ac Ysgol Caer Elen yn Hwlfordd. Golyga hyn cysylltiadau allweddol gydag asiantaethau megis Yr Urdd, Menter Iaith, Ioga Babi, Clwb Cwtsh, Addysg Gymraeg i oedolion ac ati.

Cyf.	Sylwadau
188	Mae'r cynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg 3-11 oed yn gam naturiol tuag at wella a chyfoethogi'r amgylchedd dysgu ac hefyd cynyddu capasiti y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ne'r Sir.
189	Gwbl hanfodol yn nhwf y Gymraeg yn Sir Benfro, hefyd i gadw'r niferoedd sy'n bwydo ysgol Caer Elen er mwyn iddi barhau i fod yn llwyddiant
190	Yr ydwyf yn credu yn gryf dylai fod darpariaeth gan Gyngor y Sir addysg uniaeth cyfrwng y Cymraeg mewn ysgol gynradd rhwyle yn agos i'r ysgol newydd Ysgol Harri Tudur. A dylai fod addysg Cymraeg cael ei estyniad a'i darparu pan maent yn ymuno yr ysgolion uwchradd y Sir. Wedi'r cwbl proses parhaol yw addysg ac nad oedd targed gan ein Cynulliad o 50mil yn cael ei chyraedd heb ymdrech sylweddol gan y byd addysg. Y mae yn holl bwysig bwsleisio nid sir Gorllewin Lloegr yw Cymru ac y ffordd o wneud hynny yw codi ymwybythiaeth mewn plant ifainc o'u hanes ac eu hiaeth a'r cyfoeth sydd gan y Cymry ei chynnig i'r byd, ac y ffordd gorau o wneud hyn yw trwy'r iaith. Unwaith y maent yn sefydlog yn eu Hiaith wedyn bydd drysau yn agor iddynt mewn mesydd llenyddiaeth, cerddoriaeth, barddoniaeth a mwy. Mae rhieni plant yn dechrau sylweddoli cymaint sydd wedi cael ei golli am hanes, diwylliant, hunaniaeth y Cymry dros y ganrifoedd ac maent eisiau gweld eu plant datbylygu yn Cymry. Dwyieithrwydd sydd yn bwysig wrth gwrs ond sut bydd plant yn dwyieithog heb y Cymraeg? Y mae'r Seisnigrwydd sydd ymhobman felly canolbwytio ar y Cymraeg a daw â dwyieithog iddynt. Ddysgu'r iaith daeth â chymaint o gyfoeth amgen am Gymru i mi a hoffwn weld plant, yn enwedig yn nghyffiniau Penfro, cael yr un cyfleoedd a ddaeth i'm rhan. Heb ysgol gynradd, a dilynodd gan uwchradd, nid oes modd dihuno eu meddyliau eu bod nhw'n Cymry, yn genedl wahan, a bod y Cymraeg yw iaith swyddogol eu gwlad, eu hynafiaid a phobl o gwmpas nhw ac yr iaith sydd yn rhan hanfodol o'u ymwybythiaith. Felly yr ydwyf yn ymbilio ar ein Cyngor Sir sefydlu ysgol Gynradd cyfrwng uniaith Cymraeg yng nghyffiniau Penfro. Yr eiddoch yn gywir A.Stewart SA71 4AU Os na fydd ddigon o arian ar gael gan ein Cyngor Sir sefydlu ysgol gynradd newydd sbôn, wedyn troi'r Ysgol Gelli Aur yn ysgol uniaith cyfrwng y Cymraeg. Cydnabyddir gwrthwynebiad gan y prifathro presenol ond y mae'r mwyafrif o athrawesau yn Cymraes Cymraeg y dylai fod yn symudiad hawdd yw cyflawni.
191	Yn dilyn agor Ysgol Caer Elen mis Medi y flwyddyn ddiwethaf, mae'n esiampl arbennig o dŵf addysg Gymraeg mewn ardal traddodiadol di-Gymraeg. Petai ysgol Gymraeg newydd 3-11 oed yn cael eu sefydlu yn ardal Penfro byddai hyn yn arwain at gynnydd sylweddol mewn rhieni yn trosglwyddo eu plant i addysg Gymraeg. Rhaid cofio hefyd am sefydlu Ysgol Hafan y Mor fel Ysgol Gymraeg - mae'r Ysgol yn parhau i dyfu ac nid wyf yn meddwl bod modd i ni guddio rhag y ffaith bod y ddwy Ysgol wedi cyfranu at yr iaith Gymraeg ac at gyrraedd y miliwn erbyn 2050.
192	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
193	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)

Cyf.	Sylwadau
194	Mae angen datblygu addysg gyfrwng Gymraeg yn De'r Sir. Mae dyletswydd ar y sir i gynnig addysg a gwasanaeth hollol Gymraeg a Gymreig i'r teuluoedd yr ardal. Mae'r addysg sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd yn gyfyngedig. Mae galw gan y rhieni am ysgol Gymraeg newydd ym Mhenfro.
195	 (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
196	Bydd dod ag ysgol Gymraeg lawn i mewn o'i chymharu â ffrwd Gymraeg mewn ysgol yn gwella defnydd y plant o'r iaith ac yn ei gweld fel sgil cymdeithasol heblaw yn yr ystafell ddosbarth yn unig. Rwyf wedi gweld hyn gan y plant sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg fel Caer Elen a Hafan y môr
197	Mae'n peth da bod ysgol cyfrwng cymraeg arall yn Sir Benfro. mae'n galluogi mwy o siaradwyr cymraeg ar gyfer ardal yna o'r sir.
198	 (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
199	Mae hyn yn hanfodol. Mae'r cyngor a Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gynyddu nifer y plant sy'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r lefel hon o ruglder ond yn digwydd mewn cyfrwng Cymraeg llawn. Amgylchedd yr ysgol - nid yw ffrwd Gymraeg mewn ysgol Saesneg yn cyrraedd yr un lefel o ruglder. Mae gennym gyfle i roi dewis gwirioneddol o ruglder dwyieithog i'n plant yn hytrach na gallu rhannol mewn ail iaith. Mae llwyddiant a thwf uniongyrchol ysgol iau Caer Elen yn dyst i'r awydd i wneud hyn yn ein cymuned a bydd hefyd yn cyfrannu at sicrhau bod mwy o blant yn parhau â'u sgiliau Cymraeg yn yr ysgol uwchradd ac yn bwydo ysgol uwchradd Caer Elen. Mae bod yn rhugl mewn 2 iaith yn creu gwir falchder cenedlaethol a sgiliau bywyd. Daliwch ati i roi'r anrheg hon i'n plant.
200	Angen mawr yn yr ardal hon
201	Rwyf yn cefnogi'r cynnig i ymestyn darpariaeth y Sir o addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Penfro, ond nid yw'r cynnig penodol hwn yn mynd yn ddigon pell. Pan ymgynghorodd CSP â staff a rhieni yn Ysgol Glan Cleddau ynglŷn â ffurfio ysgol Gymraeg newydd 3-16 yn Hwlfordd, mynegodd rhieni ac athrawon bryderon nad oedd yr ysgol arfaethedig yn ddigon mawr. Dewisodd CSP beidio â gweithredu ar y pryderon hynny. Mae'r pryderon hynny wedi profi'n wir - mae Ysgol Caer Elen yn ehangu'n gyson gyda dechreuwyr newydd, mae niferoedd y grwpiau blwyddyn yn uwch o lawer na'r niferoedd a ddyrannwyd (heb unrhyw gymorth ychwanegol i athrawon a disgyblion), ac mae'n chwerthinllyd bod adeilad newydd yn rhy fach erbyn hyn i'r nifer o ddisgyblion sy'n mynychu. Er enghraifft: Mae disgyblion blwyddyn 6 (yn y ddarpariaeth gynradd) yn cael eu gorfodi i ddefnyddio ystafelloedd a gynlluniwyd ar gyfer darpariaeth addysg uwchradd. Lai na 2 flynedd yn ddiweddarach, mae CSP wedi torri'r sicrwydd a roddwyd i rieni na fyddai disgyblion yn gallu "croesi'r ffin" rhwng y cynradd a'r uwchradd. Mae rhieni o ddisgyblion dalgyrch Penfro wedi symud eu plant i Ysgol Caer Elen, sy'n dangos bod galw mawr am addysg Gymraeg ymhell tu draw i gyrraedd Hwlfordd. Rwy'n pryderu'n ddifrifol na fydd ysgol Caer Elen yn gallu darparu ar gyfer pob disgybl uwchradd (11-16 mlwydd oed) ac yn annog CSP i ystyried safbwynt mwy hirdymor yn y cynigion hyn (yn hytrach na'r safbwynt mwy

Cyf.	Sylwadau
	byrweledol a gymerwyd mewn perthynas ag Ysgol Caer Elen). Dylid agor ysgol cyfrwng Cymraeg newydd 3-16 ar gyfer Penfro a Doc Penfro. Mae rhieni disgyblion dalgylch Penfro wedi symud eu plant i Ysgol Caer Elen. Mae hyn yn dangos yn ymarferol bod galw mawr am addysg Gymraeg ymhell y tu hwnt i gyrraedd Hwlfordd. Rwy'n pryderu'n ddifrifol na fydd Ysgol Caer Elen yn gallu darparu ar gyfer pob disgybl uwchradd (11-16 oed) o'r dalgylchoedd perthnasol, ac yn annog CSP i ystyried safbwynt mwy hirdymor yn y cynigion hyn (yn hytrach na'r safbwynt mwy annoeth a gymerwyd wrth greu ysgol Caer Elen). Dylid agor ysgol cyfrwng Cymraeg 3-16 neu 3-18 newydd ar gyfer Penfro a Doc Penfro.
203	Daw'r sylwadau a gyflwynir yn yr ymateb hwn gan Gorff Llywodraethol ysgol Gelli Aur/Golden Grove a chawsant eu codi yn ystod cyfarfod ymgynghori â'r Corff Llywodraethol a gynhaliwyd ddydd Iau 5 Rhagfyr 2019. • Rydym yn cydnabod bod galw am addysg Gymraeg yn yr ardal. • Rydym o'r farn ein bod yn diwallu'r angen presennol a bod agwedd dwy ffrwd yr ysgol hon yn gadarnhaol iawn, yn enwedig o ran cyflwyno Cymraeg ail iaith yn y ffrwd Saesneg. • Ni amlygwyd sylwebaeth ein hadroddiad Arolygiad Estyn ar Gymraeg Ail iaith fel un o gryfderau'r ysgol yn y ddogfen ymgynghori, er iddo gael ei ysgrifennu fel a ganlyn: – 'Mae gallu Cymraeg disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn datblygu'n dda ac mae'r rhan fwyaf yn dangos diddordeb a brwdfrydedd yn ystod gwersi. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd priodol ac yn dangos dealltwriaeth dda o eiriau ac ymadroddion cyfarwydd mewn ystod o gyd-destunau. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu dealltwriaeth o eiriau ac ymadroddion ac yn eu defnyddio'n hyderus i ddechrau mynegi eu meddyliau a'u syniadau. Mae llawer ohonynt yn datblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu priodol trwy ddilyn patrymau brawddegau cyfarwydd.' • Nid oes unrhyw sicrwydd y bydd y datblygiadau tai sy'n cael eu crybwyll yn cael eu cyflawni, nac y byddai'r incwm posibl o ddarpar ddisgyblion yn dwyn ffrwyth. • Yn seiliedig ar Ragolygon a Defnydd Disgyblion 2020 – 2024 (fel sydd wedi'i fanylu ar dudalen 12), mae'n dangos y bydd gan yr ysgol ddigon o gapasiti i dderbyn y nifer posibl ychwanegol (75 o blant) ar safle presennol yr ysgol heb fod angen estyniad/adeilad newydd. (Mae'n annhebygol iawn y byddai pob un o'r 75 o ddisgyblion yn dewis Gelli Aur/Golden Grove, felly nid ydym yn ystyried bod capasiti yn nalgylchoedd Penfro/Doc Penfro yn debygol o fod yn broblem). • Mae risg y bydd y cynnig hwn yn peryglu cynaliadwyedd ysgolion presennol yn y dalgylch, yn enwedig os nad yw'r ddemograffeg a/neu'r rhaglen adeiladu tai "dybiaethol" yn effeithio fel a ragwelwyd. • Ein profiad blaenorol o orwario yn y gyllideb yn cael effaith ganlyniadol ar y gyllideb refeniw. • Mae'r model dwy ffrwd yn rhoi llawer mwy o amlygiad i'r Gymraeg i ddisgyblion yn y Ffrwd Saesneg. • Mae'r adroddiad yn nodi fel cryfder bod mwyafrif disgyblion Blwyddyn 6 yn trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg. Byddem yn ystyried y byddai'r duedd hon yn parhau gan fod Ysgol Caer Elen yn opsiwn llawer mwy ffafriol yn ddauaryddol nag oedd yn wir o'r blaen. Yn wir, ategir hyn gan y ffaith fod 100% o'n disgyblion dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi trosglwyddo i Ysgol Caer Elen. • Ffactor arall i'w ystyried yw'r canfyddiad o ddarpariaeth addysg uwchradd cyfrwng Saesneg gwael yn y dalgylch sydd wedi arwain at ddeg o blant yn trosglwyddo o'r ddarpariaeth Saesneg i'r ddarpariaeth Gymraeg ers mis Medi. Mae'r CLI wedi nodi ein bod wedi gweld cynnydd yn y galw. Felly, nid yw'n

Cyf.	Sylwadau
	ymddangos bod y perygl posibl sy'n cael ei amlygu o ddisgyblion yn optio allan o'r cyfrwng Gymraeg yn berthnasol. • Mae'r CLI yn cydnabod y cynnydd cadarn a wnaed ers yr Arolygiad ac, yn wir, mae cryfder yr ysgol o ganlyniad i'r cydweithredu a'r cydweithio rhwng staff ar draws y ffrydiau. • Y categoraiddio dros dro ar gyfer yr ysgol, gan ystyried yr uchod, yw Melyn. • Achos dros Newid – Ai dyma'r defnydd mwyaf effeithiol o arian Llywodraeth Cymru? Rydym yn deall bod cyfran fawr o blant Ysgol Caer Elen yn dod o ardal Aberdaugleddau (dywedwyd wrthym fod cyfanswm o 90), ond nid ydym yn ymwybodol o astudiaeth ddichonoldeb ddiweddar sy'n ystyried yr ardal hon fel dewis arall, a fyddai'n ehangu'r ddarpariaeth ar draws yr ardal ddaearyddol ehangach. • Nid oedd yr asesiad diweddar yn ceisio barn y plant presennol sy'n mynd i gael eu heffeithio, er bod yr ysgol yn cynnig rhannu ein canfyddiadau ein hunain. • Roedd y ddogfen lleoli yn cynnwys llawer o jargon ac roedden ni'n teimlo y byddai wedi bod yn aneglur i'r rhai nad ydynt yn addysgwyr. • Ni fyddai'r cynnig hwn ar y bwrdd pe na bai cyllid cyfalaf o 100% ar gael, sy'n tansilio'r achos addysgol yn ein barn ni. • Mae Penfro a Dinbych-y-pysgod yn ardaloedd demograffig gwahanol iawn ac mae'r rhyddid i ddewis eisoes yn llawer mwy yn ardal Penfro. • Rydym wedi ceisio sefydlu darpariaeth Cylch Meithrin yn ein lleoliad ond nid ydym wedi bod yn llwyddiannus gyda'r nod hwn. Nodwn y bydd hwn ar gael yn awr yn yr ysgol arfaethedig. • Mae nifer o safbwyntiau'n cael eu datgan drwy'r ddogfen ymgynghori, gydag ychydig iawn wedi'u sefydlu fel ffaith. Er enghraifft, sut bydd lles ac agweddau at ddysgu yn gwella pan fydd y staff arbenigol yr un fath? • Yn yr un modd, mae'r disgwyliad y bydd pob disgybl yn trosglwyddo i'r ysgol newydd yn wahanol i'n dealltwriaeth. Y farn a fynegwyd gan nifer o rieni yw bod yn rhan o ysgol dwy ffrwd yn rhan o'r atyniad wrth ddewis y ddwy ffrwd yma. • Oherwydd ein maint presennol, rydym yn gallu cynnig ystod ehangach o brofiadau a gweithgareddau na fydd yn cael eu hefelychu, megis drama, cerddorfa a darpariaeth chwaraeon cynhwysol eang. • Mae'r lleoliad sy'n cael ei ffafrio ar gyfer yr ysgol wedi codi pryderon o ran ei heffaith amgylcheddol, yn enwedig o ran effaith ar draffig ac ansawdd yr aer. • Bydd adeiladu ysgol ychwanegol yn cael effaith ychwanegol ar bob cyllideb refeniw gan y cydnabyddir ei bod yn annhebygol o fod yn niwtral o ran cost. Er bod y gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu'n ganolog, mae'r gost fesul disgybl yn cynyddu'n sylweddol, a bydd hyn yn cael effaith negyddol ar draws Sir Benfro. • Rydym wedi cael gwybod bod unigolion o ardaloedd nad yw'r cynnig hwn yn effeithio arnynt wedi cael eu hannog yn rhagweithiol i ymateb yn gadarnhaol i gefnogi'r cynnig yn ystod y broses ymgynghori. Ewch ati i ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Gelli Aur/Golden Grove, gan gynnwys sefydlu Cylch Meithrin.
204	Dylai addysg cyfrwng Gymraeg dderbyn statws a chyllid cyfartal yn Sir Benfro a byddai ysgol Gynradd sydd wedi'i neilltuo i ddarparu cyfrwng Gymraeg yn unig yn galluogi'r iaith i fod yn hygyrch i lawer mwy o fyfyrwyr nag sy'n bosibl ar hyn o bryd ym Mhenfro. Nid oes gennyf unrhyw gwynion i'w gwneud am yr addysg a gafodd fy mhiant yn Ysgol Gelli Aur ond byddwn yn rhagweld y byddai ysgol bwrpasol yn galluogi plant i symud ymlaen yn fwy effeithlon.
205	Mae ganddyn nhw ysgol Gymraeg - Gelli Aur. Dylech gael gwared ar y pennaeth presennol a chael un yn fwy tebyg i [REDACTED] a bydd y cyfleuster Gymraeg yno yn mynd yn ôl i sut yr oedd. [REDACTED] (Mae rhai sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – gwybodaeth bersonol a allai fod yn sensitif)

Cyf.	Sylwadau
206	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
207	Mae fy mhlentyn yn mynychu Ysgol Gelli Aur yn y ffrwd Gymraeg ac rwy'n anghytuno'n llwyr â'r cynnig hwn. Mae'n byw mewn aelwyd Saesneg ei hiaith ac yn 6 oed yn unig, mae hi eisoes bron yn rhugl yn y Gymraeg. Tra bod ei datblygiad o ran yr iaith Gymraeg yn bwysig i mi, felly hefyd mae'r ffaith ei bod hi'n mynychu ysgol sydd â chymeriad, ysbryd ysgol a rhywle lle mae hi'n teimlo fel rhan o gymuned. Rwy'n gweithio ym maes addysg ac rwy'n ymwybodol ei bod yn ymddangos bod yr agweddau hyn ar fywyd yr ysgol ar goll yn yr ysgolion newydd am ryw reswm, ynghyd â'r prinder cyfleusterau y tu allan i'r ysgol y mae gan Gelli Aur ddigonedd ohonynt. Hoffwn sôn hefyd fod Pennaeth presennol Gelli Aur yn ffantastig ac yr wyf yn ymddiried ynddo gydag addysg fy mhlentyn. Rwy'n awgrymu y dylid gadael Gelli Aur fel ag y mae a bod darpariaeth Gymraeg yn cael ei chynnig mewn ardaloedd o Sir Benfro lle nad yw ar gael ar hyn o bryd e.e. Aberdaugleddau.
208	Pam????? Mae plant sy'n dysgu yn Gymraeg yn cael trafferth pan maen nhw'n 16+ ac yn mynd i'r brifysgol. Mae'n niweidiol i'w haddysg ac yn dwp. Rhowch yr arian i adnoddau ysgol yn lle adeiladu ysgol arall eto
211	Rwy'n teimlo y byddai manteision enfawr i'n plant fod mewn Ysgol Gymraeg lawn. Rwy'n credu y byddai'n rhoi mwy o gyfleoedd iddynt glywed y Gymraeg yn ystod y dydd yn enwedig o ystyried bod% uchel o'r plant yn dod o deuluoedd di-Gymraeg
212	Mae cefnogaeth gref i'r iaith Gymraeg yn ardal Penfro a byddai darparu ysgol cyfrwng Cymraeg yn gam naturiol tuag at wella a chyfoethogi'r amgylchedd dysgu ac hefyd cynyddu y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ne Sir Benfro. Mae tŵf diweddar Ysgol Hafan y Môr ac Ysgol Caer Elen-ardaloedd sy'n draddodiadol ddi-Gymraeg yn esiampl o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn ne'r sir ac rwy'n teimlo ma'i ardal Penfro yw'r lleoliad naturiol nesaf i sefydlu ysgol Gymraeg cynradd 3-11 oed. Byddai agor ysgol Gymraeg yn ardal Penfro yn caniatáu sefydlu hwb canolog ar gyfer gweithgareddau cymunedol y Gymraeg yn debyg i lwyddiant Ysgol Hafan y Môr yn Ninbych-y-pysgod ac Ysgol Caer Elen yn Hwlfordd. Byddai modd cael cysylltiadau allweddol gydag asiantaethau megis Yr Urdd, Menter Iaith, Ioga Babi, Clwb Cwtsh, Addysg Gymraeg i enwi rhai. Bydd y plant yma yn gallu symud ymlaen yn naturiol i ysgol Caer Elen ar gyfer eu haddysg Uwchradd. Eisoes mae cydweithio rhwng y ffrwd Gymraeg yn Ysgol Gelli Aur ac Ysgol Caer Elen. Mae hwn yn gyfle gwych i drawsnewid addysg mewn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig yr awdurdod. Mae'n bwysig cofio hefyd y byddai'r cynnig yn cyd-fynd â'r strategaethau cenedlaethol o ran cynyddu'r nifer y siaradwyr Cymraeg at filiwn erbyn 2050
214	Mae darpariaeth Gymraeg yn yr ardal hon. Dylid gwario'r arian ar wella'r ysgolion presennol yn Sir Benfro Rhowch yr arian i'r ysgolion sydd ei angen!
216	

Cyf.	Sylwadau
	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
219	Mae darpariaeth ddigonol eisoes yn Gelli Aur. Mae sawl ysgol wag o gwmpas yr ardal, pam gwastraffu ein harian yn adeiladu un newydd. Dylech adnewyddu ac aildddefnyddio os oes rhaid i ni gael ysgol arall. Gwastraff arian diangen
220	Credaf fod angen fwy o ysgolion sy'n darparu addysg cyfrwng Gymraeg a Chymreictod yn ardal Penfro. Dylai hyn cynyddu'r twf o siaradwyr Cymraeg ar gyfer cyrraedd targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
221	• Lleolir Canolfan Iaith ar gampws Ysgol Caer Elen er mwyn darparu cyrsiau ar gyfer hwyrdyfodiaid. Mae'r ganolfan yn gwasanaethu holl ysgolion cynradd talgylch Ysgol Caer Elen gan gynnwys Ysgol Gelli Aur. Gwelaf y ganolfan yn allweddol er mwyn sicrhau bod Sir Benfro yn cynyddu'r % o ddisgyblion sy'n medru'r Gymraeg ac o ganlyniad yn cyfrannu'n gadarnhaol at darged y llywodraeth o filiwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae Ysgol Caer Elen ac Ysgol Hafan y Môr yn esiamplau arbennig o dŵf addysg Gymraeg mewn ardaloedd traddodiadol di-Gymraeg. Petai ysgol Gymraeg newydd 3-11 oed yn cael eu sefydlu yn ardal Penfro byddai hyn yn arwain at gynydd sylweddol mewn rhieni yn trosglwyddo eu plant i addysg Gymraeg. Mae angen ymestyn a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn ne'r Sir ac ardal Penfro yw'r lleoliad naturiol nesaf. Mae'r heriau o weithredu ysgol dwyffrwd yn amlwg a bydd sefydlu ysgol gynradd 3-11 oed yn gam naturiol a chyfle gwyh i drawsnewid addysg mewn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig yr awdurdod. Yn allweddol, mae'r cynnig yn cyd-fynd â strategaethau lleol a chenedlaethol o ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg gan anelu at filiwn o siaradwyr yng Nghymru erbyn 2050.
222	Credaf bod y cynnig o sefydlu ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg yn ardal Penfro yn gynnig amhrisiadwy. Bydd yr ysgol Gymraeg hon yn cynyddu'r capasiti o siaradwyr Cymraeg yn ne'r Sir ac yn arwain at fwy o siaradwyr Cymraeg yn Sir Benfro. Mae'r manteision o siarad Cymraeg heb os yn adlewyrchu pwysigrwydd cynyddu'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg yn ein Sir ac yn agor drysau pobl ifanc yn y dyfodol. Yn barod gwelir cydweithio agos rhwng ffrwd Gymraeg Ysgol Gelli Aur ac Ysgol Caer Elen gyda nifer o ddisgyblion Gellir Aur yn mynychu'r Ganolfan Iaith yn Ysgol Caer Elen sydd eisoes yn esblygu ar y ddarpariaeth Gymraeg ac yn cryfhau'r system pontio rhwng y ddau ysgol. Wrth sefydlu Ysgol Gynradd Gymraeg ym Mhenfro byddai hyn yn sicrhau llif naturiol o ddisgyblion i Ysgol Caer Elen sef y fam ysgol i ardal Penfro gan fyddai'r disgyblion yma am barhau gyda'u addysg uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai sefydlu Ysgol Gymraeg yn ardal Penfro yn creu canolbwynt i'r ardal ar gyfer hybu gweithgareddau cymunedol Gymraeg. Eisoes gwelir llwyddiant gweithgareddau cymdeithasol Gymraeg megis Clwb Cwtsh, Ioga Babi a Chymraeg i Oedolion yn ardal Hwlfordd o ganlyniad i agoriad Ysgol Caer Elen a byddai'r ysgol Gymraeg ym Mhenfro hefyd yn medru cynnig y cyfleoedd yma i'r gymuned yn ardal Penfro. Mae twf eithriadol Ysgol Caer Elen ac Ysgol Hafan y Mor yn dystiolaeth pur o'r galw am addysg Gymraeg yn ein Sir mewn ardaloedd na fyddai'n cael eu gweld fel ardaloedd Gymraeg yn draddodiadol. Mae ardal Penfro yn leoliad perffaith er mwyn targedu'r ardal nesaf o gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn ein Sir. Heb os nac oni bai, os am gyrraedd y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yna mae'n rhaid gweithredu a cynyddu'r nifer o bobl sydd yn medru'r iaith yn ein Sir.

Cyf.	Sylwadau
223	Yn ddiau bydd sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn ardal Penfro yn gyfle euraidd i ddatblygu ac i hybu'r iaith Gymraeg yn Ne'r Sir a chynnig cyfleodd a phrofiadau amhrisiadwy i blant y dalgylch. Gyda sefydlu ysgol ffrwd Gymraeg newydd bydd cynnydd yn y defnydd naturiol o'r Gymraeg ar draws yr ysgol ac yn gymdeithasol o'i gymharu a'r sefyllfa bresennol mewn ysgol dwy ffrwd a heb os bydd hyn yn arwain at gynnydd yn y nifer o siaradwyr Cymraeg, nid sy'n unig yn cael eu dysgu i siarad Cymraeg, ond unigolion sy'n dewis siarad a defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Afraid dweud bod cymeradwyo sefydliadau newydd Cymraeg fel hyn yn hanfodol er mwyn gwireddu targed y llywodraeth o filiwn o siaradwyr erbyn yn flwyddyn 2050. Yn dilyn llwyddiant ysgubol sefydlu ysgol newydd Gymraeg 3-16 Ysgol Caer Elen yn Hwlfordd, sy'n dyst yn sicr i'r galw am addysg Gymraeg yn Ne'r Sir, braf basai gweld yr un twf yn ardal Penfro.
224	Mae cefnogaeth gref i'r iaith Gymraeg yn ardal Penfro ac fe fydd sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg yn rhoi canolbwynt i'r gefnogaeth hon. Mae'r cynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg 3-11 oed yn gam naturiol tuag at wella a chyfoethogi'r amgylchedd dysgu ac hefyd cynyddu capasiti y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ne'r Sir. Bydd sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg 3-11 oed yn ardal Penfro yn sicrhau llif naturiol a chynyddol o ddisgyblion i Ysgol Caer Elen – sef y fam ysgol ar gyfer disgyblion ardal Penfro. Mae llwyth o wallau ieithyddol yn y ddogfen hon. Beth am benodi rhywun sy'n medru trawsieithu a phrawf ddarllen yn gywir?
225	Ar hyn o bryd mae consyrn wedi codi parthed yr iaith Cymraeg yn Ysgol Gelli Aur yn dilyn adroddiad Estyn yn 2018. Byddai sefydlu Ysgol Gymraeg 3-11 ym Mhenfro yn caniatáu defnydd cynyddol o'r iaith Cymraeg yn ogystal a sefydlu hwb canolog gymunedol sy'n cynnal gweithgareddau Cymraeg. Bydd sefydlu ysgol Cymraeg yn debygol o ddilyn twf a lwyddiant Ysgol Hafan y Mor yn Ninbych y Pysgod a Ysgol Caer Elen yn Hwlfordd o ran niferoedd yr ysgol ac yn y pen draw siaradwyr Cymraeg. Heb os nac oni bai mi fydd hyn yn sicrhau twf enfawr tuag at miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
226	Gweler cydweithio agos yn barod rhwng Ysgol Gelli Aur (ffrwd Gymraeg) ac Ysgol Caer Elen wrth esblygu darpariaeth ar gyfer y Gymraeg; gweithredu systemau pontio a disgyblion sy'n mynychu Canolfan Iaith Ysgol Caer Elen. Ar hyn o bryd mae consyrn wedi codi parthed safonau yn yr iaith Gymraeg yn Ysgol Gelli Aur yn dilyn adroddiad Estyn yn 2018. Byddai sefydlu Ysgol Gymraeg newydd 3-11 oed yn caniatáu defnydd cynyddol o'r Gymraeg ar goridorau a iard yr ysgol. Mae'r sefyllfa bresennol o ysgol dwy ffrwd yn dueddol o ddŵrhau y defnydd o'r iaith ac yn cyfyngu athrawon rhag gweithredu rheolau ieithyddol cadarn. Bydd sefydlu ysgol Gymraeg newydd 3-11 oed yn ardal Penfro yn caniatáu sefydlu hwb canolog ar gyfer gweithgareddau cymunedol y Gymraeg yn debyg i lwyddiant Ysgol Hafan y Môr yn Ninbych-y-pysgod ac Ysgol Caer Elen yn Hwlfordd. Golyga hyn cysylltiadau allweddol gydag asiantaethau megis Yr Urdd, Menter Iaith, Ioga Babi, Clwb Cwtsh, Addysg Gymraeg i oedolion ac ati
227	Bydd sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg 3-11 oed yn ardal Penfro yn sicrhau llif naturiol a chynyddol o ddisgyblion i Ysgol Caer Elen – sef y fam ysgol ar gyfer disgyblion ardal Penfro. Mae'r sefyllfa bresennol o ysgol dwy ffrwd yn Ysgol Gelli Aur yn dueddol o ddŵrhau y defnydd o'r iaith ac yn cyfyngu athrawon rhag gweithredu rheolau ieithyddol cadarn. Mae twf syfrdanol diweddar Ysgol Hafan y Môr ac Ysgol Caer

Cyf.	Sylwadau
	Elen yn esiampl o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn ne'r sir. Gwelaf ardal Penfro fel y lleoliad naturiol nesaf i sefydlu ysgol Gymraeg cynradd 3-11 oed. Lleolir Canolfan Iaith ar gampws Ysgol Caer Elen er mwyn darparu cyrsiau ar gyfer hwyrddyfodiaid. Mae'r ganolfan yn gwasanaethu holl ysgolion cynradd talgylch Ysgol Caer Elen gan gynnwys Ysgol Gelli Aur. Gwelaf y ganolfan yn allweddol er mwyn sicrhau bod Sir Benfro yn cynyddu'r % o ddisgyblion sy'n medru'r Gymraeg ac o ganlyniad yn cyfrannu'n gadarnhaol at darged y llywodraeth o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.
228	Mae sefydlu ysgol newydd cyfrwng Cymraeg yn fuddiol iawn ar gyfer bwydo plant mewn i addysg uwchradd fel Caer Elen a sicrhau llif naturiol a chynyddol mewn addysg Gymraeg. Ychwanegwyd hyn i bontio fwy effeithiol rhwng ysgolion gynradd ac uwchradd mi fydd yn buddiol iawn ar gyfer y plant ym Mhenfro. Credaf fod hyn yn cynyddu'r nifer siaradwyr Gymraeg a chreu perthnasoedd rhwng yr ysgol gynradd ac uwchradd drwy ddefnyddio'r canolfan iaith i hybu iaith safonol i gyrraedd lefelau addas am fynychu ysgol uwchradd.
229	Mae tŵf diweddar Ysgol Hafan y Môr ac Ysgol Caer Elen yn dyst i'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn ne'r sir. Yn hyn o beth gwelaf ardal Penfro fel y lleoliad naturiol i sefydlu ysgol Gymraeg cynradd 3-11 oed nesaf. Bydd sefydlu ysgol ffrwd Gymraeg yn arwain at godi safonau ieithyddol pobl ifanc. Bydd sefydlu ysgol Gymraeg newydd 3-11 oed yn ardal Penfro yn caniatáu sefydlu hwb canolog ar gyfer gweithgareddau cymunedol y Gymraeg yn debyg i lwyddiant Ysgol Hafan y Môr yn Ninbych-y-pysgod ac Ysgol Caer Elen yn Hwlfordd. Golyga hyn cysylltiadau allweddol gydag asiantaethau megis Yr Urdd, Menter Iaith, Ioga Babi, Clwb Cwtsh, Addysg Gymraeg i oedolion ac ati. Mae angen datblygu yr iaith Gymraeg ymhellach yn Ne'r Sir a dyma gyfle gwych i wneud hynny, mae'n gyfle rhy dda i'w golli.
230	Rwyf yn cefnogi y cynnig yma ar sail bod cefnogaeth gref i'r iaith Gymraeg yn ardal Penfro ac fydd sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg yn ateb y galw i'r gefnogaeth hon. Mae angen ehangu ar darpariaeth yr addysg Gymraeg yn Ne y Sir ac felly mae'r cynnig yma yn gam naturiol i'r datblygiad yma. Byddai sefydlu yr ysgol yma hefyd yn sicrhau llwyddiant Ysgol Caer Elen sydd newydd agor yn Hwlfordd, gyda llif o blant yn mynychu yr ysgol hynny i barhau gyda'i addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cynydd sylweddol wedi bod yn y nifer o blant sydd yn mynychu Ysgol Caer Elen a Ysgol Hafan y Môr dros y blynyddoedd diwethaf sydd yn amlwg yn dangos bod galw mawr am addysg Gymraeg yn y Sir. Gwelaf y darpariaeth yma o addysg 3-11 yn allweddol yn ardal Penfro er mwyn sicrhau bod Sir Benfro yn cynyddu'r canran o ddisgyblion sy'n gally siarad Cymraeg ac o ganlyniad yn cyfrannu'n gadarnhaol at darged y llywodraeth o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.
231	Mae'r cynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg 3-11 oed yn gam allweddol i sicrhau ein bod yn datblygu cymaint o siaradwyr Cymraeg ag sy'n bosib. Mae unrhywbeth sy'n annog plant ifanc i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn Sir Benfro yn hollbwysig. Mae tŵf syfrdanol diweddar Ysgol Hafan y Môr ac Ysgol Caer Elen yn dangos y galw sydd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn ne Sir Benfro. Mae adeiladu ysgol ym Mhenfro yn gam naturiol felly i sicrhau bod plant o'r ardal hynny yn derbyn addysg Cymraeg, yn hytrach na gorfod teithio i Hafan y Môr a Chaer Elen. Bydd yn gyfle gwych i drawsnewid addysg mewn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig yr awdurdod.
232	Mae cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn rhan o strategaeth leol a chenedlaethol a bydd sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd ym Mhenfro yn cyfrannu at y strategaeth hon. Mewn lleoliad dwy ffrwd, mae'r ffaith bod y disgyblion yn cael eu cyflwyno i'r Gymraeg a'r

Cyf.	Sylwadau
	Saesneg o bosibl yn ei gwneud hi'n anodd trochi'r disgyblion yn y Gymraeg yn llwyr, yn enwedig ar adegau pan fydd y disgyblion yn rhyngweithio y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae ysgolion dwy ffrwd yn wynebu'r her o weithredu fel dwy ysgol o dan un to o ran y categorïau ieithyddol cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, er eu bod yn gweithredu fel un ysgol. Mae risg bosibl mewn ysgolion o'r fath y bydd disgyblion yn rhoi'r gorau i addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn parhau â'u haddysg yn y ffrwd cyfrwng Saesneg, gan felly gyfyngu ar eu dilyniant ieithyddol. Ar hyn o bryd mae consyrn wedi codi parthed safonau yn yr iaith Gymraeg yn Ysgol Gelli Aur yn dilyn adroddiad Estyn yn 2018. Byddai sefydlu Ysgol Gymraeg newydd 3-11 oed yn caniatáu defnydd cynyddol o'r Gymraeg ar goridau a iard yr ysgol. Mae'r sefyllfa bresennol o ysgol dwy ffrwd yn dueddol o ddŵrhau y defnydd o'r iaith ac yn cyfyngu athrawon rhag gweithredu rheolau ieithyddol cadarn. Mae cefnogaeth gref i'r iaith Gymraeg yn ardal Penfro ac fe fydd sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg yn rhoi canolbwynt i'r gefnogaeth hon, yn ogystal a chynyddu capasiti y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ne'r Sir. Bydd sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg yn ardal Penfro yn sicrhau llif naturiol a chynyddol o ddisgyblion i Ysgol Caer Elen – sef y fam ysgol ar gyfer disgyblion ardal Penfro. Bydd sefydlu ysgol Gymraeg newydd 3-11 oed yn ardal Penfro yn caniatáu sefydlu hwb canolog ar gyfer gweithgareddau cymunedol y Gymraeg yn debyg i lwyddiant Ysgol Hafan y Môr yn Ninbych-y-pysgod ac Ysgol Caer Elen yn Hwlfordd. Golyga hyn gysylltiadau allweddol gydag asiantaethau megis Yr Urdd, Menter Iaith, Ioga Babi, Clwb Cwtsh, Addysg Gymraeg i oedolion ac ati. • Mae tŵf syfrdanol diweddar Ysgol Hafan y Môr ac Ysgol Caer Elen yn esiampl o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn ne'r sir. Gwelaf ardal Penfro fel y lleoliad naturiol nesaf i sefydlu ysgol Gymraeg cynradd 3-11 oed. Mae Ysgol Caer Elen ac Ysgol Hafan y Môr yn esiamplau arbennig o dŵf addysg Gymraeg mewn ardaloedd traddodiadol di-Gymraeg. Petai ysgol Gymraeg newydd 3-11 oed yn cael eu sefydlu yn ardal Penfro byddai hyn yn arwain at gynydd sylweddol mewn rhieni yn trosglwyddo eu plant i addysg Gymraeg. Mae angen ymestyn a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn ne'r Sir ac ardal Penfro yw'r lleoliad naturiol nesaf. Mae'r heriau o weithredu ysgol dwyffrwd yn amlwg a bydd sefydlu ysgol gynradd 3-11 oed yn gam naturiol a chyfle gwych i drawsnewid addysg mewn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig yr awdurdod. Yn allweddol, mae'r cynnig yn cyd-fynd â strategaethau lleol a chenedlaethol o ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg gan anelu at filiwn o siaradwyr yng Nghymru erbyn 2050
233	Mae angen ymestyn a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn ne'r Sir ac ardal Penfro yw'r lleoliad naturiol nesaf. Mae sefydlu yr ysgol yn allweddol o ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg gan anelu at filiwn o siaradwyr yng Nghymru erbyn 2050. Bydd sefydlu ysgol Gymraeg newydd 3-11 oed yn ardal Penfro yn creu hwb canolog ar gyfer gweithgareddau cymunedol y Gymraeg fel Yr Urdd, Menter Iaith, Ioga Babi, Clwb Cwtsh, Addysg Gymraeg i oedolion ac yn y blaen
235	Mae'r cynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg 3-11 oed yn gam naturiol tuag at wella a chyfoethogi'r amgylchedd dysgu ac hefyd cynyddu capasiti y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ne'r Sir. Hefyd fydd agor ysgol 3-11 yn ardal Penfro y galluogi'r llif naturiol o ddisgyblion i Ysgol Caer Elen.
239	Wrth edrych, mae'n amlwg bod yna gefnogaeth gref i'r iaith Gymraeg yn Sir Benfro, ac mi fydd sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg arall yn gam arall at wella a chyfoethogi'r amgylchedd dysgu sydd yn y sir. Yn ogystal, bydd yn cynyddu capasiti y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y sir.

Cyf.	Sylwadau
	Wrth edrych ar swm sylweddol yn y twf ac ar y galw am addysg Cymraeg o blant yn Ysgol Hafan y Mor ac Ysgol Caer Elen, mae cael ysgol newydd cyfrwng Cymraeg yn y lleoliad yma yn naturiol er mwyn ehangu ar y galw sydd am addysg Cymraeg. I ategu, bydd hyn yn cydfynd gyda gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050.
240	Mae Ysgol Caer Elen ac Ysgol Hafan y Môr yn esiamplau arbennig o dŵf addysg Gymraeg mewn ardaloedd traddodiadol di-Gymraeg. Petai ysgol Gymraeg newydd 3-11 oed yn cael eu sefydlu yn ardal Penfro byddai hyn yn arwain at gynnydd sylweddol mewn rhieni yn trosglwyddo eu plant i addysg Gymraeg. Maen amlwg bod gofyn cynyddol i addysg Gymraeg yn y sir.
241	1: Yn hollol wrthwynebus i sefydlu Ysgol Cyfrwng Cymraeg a... ystyriaeth wedi'i rhoi i'r safleoedd sydd wedi cael eu cynnig. 2: Dim galw yn yr ardal ddifreintiedig hon. 3: Dylem geisio INTEGREIDDIO nid GWAHANU 4: Ysgol ardderchog yn Gelli Aur/Golden Grove ar hyn o bryd. Mae fy mhlant ac wyrion diweddarach wedi ffynnu yno ac mae'n darparu safle addysg a diogel at ei gilydd. 5: Cynhennus ac Elitaidd 6: GWALLGOF i ystyried y safleoedd sydd wedi cael eu cynnig. Hunllef traffig yno ar hyn o bryd. Rwy'n gyrru yno'n rheolaidd gydag wyrion/wyresau, ac rydym yn defnyddio'r ganolfan hamdden gyfagos. Mae angen newid mawr ar ffyrdd/palmentydd a'r mynediad. 7. Ystyriaeth amgylcheddol - gofyn am dorri coed sefydledig. Deallwch os gwelwch yn dda, mai 'Little England Beyond Wales' yw Penrhyn De Penfro. Rydym yn croesawu "mewnfudwyr" ond nid y frigâd elitaidd sy'n gorchymyn ac nad oes ganddynt ymdeimlad o'r ardal arbennig hon. Dylech wella'r ysgol bresennol sydd mewn lle diogel ac sydd â staff ymroddedig sy'n gwneud eu gorau glas i hyrwyddo pob pwnc - cerddoriaeth, chwaraeon a lles.
242	Mae tŵf syfrdanol diweddar Ysgol Hafan y Môr ac Ysgol Caer Elen yn esiampl o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn ne'r sir. Gwelaf ardal Penfro fel y lleoliad naturiol nesaf i sefydlu ysgol Gymraeg cynradd 3-11 oed. Ar hyn o bryd mae consyrn wedi codi parthed safonau yn yr iaith Gymraeg yn Ysgol Gelli Aur yn dilyn adroddiad Estyn yn 2018. Byddai sefydlu Ysgol Gymraeg newydd 3-11 oed yn caniatáu defnydd cynyddol o'r Gymraeg ar goridorau a iard yr ysgol. Mae'r sefyllfa bresennol o ysgol dwy ffrwd yn dueddol o ddŵrhau y defnydd o'r iaith ac yn cyfyngu athrawon rhag gweithredu rheolau ieithyddol cadarn.
243	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
244	Yn seiliedig ar yr ystadegau yn y ddogfen nid yw'r niferoedd yn awgrymu ysgol hyfyw. Byddai'r costau refeniw'n uchel oherwydd y costau staff, byddai gwerth y disgybl yn uchel iawn. Byddai'n well gwario costau cyfalaf adeiladu ysgol newydd ar uwchraddio ysgolion cynradd yn Sir Benfro. 1: Cadw'r uned bresennol yn Gelli Aur. 2: Rhoi bws i ddisgyblion sy'n dymuno bod mewn ysgol Gymraeg, nid uned Gymraeg i'r ysgol Gymraeg newydd yn Ninbych-y-pysgod.

Cyf.	Sylwadau
245	Mae cefnogaeth gref i'r iaith Gymraeg yn ardal Penfro. Cyfle i wella a chyfoethogi'r amgylchedd dysgu cyfrwng Cymraeg ac hefyd cynyddu capasiti y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ne'r Sir. Bydd sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg 3-11 oed yn ardal Penfro yn sicrhau llif naturiol o ddisgyblion i Ysgol Caer Elen. Gweler cydweithio agos yn barod rhwng Ysgol Gelli Aur (ffrwd Gymraeg) ac Ysgol Caer Elen wrth gweld nifer o blant yn mynychu'r Ganolfan Iaith Ysgol Caer Elen. Yn dilyn adroddiad Estyn yn 2018, mae consyrn wedi codi parthed safonau yn yr iaith Gymraeg yn Ysgol Gelli Aur ac felly byddai sefydlu Ysgol Gymraeg newydd 3-11 oed yn caniatáu defnydd cynyddol o'r Gymraeg e.e. ar yr iard chwarae, ffreutur a corindorau. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn ddwy ffrwd gyda rhai athrawon dim ond yn medru cyfathrebu yn un iaith - Saesneg. Dros y flynyddoedd diwethaf, gweler tŵf syfrdanol yn Ysgol Hafan y Môr ac Ysgol Caer Elen sy'n dangos y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn ne'r sir - Rhaid mai ardal Penfro yw'r lleoliad naturiol nesaf i sefydlu ysgol Gymraeg cynradd 3-11 oed. Mae Ysgol Caer Elen yn ffodus o ddarparu Canolfan Iaith er mwyn darparu cyrsiau ar gyfer hwyrddfyodiaid sydd yn gwasanaethu holl ysgolion cynradd talgylch Ysgol Caer Elen gan gynnwys Ysgol Gelli Aur. Rhaid bod agor ysgol Gynradd Cymraeg 3-11 yn Sir Benfro yn helpu cynyddu'r canran o ddisgyblion sy'n medru siarad Gymraeg. O ganlyniad bydd hwn yn cyfrannu'n gadarnhaol at darged y llywodraeth o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.
246	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
247	Mae'r cynnig i sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg 3-11 oed yn gam naturiol tuag at wella a chyfoethogi'r amgylchedd dysgu ac hefyd cynyddu capasiti y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ne'r Sir. Gwelaf sefydlu'r ysgol newydd hon yn gyfle euraidd i ddatblygu a hybu'r iaith Gymraeg ymhellach yn ein sir ac yn enwedig i greu siaradwyr Cymraeg fydd yn cyfrannu ar wireddu targed y llywodraeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Wrth sefydlu ysgol ffrwd Gymraeg yn hytrach na'r ysgol ddwyffrwd bresennol bydd modd codi safonau y Gymraeg ar draws yr ysgol a rhoi statws haeddiannol i'r Gymraeg, y Gymraeg yn ganolog i weithgarwch ac addysgu yr ysgol hefyd cefnogaeth lawn staff a rhieni.
248	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
250	Mae fy mhlentyn yn haeddu cael ei addysgu mewn ysgol o'r radd flaenaf.
251	Mae'r tystiolaeth yn dangos bod gwell safonau yn yr ysgolion Cymraeg ac ar hyn o bryd mae ffrwd Gymraeg Gelli Aur yn methu. Rhaid edrych a dilyn esiampl Gelli Aur a Hafan y Mor.
252	Nid oes ond rhaid i chi edrych o amgylch y Sir i weld bod ysgolion cynradd newydd Cymraeg yn llwyddo, mae'r addysg sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd ym mhob ysgol yn Sir Benfro bron yn is na'r safon. Rydyn ni angen gwella'r iaith Gymraeg a safonau yn y sir.
253	Byddai'n drosedd gwastraffu'r cyfle i wneud buddsoddiad mor sylweddol yn yr awdurdod. Fel sir dylem groesawu a bod yn falch o ddatblygiad addysg Gymraeg i'n plant. Yn anffodus, nid yw ysgol Gelli Aur ar hyn o bryd yn gallu cynnig addysg Gymraeg ddigonol, felly mae'r buddsoddiad hwn yn hanfodol.

Cyf.	Sylwadau
254	Bydd yn cryfhau'r nod ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ac yn darparu addysg o'r radd flaenaf i ddisgyblion yn Sir Benfro sy'n dymuno dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Dim
257	Teimlaf fod angen y ddarpariaeth hon bellach gan fod darpariaeth uwchradd yn ardal Hwlfordd sy'n annog rhieni i ystyried addysg gynradd Gymraeg i'w plant. Ni allaf ddarparu opsiwn arall gan fod y ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn Hwlfordd eisoes yn orlawn ac mae rhestr aros!
258	Byddwn wrth fy modd yn gweld gwelliant a chyfranogiad mewn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, dylid gwneud hyn yn yr un modd ar draws y gymuned gyfan yn ardal Penfro. Ni fydd y cynllun hwn ond yn gwanhau addysg y Gymraeg yn y mwyafrif o ysgolion yr ardal. Dylid gwneud ymdrech a rhoi adnoddau i godi safonau ym mhob pwnc, gan gynnwys y Gymraeg, ym mhob ysgol. Mae staff wedi ymdrechu'n fawr i wella'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion ac rwy'n teimlo y bydd y cynnig hwn yn rhwystr i'r gwelliannau a wnaed. Hefyd, gan fod rhieni yn gwneud dewis cadarnhaol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg mae'n achosi rhyw fath o apartheid diwylliannol lle ystyrir bod addysg cyfrwng Cymraeg yn well na'r hyn sydd i'w weld mewn addysg gymysg yn seiliedig ar iaith. Efallai oherwydd bod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y gorffennol wedi cael gwell adnoddau ac efallai am fod rhieni'n cymryd mwy o ran. Rwy'n wir yn credu y bydd y cynllun hwn yn niweidiol i addysg yn yr ardal hon. Pam na all pob ysgol gael "ffrwd" Gymraeg? "Ffrwd" Gymraeg ym mhob ysgol.
259	Nid wyf o'r farn bod galw sylweddol yn bodoli i newid y model dwy ffrwd presennol; mae'r cynnig hwn yn cynrychioli gwastraff arian trethdalwyr. Rwy'n sylweddoli fod y gwariant cyfalaf yn cael ei wario drwy grant, ond bydd y cynnig yn cynyddu'r gwariant Addysgol o ran y Gyllideb Refeniw. Ni fyddai'r cynnig hwn yn cael ei ystyried pe na bai cyllid grant ar gael, sydd ynddo'i hun yn tanseilio'r cynnig. Mae pob cyfarfod o'r Cyngor yn cyfeirio at ddiffyg ariannu canolog yng nghyd-destun straen ar wasanaethau lleol ac eto mae'n ymddangos nad oes unrhyw un am herio'r ffaith bod Llywodraeth y Cynulliad yn gwario arian talwyr treth ar brosiectau cyfalaf nad ydynt yn hanfodol mewn cyfnod o galedi. Nid yw'r cynnig yn gwneud dim i danseilio'r canfyddiad ein bod yn creu system ddwy haen yn Sir Benfro, yn enwedig yn y sector Uwchradd. Yn wir, mae'n ymddangos mai un o'r prif sbardunau i lawer o bobl sy'n ceisio addysg cyfrwng Cymraeg yw'r awydd i optio allan o'r ffrwd Uwchradd Saesneg. Mae'r ddogfen ymgynghori'n gwneud nifer o dybiaethau cadarnhaol na ellir eu dilysu, ac nid yw'n ymddangos bod y ffigurau a ddarparwyd yn ategu'r ddadl y gallai datblygiadau tai newydd arwain at brinder lleoedd addysgol? Mae'r Cyfarwyddwr Addysg wedi datgan ar goedd nad yw'r cynnig yn gysylltiedig ag arolygiad diweddar Estyn yn Ysgol Gelli Aur, ac eto mae'r Awdurdod wedi manteisio ar bob cyfle, gan gynnwys drwy gyfrwng negeseuon/ymatebion Cyfryngau Cymdeithasol i gyfeirio at yr agwedd hon fel nodwedd ddylanwadol. Mae mwyafrif y disgyblion o gartrefi Saesneg eu hiaith ac mae'n rhesymegol disgwyl y bydd Saesneg yn

Cyf.	Sylwadau
	parhau i fod yr iaith amlycaf y tu allan i amgylchedd yr ysgol. Rwy'n siomedig iawn i nodi bod nifer o gynghorwyr lleol eisoes wedi nodi eu bod o blaid y cynnig ac nad ydyn nhw ar gael i drafod y materion; yn wir mae Cynghorwyr wedi osgoi holl Gyfarfodydd y Corff Llywodraethol; mi allaf weld sut mae'r ymddygiad hwn yn gwneud y broses ymgynghori yn deg. Nid yw'r effaith ar ddarpariaeth Gymraeg ail iaith sy'n gryfder allweddol yn y Model Cyfrwng Deuol yn cael digon o bwyslais a'm barn i yw os ydych yn dymuno gwella'r Gymraeg rydych yn gwneud hynny drwy gefnogi/targedu'r mwyafrif yn hytrach na'r lleiafrif. Mae'n siomedig nodi bod darpariaeth feithrin wedi'i chynnwys yn y cynnig, gan nad yw ymdrechion i sefydlu trefniant o'r fath yn Gelli Aur wedi'u cefnogi. Mae'r staff addysgu presennol yn y ffrwd Gymraeg yn dibynnu'n helaeth ar gefnogaeth a phrofiad eu cydweithwyr yn y ffrwd Saesneg; bydd y cymorth hwn yn cael ei golli. Mae'r awgrymiadau y bydd yr ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd ac yn cydweithredu'n arbennig mewn agweddau sy'n elwa ar rôl y disgybl uwch, fel drama/chwaraeon ac ati, yn annhebygol o ddigwydd, gan fod profiad yn Ninbych-y-pysgod yn awgrymu fel arall bod ysgolion yn ystyried eu bod yn cystadlu am ddisgyblion. Mae Dinbych-y-pysgod a Phenfro yn wahanol o ran y ddemograffeg leol ac o ystyried nifer yr ysgolion cyfrwng Saesneg yn Noc Penfro, credaf ei bod yn debygol y gallai'r cynnig arwain at gau ysgolion yn y dyfodol. Nid wyf o'r farn bod angen adeilad newydd arall ar gyfer Penfro a bod effaith amgylcheddol andwyol ar y safle arfaethedig. Mae agosrwydd at safle uwchradd ac effaith tagfeydd traffig ac ansawdd yr aer yn debygol o fod yn negyddol. Rwyf o'r farn y byddai wedi bod yn well ar gyfer meini prawf y WESP i ystyried gwella'r ddarpariaeth sydd ar gael mewn ardaloedd eraill; Aberdaugleddau er enghraifft. Mae'n ymddangos bod galw am hynny ac am ardaloedd eraill fel y gwelir yn y nifer o ddisgyblion sy'n mynychu Caer Elen. Gallai gwasanaethau ychwanegol megis darpariaeth cyn ysgol/meithrinfa gael eu darparu yn Gelli Aur, a dylent gael eu darparu, a byddai hynny'n gwella'r arlwy presennol ymhellach.
260	Rwy'n teimlo nad yw ysgolion presennol yn cael digon o gyllid ar hyn o bryd a'u bod yn gorfod torri'n ôl mewn sawl maes. Cyn ehangu gwasanaethau ysgol ac adeiladu ysgolion newydd, dylai'r sefydliadau presennol fod yn cael mwy o arian a chymorth i gynnal/codi safonau. Rwy'n ofni y bydd ehangu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn arwain at system addysg dwy haen gan y byddant yn denu 'math arbennig o deulu'. Ewch ati i ariannu ysgolion presennol yn ddigonol. Dylai hyn gynnwys darparu arian i alluogi'r ysgolion hyn i gyflogi athrawon Cymraeg rhugl ychwanegol a sicrhau addysgu'r iaith yn effeithiol i bob plentyn ac nid dim ond rhai dethol.
261	Nid oes gwir angen hyn, rydych chi wedi bod yn cau ysgolion ac yn torri cyllid yn yr ysgol sydd ar ôl. Nid oes angen ysgol uniaith Gymraeg, mae angen i chi ddefnyddio'r arian hwn i roi mwy o arian i'r ysgolion sydd gennym. Rydych chi wedi bod yn anfon athrawon i ffwrdd er mwyn gwella o ran addysgu Cymraeg, ond pan fyddan nhw'n dychwelyd nid ydyn nhw'n cael eu rhyddhau i ddefnyddio eu talentau newydd. Dylai'r arian rydych chi am ei wario ar ysgol newydd gael ei ddefnyddio i ariannu rhagor o athrawon i addysgu Cymraeg yn yr ysgolion presennol.

Cyf.	Sylwadau
262	Rwy'n falch o fyw mewn gwlad sy'n ei hystyried yn bwysig meithrin cymeriad a diwylliant unigryw mewn byd o safoni
264	Mae Ysgol Gelli Aur yn darparu ar gyfer yr angen am addysg gyfrwng Gymraeg yn yr ardal honno. Byddai ysgol newydd yn wastraff arian, dylid defnyddio'r arian hwnnw i adeiladu ysgol arall mewn ardal nad oes ganddi unrhyw ddarpariaethau ar gyfer yr iaith.
265	Rwy'n byw yn Ninbych-y-pysgod ac felly, gallaf ond wneud sylwadau ar yr Ysgol Cyfrwng Cymraeg 3-11, Hafan Y Môr, sydd wedi bod yn llwyddiant ysgubol.
266	Yn ariannol, nid wyf yn credu y byddai hyn yn opsiwn dichonadwy, gan y byddai adnoddau'n cael eu lledaenu'n deneuach ar draul ysgolion cyfrwng Saesneg. Fel cyn-Gynorthwydd Addysgu sy'n ymwneud ag addysgu Cymraeg achlysurol, rwy'n teimlo y byddai'n well gwario arian ar gyflogi mwy o athrawon Cymraeg eu hiaith ar lefel Gynradd fel y byddai mwy o blant yn cael cyfle i ddysgu Cymraeg ac i ddeall mwy am ddiwylliant Cymru.
267	O ystyried pa mor ddymunol mae'n ymddangos yw ysgol Cyfrwng Cymraeg newydd 3-11 i wasanaethu Penfro a Doc Penfro, mae fy sylwadau'n ymwneud yn benodol â'r cwestiwn o leoliad posibl ar gyfer ysgol o'r fath. Y safle arfaethedig yw Old Bush Farm. Ond nid oes unrhyw archwiliad gwirioneddol wedi cael ei wneud o addasrwydd y safle hwn - ac nid oes unrhyw safle byth heb anfanteision. Gwrthodwyd safleoedd eraill sydd wedi cael eu hystyried am amryw o resymau (diffyg lle yn bennaf). Nid oes unrhyw awgrym wedi cael ei roi am faint o le sydd ei angen mewn gwirionedd, sy'n ei gwneud yn amhosibl asesu'r effaith ar yr ardal gyfagos neu ar ddefnydd presennol Old Bush Farm – sy'n ymddangos yn wag am yr holl ystyriaeth a roddir iddi. Ar hyn o bryd, mae'r Fferm yn cael ei defnyddio gan Green Links CIC, menter gymdeithasol sy'n cefnogi pobl ifanc sy'n elwa o addysg awyr agored amgen. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ymarferol mewn sgiliau galwedigaethol amrywiol, darpariaeth un i un ar gyfer disgyblion nad ydyn nhw'n mynychu, cymorth i'r rhai â phroblemau ymddygiad a hyfforddiant achrededig i ddisgyblion o Ysgol Harri Tudur. Pe bai'r tir oedd ar gael yn cael ei leihau'n sylweddol, gallai'r Fenter beidio â bod yn ddichonadwy, gan ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddod o hyd i ddulliau amgen o addysgu'r plant hyn yn unol â'u rhwymedigaethau cyfreithiol. Mae cyfleusterau eraill yn bodoli ar y safle, ond mae fy niddordeb yn Cleddau Reach Archers, sy'n defnyddio ardal fach sydd wedi cael ei datblygu fel ardal saethyddiaeth, gyda chyfleusterau storio. Er ei fod yn sefydliad annibynnol, mae'r Clwb Saethyddiaeth hwn (sy'n gysylltiedig â chorff Cenedlaethol Archery GB), yn gweithio gyda Green Links i ddarparu profiad i'w myfyrwyr, yn ogystal â gweithio gyda'r Ganolfan Hamdden ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a grwpiau penodol. Gwariwyd arian grant diweddar i wella diogelwch ac i ddatblygu cyfleusterau i saethwyr anabl, gan gynnwys ystum saethu cyfeillgar i gadair olwyn a pharcio a mynediad penodol i bobl anabl. Mae gwelliannau pellach ar y gweill, ond bydd yn rhaid gadael y rhain er mwyn cael goleuni ar y cynlluniau hyn. Os yw'r cynnig yn cynnwys tir sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan Cleddau Reach Archers, yna rwy'n gofyn am sicrwydd y bydd Cyngor Sir Penfro yn cymryd cyfrifoldeb llawn am greu ac ariannu maes saethu awyr agored newydd mewn lleoliad sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr.

Cyf.	Sylwadau
268	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
269	Fe fydd yn fanteisiol i ddisgyblion yn ardal Penfro I sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Dros y 18 mis diwethaf mae llwyddiant ysgubol y sector gynraedd yn Ysgol Caer Elen yn dangos yr effaith y mae sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg mewn ardal yn medru cael ar y galw am addysg Gymraeg. Rwyf yn hyderus y bydd sefydlu Ysgol cyfrwng Cymraeg yn cael effaith tebyg yn ardal Penfro.
270	Rwy'n cefnogi'r cynnig gan fy mod yn credu y bydd o fantais enfawr i'n plant yn y dyfodol.
272	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
273	Cydnabuwyd ers tro mai'r ffordd orau o ddysgu iaith yw cael eich ymdrwytho'n llwyr yn yr iaith honno. Pan sefydlwyd Gelli Aur-Golden Grove, dywedodd y cyfarwyddwr addysg ar y pryd y byddai'r ysgol yn “gwbl ddwyieithog yn y cyd-destun ehangaf”. Yn anffodus, nid yw wedi bod felly erioed. Nid yw'r ysgol erioed wedi cael pennaeth dwyieithog. Pryd bynnag y bydd personél nad ydynt yn siarad Cymraeg mae'n naturiol troi at yr iaith gyffredin, h.y. Saesneg. Ni fyddai dau aelod o staff sy'n siarad Cymraeg gyda'i gilydd yn parhau yn Gymraeg pe bai trydydd aelod o staff, nad yw'n siarad Cymraeg, yn ymuno â nhw. Mae hyn yn ei dro yn rhoi neges isymwybodol sy'n dangos Saesneg yn iaith premiwm sydd o fwy o bwysigrwydd na Chymraeg. Mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, Cymraeg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Y Gwasanaethau, yr arddangosfeydd ar y waliau, y rhyngweithio rhwng aelodau'r staff, iaith yr iard chwarae ac ati. Mae plant yn deall yn gyflym eu bod yn gallu byw eu bywydau drwy'r Gymraeg heb orfod troi at y Saesneg drwy gydol y diwrnod ysgol. Mae llawer o ysgolion cyfrwng Cymraeg bellach wedi'u sefydlu yng Nghymru ac mae'r rhain yn dangos bod safon yr addysg yr un mor uchel â'u cymheiriaid cyfrwng Saesneg. Bydd gan Gelli Aur ddigon o aelodau staff o hyd sy'n siarad Cymraeg i fodloni gofynion eu hanghenion Cymraeg ail iaith. Byddai'n warth ac yn gyfle enfawr wedi'i wastraffu i wrthod ysgol cyfrwng Cymraeg i blant Penfro pan fo gan ein trefi cyfagos, sef Dinbych-y-pysgod a Hwlfordd hyn.
274	Mae'r Gymraeg yn iaith sy'n ffynnu ym mhob man arall yng Nghymru. Yn Sir Benfro mae'n cael trafferth, yn sicr o dan linell y Landsger. Tra bod ffrwd o Gymraeg yn y Gelli Aur nid oes ysgol Gymraeg. Mae Dinbych-y-pysgod wedi bod yn ysgol Gymraeg ar wahân dros y blynyddoedd diwethaf wedi symud ymlaen o ddwy ffrwd. Mae'r nifer o ddisgyblion wedi cynyddu. Rwy'n credu'n gryf os oes gennych ysgol Gymraeg bydd plant yn ymuno. Bydd hynny yn ei dro yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ac yn ysgogi Sir Benfro i'w defnyddio mewn blynyddoedd i ddod.
275	Mae'r cynnig hwn yn ymddangos yn ddatblygiad cadarnhaol ar gyfer darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ym Mhenfro a'r cyffiniau. Oherwydd yr angen i ddod o hyd i'r “nodwedd gyffredin”, teimlaf na fydd hi byth yn bosibl mewn ysgol ddwy ffrwd i'r Gymraeg gael ei defnyddio gan ddisgyblion fel eu hiaith o ddewis i gyfathrebu y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ac mae hyn yn arwain at golli cyfle hanfodol i ddisgyblion ymarfer a datblygu sgiliau sgwrsio, yn enwedig o gofio, mewn ardal fel Penfro a Doc Penfro, y bydd gan lawer ohonynt rieni sy'n siarad Saesneg ac felly na fyddant yn cael cyfleoedd o'r fath gartref. Byddai ysgol cyfrwng Cymraeg unigol fel yr un sy'n cael ei chynnig

Cyf.	Sylwadau
	yn gallu meithrin amgylchedd lle mae'n dod yn naturiol i ddisgyblion siarad â'i gilydd a gyda staff yn y Gymraeg y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Byddai hyn yn helpu i sicrhau, pan ddaw'r amser i symud ymlaen i'r ysgol uwchradd, nad yw disgyblion ardal Penfro sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg dan anfantais o'u cymharu ag eraill fel y rhai o ardaloedd Dinbych-y-pysgod neu Hwlffordd wnaeth fynychu Hafan y Môr, neu'r adran gynradd yng Nghaer Elen. Mae potensial hefyd i'r cynnig wella'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn yr ardal. Fel ysgol cyfrwng Saesneg, credaf y byddai gan staff Gelli Aur ffocws mwy clir ar anghenion y disgyblion sydd ar ôl, byddai'r ysgol yn gallu meithrin cysylltiadau agosach ag ysgol Harri Tudur fel cyrchfan i bawb sy'n gadael Blwyddyn 6, ac mae'n bosibl y bydd y capasiti dros ben yn y safle presennol yn caniatáu i ddosbarthiadau ddefnyddio'r rhannau mwy modern o'r adeilad sydd â chyfarpar gwell. Rhaid peidio â cholli'r cyfle i wneud defnydd effeithiol o grant LIC, heb ddim o'r gost gyfalaf o sicrhau amgylchedd dysgu gwell i bobl ifanc Penfro yn dod o gyllideb y Cyngor, a dyna pam yr wyf yn cefnogi'r cynnig hwn.
276	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
277	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
278	Rwy'n ei gefnogi'n llwyr - mae'r ffordd y mae Gellir Aur wedi ymateb i'r cynnig wedi bod yn warthus. Maen nhw wedi bwlio ein plant i ddweud eu bod nhw'n anghytuno â'r ysgol Gymraeg newydd.
279	Credaf y dylai'r cyllid fynd i'r ysgolion presennol sydd eisoes ar eu gliniau oherwydd toriadau. Gwariwch yr arian ar ysgolion a chyfleusterau presennol
280	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
282	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
283	Defnyddiwch arian ar y ddarpariaeth bresennol Rhy brysur ger Ysgol Harri Tudur fel y mae, mae parcio, gadael a mynd i mewn yn hunllef fel y mae!
284	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
285	Er y gall fod awydd ymysg rhai rhieni am ysgol o'r fath, nid wyf yn credu y byddai ysgol cyfrwng Cymraeg yn gwasanaethu anghenion cymuned ehangach yr ardal hon yn ffordd orau, naill ai'n awr neu yn y dyfodol rhagweladwy.

Cyf.	Sylwadau
	Rhowch gymorth dysgu Cymraeg cryf i'r addysgu cyfrwng Saesneg a sicrhau bod adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gael o fewn y cwricwlwm.
286	Defnyddiwch yr arian i wella ysgolion presennol yn yr ardal
287	Rwy'n cefnogi'r strategaeth Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg ac yn cydnabod bod y cynnig hwn yn cydnabod y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Benfro. Mae fy sylwadau/ymholiadau fel a ganlyn: Mae diffyg eglurder ynghylch yr effaith ar y Gymraeg a datblygiad diwylliannol disgyblion ac addysgwyr a fyddai'n aros yn y lleoliad cyfrwng Saesneg arfaethedig. Beth yw'r ymrwymiad a'r gefnogaeth i hyfforddiant Cymraeg parhaus a datblygol i staff sy'n addysgu yn y ffrydiau Saesneg yn yr ysgol? A oes model yng Nghymru sy'n dangos bod newid yr amgylchedd addysgol o fod yn ddwyieithog i gyfrwng y Saesneg yn galluogi datblygiad gwell o ran yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig disgyblion ac addysgwyr yn yr amgylchedd addysgol cyfrwng Saesneg?
289	Canolbwyntiwch ar yr ysgolion sydd gennych a gwnewch Sir Benfro yn ddeniadol i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg! Nid yw meddygon a gweithwyr proffesiynol eraill am leoli yma oherwydd y pwyslais ar y Gymraeg!!! Rydych chi eisoes wedi gwneud eich penderfyniad felly ni fydd opsiynau amgen o bwys!
290	 (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
291	 (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
292	Rwy'n teimlo bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg fwy na digonol eisoes yn cael ei darparu yn ardal Penfro gan Ysgol Gelli Aur/Golden Grove. Mae'n wastraff arian trethdalwyr a byddai'n well ei wario mewn man arall. Ystyriwch leoli i ardal nad oes ganddo ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, fel Aberdaugleddau.
293	Mae fy nhri phlentyn yn cael neu wedi cael eu haddysgu drwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Maen nhw i gyd wedi elwa o ddysgu dwyieithog ac ethos ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'n well gen i ysgol cyfrwng Cymraeg i uned gan fod yr unedau wedi eu hynysu yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg mwyaf, yn naturiol.
294	Er fy mod yn cefnogi hyrwyddo'r Gymraeg yn ein hysgolion, byddai'n well gennyf weld mwy o gyllid yn cael ei roi i bob ysgol i sicrhau cysondeb yn safonau'r Gymraeg sy'n cael ei haddysgu ym mhob ysgol gynradd ar draws y clwstwr. Rwy'n sylweddoli bod galw am ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig ac mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Gelli Aur yn bodloni'r galw hwn ar hyn o bryd. Os oes angen, gellid defnyddio cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif i wella'r ddarpariaeth bresennol yn Gelli Aur a fydd yn fwy cost-effeithiol, yn cael llai o effaith ar yr amgylchedd ac yn ffordd fwy cynhwysol o ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg.

Cyf.	Sylwadau
	Gellid defnyddio cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif i wella'r ddarpariaeth bresennol yn Gelli Aur a fydd yn fwy cost-effeithiol, yn cael llai o effaith ar yr amgylchedd ac yn ffordd fwy cynhwysol o ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg gan y byddai'r ffrydiau Cymraeg a Saesneg yn gallu rhannu arfer gorau yn well.
296	Angen ysgol Gymraeg er mwyn i'r Gymraeg gael ei haddysgu 100% o'r amser ac nad yw plant dan anfantais pan fyddan nhw'n cyrraedd Preselli Dim. Mae'n syniad da.
297	Saesneg yw'r iaith gyntaf ledled y byd.
298	Rwy'n credu y byddai'n well i'ch arian gael ei roi yn yr ysgolion sydd gennych yn y sir eisoes Gwariwch yr arian rydych chi wedi'i neilltuo ar gyfer hyn ar safleoedd presennol yr ysgol
299	Nid y Gymraeg yw'r brif iaith sy'n cael ei siarad yn Sir Benfro. Canolbwyntiwch ar addysgu pynciau sydd o bwys i blant mewn gwirionedd.
300	Mae'n ymddangos yn gwbl ddianghenraid pan fo ffrwd Gymraeg hollol dda nad yw'n llawn yn Gelli Aur yn barod. Rhowch yr arian yn Ysgol Gelli Aur. Gadewch iddyn nhw ddatblygu eu ffrwd Gymraeg a pheidiwch â gwastraffu'r arian ar frics a mortar!!
304	Mae angen ymestyn a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn ne'r Sir a bydd sefydlu ysgol gynradd 3-11 oed yn gam naturiol a chyfle gwych i drawsnewid addysg mewn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig yr awdurdod. Bydd cynnig yr opsiwn hyn ond yn ehangu a chodi ymwybyddiaeth pobl yr ardal o addysg cyfrwng Cymraeg a fydd o ganlyniad yn rhywbeth hollol bositif. Mae'r cynnig yn cyd-fynd â strategaethau lleol a chenedlaethol o ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg gan anelu at filiwn o siaradwyr yng Nghymru erbyn 2050. Mae tŵf syfrdanol diweddar Ysgol Hafan y Môr ac Ysgol Caer Elen yn esiampl o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg hefyd yn sicrhau llif naturiol a chynyddol o ddisgyblion i adran uwchradd Ysgol Caer Elen.
305	Nid oes angen mae'r ddarpariaeth yn ddigon da yn barod...yr hyn sydd ei angen yw ysgol anghenion addysgol arbennig bwrpasol! Mae gormod o blant yn cael eu gadael ar ymyl y ffordd heb unrhyw help o gwbl! Ysgol anghenion addysg arbennig bwrpasol ym Mhenfro
306	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
307	Rwy'n credu ei fod yn syniad rhagorol ac y dylid fod wedi ei wneud flynyddoedd yn ôl.
308	Os yw Caerdydd, y Cynulliad Cenedlaethol yn gwario arian yn Sir Benfro, dylai fod ar uwchraddio a chadw Ysbyty Llwynhelyg ar agor. Dylid achub bywydau a rhoi iechyd yn gyntaf gan fod gennym ddigon o ysgolion yn Sir Benfro y gellir eu huwchraddio os oes angen.

Cyf.	Sylwadau
	Buddsoddwch yr arian yn ôl yn yr ysgolion yn nalgylch yr ysgol newydd. Felly byddai llawer mwy o ddisgyblion yn elwa ar yr arian sydd ar gael heb orfod teithio i ysgol newydd. Byddai hyn hefyd yn ysgafnhau'r straen ar yr amgylchedd gyda llai o deithio, gall disgyblion barhau i gerdded i'r ysgol yn hytrach na rhieni yn eu gyrru a byddant yn cael eu haddysgu gyda'u ffrindiau yn eu cymuned eu hunain yn hytrach na chael eu cludo i mewn o ardaloedd eraill fel yn achos Preseli a Chaer Elen, yr ysgol newydd yn Hwlfordd. Gwn am ddisgyblion yn cael eu tynnu allan o'u hysgolion cynradd a'u symud i Gaer Elen oherwydd nad yw rhieni eisiau eu plant yn eu hysgolion uwchradd lleol oherwydd yr ymddygiad gwael heb unrhyw ystyriaeth o'r iaith Gymraeg o gwbl. Y peth cyntaf maen nhw'n feddwl amdano yw gwarchod eu plant. Nid yw'r rhieni hyn yn meddwl am addysg yn y Gymraeg ond maen nhw'n rhoi eu plant mewn amgylchedd mwy diogel a mwy digynnwrf mewn ysgol newydd lle mae'r problemau'n ymddangos yn llai. Ni fydd y gost yn cyfiawnhau'r elw. Cyn hir, ni fydd ysbyty o safon yn Sir Benfro a bydd yn rhaid i bobl deithio milltiroedd lawer i gael gofal iechyd. Ai gwario'r arian yw'r dewis cywir i Sir Benfro? Byddai llawer mwy o fudd pe bai'r arian yn cael ei wario'n ddoethach! Buddsoddwch yr arian yn yr ysgolion lleol.
310	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
312	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
313	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
314	Fel athro ysgol gynradd fy hun, ni allaf ddeall pa fudd a ddaw o hyn. Mae Gelli Aur Golden Grove yn ysgol ddwyieithog gydag Uned Gymraeg sy'n gweithio'n berffaith, felly dwy ffrwd gyda 4 dosbarth Cymraeg. Lle mae plant yn dysgu trwy gyfrwng y GYMRAEG yn unig!! Nid oes angen cau'r uned hon o gwbl er mwyn adeiladu ysgol newydd 5 munud i lawr y ffordd. Mae fy mab yn y ffrwd Gymraeg yn yr ysgol hon ac mae'n cael addysg wych, mae'n ffynnu, yn ogystal â bod yn hapus a theimlo'n ddiogel yn ei amgylchedd dysgu. Os yw'r llywodraeth yn benderfynol o wario arian i wella darpariaethau Cymru, rwy'n cefnogi hynny, ond gwnewch hynny drwy wella'r darpariaethau sydd eisoes ar gael. Mae'n wastraff arian llwyr i gau unedau sy'n gweithio'n berffaith! Heb sôn am y ffaith bod lefel y Gymraeg ail iaith yn Gelli Aur o safon uchel oherwydd y ffaith ei bod yn gweithio ochr yn ochr â'r ffrwd Cymraeg iaith gyntaf. Mynychais Gelli fy hun ac roedd y dosbarthiadau Cymraeg yn rhan enfawr o'n teulu ysgol ac yn dal i fod felly. Mae'n drueni meddwl y gallai'r ysgol hon ddod yn ffrwd Saesneg yn unig pan mae'n rhedeg yn berffaith fel y mae! Rhowch fwy o arian i gefnogi ysgolion presennol gyda darpariaeth Gymraeg!
315	[REDACTED]

Cyf.	Sylwadau
	(Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
316	Mae darpariaeth eisoes yn ardal Penfro ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg Rhowch adnoddau i'r ysgolion sydd gennym eisoes! Mae cymaint o ysgolion mewn mesurau arbennig.. dylid gwario arian ar adnoddau ar eu cyfer.
317	Os oes gennych arian dros ben yna ewch ati i ariannu ein hysgolion presennol yn iawn os gwelwch yn dda. Mae'r rheswm pam eich bod chi'n meddwl bod angen ysgol arall arnom y tu hwnt i mi. Gallai Ysgol Llandyfái wneud gyda rhywfaint o ddiweddar, fel rwy'n siŵr sy'n wir am lawer o ysgolion eraill dylid canolbwyntio ar wneud ein hysgolion presennol yn amgylchedd braf ar gyfer staff a'n plant. Mae ein hysgol Gymraeg yn gwneud yn iawn. Pam trwsio rhywbeth nad yw wedi torri?
318	Credaf y dylid gwario unrhyw arian ar gynnal a/neu wella Gelli Aur sydd ar hyn o bryd yn darparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Teimlaf y byddai cael gwared ar yr agwedd hon ar y ddarpariaeth o Gelli Aur yn cael effaith andwyol ar niferoedd y disgyblion yno. Nid wyf yn teimlo bod digon o bobl a fyddai'n hoffi i'w plant gael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardaloedd Penfro/Doc Penfro i gynnal niferoedd y disgyblion mewn ysgol newydd ac i gyfiawnhau'r gost hon. Hefyd, ble fyddai'r disgyblion hyn yn mynd pan fyddant yn gorffen eu haddysg cyfrwng Cymraeg ar ddiwedd Blwyddyn 6? A fydd ysgol uwchradd Gymraeg yn cael ei chynnig yn fuan hefyd? Gweler uchod.
319	Angen canolbwyntio ar yr ysgol bresennol yn hytrach na gwastraffu arian ar fwy Fel uchod
320	Mae'r Gymraeg yn rhan hanfodol o fywyd yn y sir. Mae angen ei chefnogi a'i hannog.
321	[REDACTED] (Mae'r sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau fod ar gael yn gyhoeddus)
322	Braf byddai cael ysgol Cymraeg ar wahan ym Mhenfro.
323	Teimlaf nad yw'n angenrheidiol tra bod gennych ysgol ddwyieithog heb fod yn rhy bell i ffwrdd. Mae Geli Aur eisoes yn darparu'r Gymraeg gan ei bod yn ysgol ddwyieithog.
324	Aeth fy meibion i Golden Manor Grove a Bro Myrddin. Aeth un i Aberystwyth, a'r llall i Gaerdydd. Mae fy mab hynaf yn byw ym Modelwyddan ac yn uwch bensaer gyda chwmni Sgandinafaidd. Mae fy mab arall yn rheolwr data ar gyfer Dŵr Cymru ac yn byw ym Mhontreodre. Fel y gallwch weld, nid yw fy sillafu yn dda iawn ond mae fy meibion wedi mwynhau addysg arall ac yn siarad Cymraeg o hyd.

Cyf.	Sylwadau
325	Ni fydd yr isadeiledd o amgylch yr ardal rydych chi'n ei chynnig yn cefnogi ysgol newydd, mae traffig yn ddigon drwg ar hyn o bryd. Dylech ganolbwyntio ar wella'r ysgolion sydd eisoes wedi'u hadeiladu. Does dim digon o arian i wneud atgyweiriadau i'r ysgol gyfun newydd sbon sy'n llai na dwy flwydd oed. Canolbwyntiwch ar yr hyn sydd gennym yn barod. Canolbwyntiwch ar yr hyn sydd yma'n barod
326	1). Dylai dogfennau ymgynghori ond gynnwys y manteision a'r anafanteision sy'n gysylltiedig â'r pwnc dan sylw. Gyda'r wybodaeth honno, gall y darllenydd wneud penderfyniad gwybodus. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y cynnig a nodwyd gan Gyngor Sir Penfro (CSP) yn Adran 5. Oherwydd hyn, credaf ei bod yn 'fargen wedi'i chadarnhau' ac y byddai unrhyw sylwadau yn erbyn y cynnig yn syrthio ar glustiau byddar. 2). Y natur ddynol yw'r hyn ydyw, byddai meddwl am blant yn cael eu haddysgu mewn adeilad newydd sbon sy'n llawn cymhorthion addysgu uwch-dechnoleg yn ymddangos yn gynnig deniadol i'r mwyafrif o rieni. Dylai'r ddarpariaeth addysg fod yr un fath ar gyfer pob disgybl, ond pe byddai'n cael ei derbyn byddai'r senario hon yn arwain at ryw 100 o ddisgyblion yn cael eu haddysgu mewn cyfleuster newydd sbon gan adael 200 o ddisgyblion mewn ysgol sydd wedi cael gradd 'C' (gwael) am ei chyflwr ac addasrwydd. Gweler Tudalen 13 Adran 3.6 Adeiladau/Llety. NID OES CHWARAE TEG. 3). Mae'r ddogfen yn nodi bod sefydlu Hafan y Môr yn Ninbych-y-pysgod wedi bod yn llwyddiant, fodd bynnag byddai rhywun sydd â gwybodaeth am yr ardal leol yn sicr yn gwybod bod cymunedau Dinbych-y-pysgod a Phenfro yn gwbl wahanol, felly efallai na fydd yr hyn sy'n gweithio mewn un ardal yn gweithio mewn ardal arall. 4). Mae targedau allweddol wedi cael eu sefydlu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) ar gyfer cynnydd yn nifer y plant sy'n gallu siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg. Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn bodloni'r targedau hynny maen nhw'n cynnig mynediad i grant cyfalaf o 100% o £5.9 miliwn o bunnau. Mae'r cynnig sydd wedi'i nodi yn adran 5 yn nodi'n glir 'na ddylid colli hyn'. Mae'r datganiad hwn yn rhoi barn unochrog iawn i'r darllenydd ar yr hyn a all neu na all ddigwydd. 5). Mae'n nodi yn y ddogfen Tudalen 40 - Adran Effaith ar Iechyd a Lles bod 'safle arfaethedig yr ysgol wedi'i leoli yn nhref Penfro.' Nid yw'r datganiad hwn yn hollol wir, mae o fewn cyffiniau'r dref ond nid yn y dref ei hun. Gallai ffeithiau anghywir arwain y darllenydd at wneud penderfyniad nad yw'n gywir. Mae awgrym hefyd y gallai disgyblion sy'n cerdded i Gelli Aur gerdded yn i'r ysgol newydd ond mae safle arfaethedig yr ysgol newydd gryn ffordd o Gelli Aur ac o ganlyniad efallai na fydd cerdded i'r ysgol newydd yn opsiwn dichonadwy. Byddai hyn yn golygu cynnydd mewn traffig cerbydau ar ffordd sydd eisoes yn brysur rhwng Penfro a Doc Penfro a thu hwnt. Ôl-troed carbon!!! 6). Os yw disgyblion yn cerdded o ardal Penfro yna byddai'n rhaid iddynt groesi ffordd brysur iawn sydd â dwy bont yn cael eu rheoli yn unig, un ym Mhont y Felin a'r ail un yn Garage on the Green. RHAID i ddiogelwch disgyblion fod o'r pwys mwyaf. 7). Os yw 100 o ddisgyblion yn penderfynu trosglwyddo i'r ysgol newydd, mae'n ddigon posibl y gallai hynny effeithio ar allu Gelli Aur i ffurfio timau chwaraeon neu gôr ac rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod cystadlu yn erbyn ysgolion eraill yn agwedd bwysig iawn ar fywyd ysgol. 8). Mae'r ddogfen yn rhoi pwys mawr ar y ffaith y gallai'r cynllun datblygu lleol (CDLI) gynhyrchu tua 500 o unedau tai dros gyfnod o bum mlynedd. Byddai hyn yn ôl y ddogfen yn cynhyrchu tua 75 o ddisgyblion wedi'u gwasgaru dros ardal o Cosheston i Benrhyn Angl. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd ac yn sicr dim tystiolaeth y byddai rhieni'r 75 o

Cyf.	Sylwadau
	blant hynny am i'w plant gael eu haddysgu yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg, felly mae hwn yn honiad braidd yn gamarweiniol. 9). Os yw 100 o ddisgyblion yn gadael Gelli Aur yna mae posibilrwydd y bydd staff yn wynebu diswyddiadau, tra na fyddai staff sy'n trosglwyddo i'r ysgol newydd yn wynebu'r bygythiad hwn. Ydy hynny'n deg? 10). Adran 4.1 Arolygiad Estyn - wedi canfod meysydd a oedd yn 'ddigonol ac angen eu gwella'. Mae Adran 4.2 yn rhestru'r meysydd lle mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd yn dilyn yr arolygiad. Mae'r frawddeg olaf yn 4.3 yn nodi bod 'Gelli Aur yn y categori AMBER ar hyn o bryd' ond o siarad â'r bobl berthnasol yn yr ysgol mae bellach wedi'i huwchraddio i'r categori MELYN, os yw hyn yn wir, yna mae'n cryfhau'r achos i aros fel y mae . 11). Byddwn yn dychmygu y byddai ysgolion eraill sy'n wynebu achosion posibl o ddisgyblion yn trosglwyddo yn meddu ar bryderon tebyg felly sut y gallwch ddangos i staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni y bydd y broses ymgynghori yn cael ei chynnal mewn modd teg a thryloyw? Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi yn Adran 6 - Opsiynau amgen sydd wedi'u hystyried - bod opsiynau amgen wedi'u cyflwyno a'u trafod ond bod pob un ohonynt wedi dod i ben, eu dirwyn i ben cyn i chi dderbyn unrhyw adborth gan yr ysgol neu rieni. Sut y gellir ystyried hyn fel proses ymgynghori onest a thryloyw? 1. Cynnal y <i>status quo</i> - Gyda chymorth a chefnogaeth, cynyddwch safon y ddarpariaeth Gymraeg i'r fath raddau fel y bydd rhieni anfon eu plant i adran Gymraeg yr ysgol. Mae digon o le yn yr ysgol hefyd, 2019 - 87% yn gostwng i 76% erbyn 2024. Yn dilyn adroddiad Estyn, mae safonau wedi gwella a gyda buddsoddiad digonol, mewn adeiladau ac addysgu Cymraeg. Gall Gelli Aur ddod yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg ddwy ffrwd ond gyda'r ddarpariaeth Gymraeg yn diwallu anghenion Llywodraeth y Cynulliad. 2. Ehangwch y gwaith o adnewyddu'r cyfleuster Cymraeg yn Ysgol Gelli Aur - Pe bai'r gefnogaeth a'r buddsoddiad ariannol angenrheidiol yn cael eu rhoi yn y cyfleuster Cymraeg, mae'n ddigon posibl y byddai'n denu mwy o rieni i benderfynu eu bod am i'w plant gael eu haddysgu trwy gyfrwng Cymraeg gan fynd rhywfaint o'r ffordd i fodloni gofynion LICC. Yn dilyn adroddiad Estyn mae safonau wedi gwella a gyda gwelliant mewn safon gallent ddenu mwy o blant i gael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. 3. Yn ne'r Sir, mae nifer o ysgolion sydd wedi cael eu cau i lawr ac sy'n awr yn sefyll yn wag. Dylai CSP fod yn gweithio'n galed i ddadlwytho'r adeiladau hyn cyn iddyn nhw ddirywio a dod yn ddi-werth. Mae ysgol East End ym Mhenfro yn enghraifft berffaith sydd wedi bod yn sefyll yn wag am gyfnod hir iawn. Gellid ail-fuddsoddi'r arian a gronwyd o werthu ysgolion i wella'r adeiladau mewn ysgolion presennol e.e. Gelli Aur
327	Rhagymadrodd: [REDACTED] ac rwyf wedi byw a gweithio'n broffesiynol ym Mhenfro a Doc Penfro ers [REDACTED]. Cafodd fy ngwraig ei geni a'i magu yn Noc Penfro ger ein cyfeiriad presennol ac mae'n Athrawes gymwysedig ar Lefel Uwchradd ac mae wedi gweithio'n cyflenwi ar Lefel Gynradd ym Mhenfro a Doc Penfro. Addysgwyd ein 4 plentyn yn lleol; y ddau hynaf yn Ysgol Iau Golden Manor a Grove ym Mhenfro a'r ddau ieuengaf yn Noc Penfro ac Ysgol Gyfun Penfro. Maen nhw i gyd wedi mynd ymlaen i yrfaedd proffesiynol cyfrifol. Roeddwn yn Rhiant-lywodraethwr yn Ysgol Gelli ac yn ddiweddarach yn Ysgol Gynradd Doc Penfro ac yn Gadeirydd Llywodraethwyr Teulu o Ysgolion Cynradd Penfro ac wedi hynny yn Ysgol Gyfun Penfro. Fel teulu rydym wedi bod yn fwy na bodlon ar yr addysg mae'r plant i gyd wedi ei dderbyn yn lleol. SYLWADAU ar y Cynnig: 1. Ystadegau ar gyfer y Prosiect. Mae'n ymddangos bod yr

Cyf.	Sylwadau
	Ymgynghoriad yn seiliedig ar Gofnodion 60 o bartïon i'r Hysbysiad cychwynnol, a dim ond 36% ohonynt a gofnodwyd o blaid. Mae hyn yn gyson yn fy marn i gyda Chofnodion Cyfrifiad o 2011 pan wnaeth 73% o drigolion Sir Benfro gyfaddef nad oedd ganddynt unrhyw wybodaeth o'r Gymraeg. Mae ffigurau'r cyfrifiad yn dangos cyfanswm o 122,439 o drigolion yn y Sir: Roedd gan 3 ward Penfro a Chil-maen 7566 o drigolion: Roedd gan Ddoc Penfro gan gynnwys Pennar 9753. Mae Penfro a Doc Penfro sydd hefyd yn cynnwys Cil-maen a Pennar hefyd yn "Little England" ac yn fy mhrofiad i o'r 50 mlynedd diwethaf nid ydyn nhw'n hysbys am siarad Cymraeg yng nghyd-destun y teulu. 1. Nid yw fy mhrofiad o dros 50 mlynedd preswyl fel cyfreithiwr proffesiynol sy'n ymdrin â gwaith Teuluol <i>inter alia</i> mewn ardaloedd difreintiedig fel Doc Penfro a Chil-maen yn fy narbwyllo bod y mwyafrif o drigolion yn siarad Cymraeg yn y cartref ac felly'n gallu helpu eu plant gyda sgwrs. 3. Adroddiad Estyn ar ysgol Gelli Aur y mae'r Ymgynghoriad yn rhoi sylw manwl iddo (Tudalen 15). Mae'n ymddangos bod sylwadau'r arolygwyr yn anwybyddu natur "Seisnigaidd" yr ardal a'r pwynt yn 2 uchod o'r diffyg Cymraeg llafar yn y cartref. Prin y bydd yn syndod, ar iard chwarae'r ysgol, y bydd y disgyblion yn sgwrsio â'u cyd-ddisgyblion yn Saesneg. Mae hefyd yn werth nodi bod gwelliannau wedi bod yn Gelli Aur cyn belled ag y mae adroddiad Estyn yn y cwestiwn ers yr Arolygiad (Tudalen 16 o'r Ymgynghoriad). 4. 1. Mae'r Ymgynghoriad yn cyfeirio at "Ethos Gelli Aur ar dudalennau 15/16 ond rydym ni fel neiniau a theidiau wedi bod yn falch iawn bod dau o'n hwyrion/wyresau lleol wedi gallu mynychu'r Ysgol bedair blynedd yn ôl a bod yr awyrgylch ardderchog hwnnw, gan gynnwys yr "Ethos" rydyn ni wedi'i arsylwi ers hynny yn ddigryfnewid yn ystod ein cysylltiadau a'n hymweliadau parhaus. Byddai hyn yn gyson â'n gwybodaeth a'n profiad o'r Pennaeth a'r Staff i gyd. 5. Dylai Dalgylchoedd Arfaethedig sy'n cael eu crybwyll yn yr ymgynghoriad gynnwys Doc Penfro, Pennar, Llandyfái, a Cosheston yn ogystal â Phenrhyn, yr ysgol newydd yn Hundleton. 6. Nid yw'r gymhariaeth sy'n cael ei gwneud yn aml at yr ysgol newydd yn Ninbych-y-pysgod yn berthnasol gyda pharch dyledus gan fod Dinbych-y-pysgod yn ardal lai ac mae ganddi lai o breswylwyr y rhan fwyaf o'r flwyddyn yn ystod amser ysgol. Yn ôl Cyfrifiad 2011, 4596 o drigolion. Yn ogystal, nid oes ganddo arwyddocâd "difreintiedig" ychwaith fel Doc Penfro a Chil-maen. 7. Mae Safleoedd Posibl ar gyfer Ysgol Newydd (Adran 5.2 tudalen 21) wedi'u lleoli'n bennaf ar y Tir yn Bush a bydd pobl leol yn cadarnhau bod PROBLEMAU Traffig yn bodoli yno eisoes ar amseroedd Ysgol gyda Chanolfan hamdden a dim ond dwy fynedfa yn ogystal â Chartref Preswyl Bush House ar yr ochr Ddwyreiniol. Byddai Plant Cynradd sy'n cerdded i safle o'r fath o Benfro yn gallu cymysgu â DISGYBLION Uwchradd. Dylai cynigion amgen gynnwys yr Awdurdod Addysg yn dyrannu mwy o adnoddau i Gelli Aur, 50 mlwydd oed hyd yma, gan gynnwys ariannu Athro Cymraeg ychwanegol. Yn fy marn i, byddai hyn yn helpu i gynnal yr enw da rhagorol y mae'r Pennaeth a'r Staff yn ei fwynhau ar hyn o bryd yn yr ardal. Dylai'r Awdurdod hefyd ystyried ymchwilio i ddarpariaeth addysg Gynradd Gymraeg yn ardal Aberdaugleddau a/neu Neyland sy'n agosach i'r Ysgolion Cymraeg newydd yn Hwlfordd. (Mae rhai sylwadau wedi'u golygu at ddibenion y ddogfen hon – gwybodaeth bersonol a allai fod yn sensitif)
	Prynhawn da

Cyf.	Sylwadau
	Heb gymryd rhan yng ngwleidyddiaeth yr angen am Ysgol Cyfrwng Cymraeg newydd. Byddai unrhyw Ysgol sydd wedi'i lleoli ar Glan-y-Môr yn gallu manteisio ar amgylchedd dysgu unigryw. Mae'r fferm yn cynnwys 45 erw o dir ac adeiladau fferm cysylltiedig gydag ystod lawn o anifeiliaid. Mae gan y fferm hefyd ardaloedd weldio/gofaint/adeiladu/saethyddiaeth/gardd a gwaith coed. Mae'r coetiroedd cyfagos yn cyfateb i dros 30 erw gyda mynediad i'r draethlin. Mae Green Links yn darparu pob tiwtor i helpu pobl ifanc i gyrchu a dysgu o'r holl feysydd diddordeb amrywiol hyn. Byddai unrhyw ysgol newydd yn helpu i gynnal a chadw'r seilwaith dros y tymor hir a byddai'n cynnal ac yn gwella safle Glan-y-môr i'r dyfodol Dylai unrhyw ysgol newydd yn ystod y cyfnod adeiladu ystyried gwella'r llwybrau coetir a'r ardd fel rhywbeth sy'n angenrheidiol i wneud y gorau o'r mannau awyr agored hyn. Dylai unrhyw adeilad ysgol newydd ymgorffori ynni carbon niwtral (solar a bio-fàs 0, gan ddefnyddio safle Glan-y-Môr i'w lawn botensial mewn partneriaeth â defnyddwyr presennol os ydych chi am i mi ehangu ar y rhain, gadewch i mi wybod - neu dewch i ymweld a gallwn drafod diolch.
	Dywedwyd wrthyf y gallwn gysylltu â chi am fy mhryderon ynghylch lleoliad arfaethedig yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd bosibl yn ardal Penfro. Mae fy merch yn mynychu ysgol Gelli Aur ar hyn o bryd ac yn dysgu yn Gymraeg. Er fy mod yn credu bod y newidiadau hyn yn ddiangen a byddai'n well gen i iddi aros lle mae hi, dydw i ddim yn 100% yn erbyn yr ysgol newydd. Fodd bynnag, rwy'n 100% yn erbyn y lleoliad. Teimlaf ei fod yn gwbl anaddas am lawer o resymau. Dyma rai ohonynt: - fy mhrif wrthwynebiad iddo yw ei fod yn agos iawn at Ysgol Harri Tudur, yn enwedig y cwricwlwm amgen sy'n cael ei ddarparu gan Greenlinks. Rwy'n gweithio gyda phobl ifanc sy'n defnyddio'r ddarpariaeth hon, ac er fy mod yn eu cefnogi'n llwyr fel rhiant, dydw i ddim yn credu ei bod yn briodol i blant oedran cynradd gael eu lleoli mor agos at ddarpariaeth eu hysgol. Teimlaf, yn ystod amser chwarae ac unrhyw adeg yn yr awyr agored yn ystod diwrnod yr ysgol gynradd, y bydd y demtasiwn o sefyllian y tu allan i ffens yr ysgol yn ormod i ddisgyblion y ddarpariaeth Greenlinks eu gwrthsefyll a byddai'r disgyblion cynradd yn agored i lawer ymddygiad amhriodol e.e. ysmygu ac iaith wael. Rwyf yn ymwybodol bod cynlluniau i symud rhywfaint o'r ddarpariaeth cwricwlwm amgen i floc gwyddoniaeth Ysgol Penfro, ond hyd y gwelaf, bydd y ddarpariaeth hon yn ychwanegol at y ddarpariaeth Greenlinks ac nid yn ei lle.

Cyf.	Sylwadau
	- mae'r materion eraill sy'n ymwneud â'r lleoliad yn deillio o faterion traffig a'r tagfeydd ynghyd â'r ffaith na fydd llawer o'r plant sy'n cerdded i'r ysgol ac oddi yno ar hyn o bryd yn gallu gwneud hynny mwyach. Rwy'n gobeithio y bydd y broblem o ran agosrwydd at Greenlinks yn cael ei chymryd o ddifrif gan fy mod yn credu y gallai hyn achosi problemau os a phan adeileidir yr ysgol newydd.
	Ymgynghoriad â disgyblion ar Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg newydd yn ardal Penfro ar gyfer oeddrannau 3-11 11 Rhagfyr 2019 Ymwelodd Rose Davis (Uwch Weithiwr Ieuenctid, Swyddfa Hawliau Plant a Phobl Ifanc) a Liz Griffiths (Uwch Weithiwr Ieuenctid, Tîm Ieuenctid Cymunedol) ag Ysgol Golden Grove/Ysgol Gelli Aur i gynnal ymgynghoriad â disgyblion. Fe wnaethon ni gwrdd â 2 grŵp o ddisgyblion: y ffrwd Gymraeg a'r ffrwd Saesneg. Roedd canlyniadau'r ymgynghoriad fel a ganlyn: Ymgynghoriad y ffrwd Gymraeg: Cymerodd 10 disgybl o Flwyddyn 2-6 ran Cefnogi'r cynnig - 10 Ddim yn cefnogi'r cynnig – 0 Ddim yn teimlo'n gryf un ffordd neu'r llall – 0 Sylwadau disgyblion: • Mae'r disgyblion wedi paratoi ar gyfer y sesiwn hon gyda thrafodaeth gyda'r cyngor dosbarth, felly maen nhw'n cynrychioli eu barn eu hunain a'u cyd-ddisgyblion. • Weithiau yn ystod amser egwyl mae'r plant Saesneg yn dweud ein bod ni'n wahanol. • Bydd gennym fwy o le mewn ysgol newydd. • Mae'n syniad da oherwydd rydyn ni'n gwybod bod Llywodraeth Cymru eisiau 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 • Mae pawb yn hapus gyda'r cynnig Ymgynghoriad y ffrwd Saesneg

Cyf.	Sylwadau
	Cymerodd 13 o ddisgyblion Blwyddyn 3-6 ran yn yr ymgynghoriad Cefnogi'r cynnig – 0 Ddim yn cefnogi'r cynnig – 11 Ddim yn teimlo'n gryf un ffordd neu'r llall – 2 Sylwadau disgyblion: • Mae'r disgyblion wedi paratoi ar gyfer y sesiwn hon gyda thrafodaeth gyda'r cyngor dosbarth, felly maen nhw'n cynrychioli eu barn eu hunain a'u cyd-ddisgyblion. • Byddwn yn colli ein ffrindiau Cymraeg • Os yw brodyr a chwiorydd mewn gwahanol ffrydiau byddant yn cael eu gwahanu (ar hyn o bryd mae gan rai teuluoedd frodyr a chwiorydd mewn gwahanol ffrydiau) • Nid oes dim o'i le ar sut y mae felly nid oes angen ysgol arall arnom • Mae disgyblion Cymraeg yn ein helpu os ydym yn cael trafferth gyda geiriau Cymraeg, felly mae hyn yn ein helpu i ddysgu Cymraeg • Nid yw'n syniad da oherwydd os bydd pob un ohonyn nhw'n mynd bydd gennym lwyth o ddosbarthiadau gwag a gallent daro rhywfaint o'n hysgol i lawr • Gallai'r holl arian sy'n mynd i adeiladu ysgol newydd fynd i bobl sydd wir angen hynny e.e. adeiladu ysbyty newydd • Mae cael disgyblion Cymraeg o gwmpas yn ei gwneud yn llai brawychus i ni ddysgu iaith newydd – mae'n dysgu mwy i ni am y Gymraeg • Yr amgylchedd – gallai'r ysgol newydd gael ei hadeiladu ar ben cynefin anifail • Nid yw'r cynnig yn deg – bydd disgyblion Cymraeg yn cael ysgol newydd ac ni fyddwn ni'n cael ysgol newydd • Gwahanu ffrindiau • Dylai'r Cyngor uwchraddio'r ysgol bresennol ar gyfer siaradwyr Cymraeg a Saesneg fel bod pob disgybl yn cael gwell cyfleusterau yn lle hynny

Cyf.	Sylwadau
	• Mae'n wastraff arian i adeiladu ysgol newydd - adeiladwch ar yr ysgol bresennol • Dylem gael newid yn yr amserlen i gael awr o chwarae bob dydd • Efallai y bydd rhai siaradwyr Cymraeg yn symud i'r ysgol Saesneg fel y gallant aros yma yn lle mynd i'r ysgol Gymraeg newydd • Mae rhai disgyblion nad ydynt yn y grŵp hwn (mewn côr) yn teimlo y dylai fod ysgol newydd i helpu i wella siarad Cymraeg yn yr ardal • Dywedodd rhywun yn y cyngor dosbarth y dylent gael ysgol Gymraeg newydd gan nad yw timau chwaraeon Cymru a Lloegr yn cyd-dynnu • Dywedodd rhywun yn y dosbarth ie am ysgol newydd – gallem ni ddefnyddio eu hystafelloedd dosbarth fel ystafell gelf ac ystafell TG bwrpasol ac ati. • Mae'r ysgol newydd yn dipyn o wastraff arian. Mae disgyblion y ffrwd Gymraeg yn iawn yma. • Cawsom drafodaeth dosbarth a dywedodd rhai eu bod am gael ysgol newydd gan y bydd mwy o le yn y gwasanaeth • Pwy fyddai'r capteiniaid tŷ? • Byddwn yn colli'r rhan fwyaf o aelodau tîm pêl-droed bechgyn gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn siaradwyr Cymraeg • Mae disgyblion Cymraeg eisoes wedi ymgartrefu yn yr ysgol felly pam eu symud • Efallai y bydd rhai siaradwyr Saesneg yn dymuno symud i'r ysgol newydd gan ei fod yn newydd • Gallai'r gwaith adeiladu a'r ysgol newydd effeithio ar y traffig
08 Ionawr 2020	Ymgynghoriad â disgyblion ar Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg newydd yn ardal Penfro ar gyfer oedrannau 3-11 Sylwadau wedi'u dal o gyfarfod ag Ysgol Harri Tudur/Ysgol Henry Tudor, Cyngor Ysgol ar gynnig Ysgol Cyfrwng Cymraeg 3-11 1. Cefndir. Ddydd Mercher 8 Ionawr 2020 cafodd Cyngor Ysgol Ysgol Harri Tudur/Henry Tudor eu briffio ar y cynnig i adeiladu Ysgol Cyfrwng Cymraeg 3-11 yn Ardal Penfro. Rhoddwyd y brîff gan y Pennaeth, Mrs Fiona Kite, ac fe'i mynychwyd gan Reolwr Busnes yr

Cyf.	Sylwadau
	Ysgol, Nick Makin. Roedd saith ar hugain o Aelodau'r Cyngor yn bresennol, gyda chynrychiolaeth bachgen a merch ar draws pob blwyddyn ysgol. Rhannodd Mrs Kite a'r disgyblion y darlleniad ar goedd o'r papur a ysgrifennwyd gan Kate Evan Hughes i Gynghorau Ysgol ei ystyried. 2. Sylwadau ac Arsylwadau. Gwnaed y sylwadau a'r arsylwadau canlynol gan aelodau o'r Cyngor Ysgol; - Codwyd yr effaith bosibl ar y disgyblion yn YHT gan yr ysgol newydd arfaethedig fel pryder, mwy o adeiladu, mwy o draffig, pan fu llawer o flynyddoedd o adeiladu ac aflonyddwch ar ein safle. - Cwestiynwyd a oedd poblogaeth addas o ddisgyblion targed i ddiwallu capasiti'r ysgol. A oedd digon o blant yn yr ardal oedd angen/eisiau Addysg Cyfrwng Cymraeg. - Cwestiynwyd y rhesymeg i newid cyfluniad presennol y Gelli Aur. Pam? - Roedd pryder cyffredinol ynghylch effaith negyddol yr ysgol newydd arfaethedig ar seilwaith presennol y safle, adnoddau, rheolaeth traffig a mynediad at wasanaethau brys, lles amgylcheddol a llygredd sŵn (yn enwedig gyda'r Cartref Nyrsio ar y campws) a mynediad yn y dyfodol gan ddisgyblion YHT at gyfleusterau chwaraeon awyr agored. - Roedd cytundeb cyffredinol y gallai'r arian a nodwyd i adeiladu'r ysgol gael ei ailfuddsoddi'n well mewn ysgolion presennol yn yr ardal leol, gwella'r ddau gyfleuster, gan alluogi dwyieithrwydd a hyfforddi staff (yn enwedig siaradwyr Cymraeg) ar raglenni Cymraeg. - Roedd y syniad o ddarparu addysg ddwyieithog Cymraeg/Saesneg integredig, ar draws ysgolion Cynradd ac Uwchradd, yn cael ei gefnogi'n fawr. - Awgrymwyd, os am adeiladu'r ysgol cyfrwng Cymraeg yn ardal Penfro, y byddai'n well gwario'r cyllid yn adnewyddu/ailgylchu'r ysgol yn St Mary's neu ar safle arall na nodwyd yn y cynnig. - Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r cynnig gan y byddai'n cyfoethogi darpariaeth y Gymraeg yn yr ardal leol. - Nid yw'r Cyngor Ysgol yn credu mai dysgu trwy gyfrwng Cymraeg yw'r unig ffordd i gael addysg o ansawdd da. 3. Pleidleisio. Cofnodwyd y pleidleisiau canlynol (gan 27 aelod o'r Cyngor Ysgol); - Yn cefnogi'r cynnig - 2 (7%). - Ddim yn cefnogi'r cynnig - 24 (89%). - Dim barn gadarn - 1 (4%). Rheolwr Busnes yr Ysgol

Cyf.	Sylwadau								
	Ymgynghoriad â disgyblion ar Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg newydd yn ardal Penfro ar gyfer oedrannau 3-11 Ysgol Pennar Nifer y disgyblion yn y grŵp: 7 Cynghorydd Ysgol CA2 Cwestiynau: Cynnig i adeiladu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn ardal Penfro <table data-bbox="604 644 1756 944" style="margin-left: auto; margin-right: auto;"> <tr> <td></td><td></td></tr> <tr> <td>Dydw i ddim yn teimlo'n gryf un ffordd neu'r llall</td><td>4</td></tr> <tr> <td>Rwy'n cefnogi'r cynnig</td><td>.....</td></tr> <tr> <td>Dydw i ddim yn cefnogi'r cynnig</td><td>3</td></tr> </table> Sylwadau Disgyblion: Mae'n syniad da oherwydd byddai mwy o blant yn cael dysgu Cymraeg ond syniad drwg gan y gallai plant gael trafferth mewn ysgol gwbl Gymraeg. Teimlai'r holl blant ei bod yn anghywir y byddai'r holl arian o Lywodraeth Cymru yn cael ei wario ar ysgol newydd. Pam na allan nhw gadw'r plant Cymraeg eu hiaith yn Gellir ac arbed arian drwy beidio adeiladu'r ysgol newydd? A fyddai'n golygu bod llai o arian i ni?			Dydw i ddim yn teimlo'n gryf un ffordd neu'r llall	4	Rwy'n cefnogi'r cynnig		Dydw i ddim yn cefnogi'r cynnig	3
Dydw i ddim yn teimlo'n gryf un ffordd neu'r llall	4								
Rwy'n cefnogi'r cynnig									
Dydw i ddim yn cefnogi'r cynnig	3								

Cyf.	Sylwadau								
	Nid yw'r Llywodraeth yn gallu helpu rhieni i siarad Cymraeg, ac ni fyddent wedyn yn gallu cefnogi eu plant.								
	Ymgynghoriad â disgyblion ar Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg newydd yn ardal Penfro ar gyfer oedrannau 3-11 Ysgol Llandyfái Nifer y disgyblion yn y grŵp -12 o ddisgyblion Bl 6 - Gallu cymysg Cwestiynau: Cynnig i adeiladu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn ardal Penfro <table border="1" data-bbox="602 651 1753 943"> <tr> <td></td><td></td></tr> <tr> <td>Dydw i ddim yn teimlo'n gryf un ffordd neu'r llall</td><td align="right">5</td></tr> <tr> <td>Rwy'n cefnogi'r cynnig</td><td align="right">5</td></tr> <tr> <td>Dydw i ddim yn cefnogi'r cynnig</td><td align="right">2</td></tr> </table> Sylwadau Disgyblion: ‘. - Nid yw’n deg bod ysgol newydd arall yn cael ei hadeiladu ac rydym yn dal i gael ein dysgu mewn caban y tu allan ar yr iard.’ ‘Byddai’r ysgol newydd yn helpu pobl i siarad Cymraeg’ ‘Mae yna fantais gan y gallai plant ddysgu mwy o Gymraeg felly pe bai ysgol arall byddai’n eithaf da. Fodd bynnag, bydd yn effeithio ar ysgolion eraill oherwydd efallai y bydd plant eisiau symud.’			Dydw i ddim yn teimlo'n gryf un ffordd neu'r llall	5	Rwy'n cefnogi'r cynnig	5	Dydw i ddim yn cefnogi'r cynnig	2
Dydw i ddim yn teimlo'n gryf un ffordd neu'r llall	5								
Rwy'n cefnogi'r cynnig	5								
Dydw i ddim yn cefnogi'r cynnig	2								

Cyf.	Sylwadau																				
	‘Rwy’n credu ei fod yn syniad da fodd bynnag, pe bai plant yn symud i’r ysgol hon o Landyfái gallai ein hysgol fynd yn llawer llai a byddai hyn yn drist iawn.’ Rwy'n credu ei fod yn beth drwg gan ei fod yn ei gwneud hi'n annheg ar yr ysgolion eraill. Dydyn ni ddim wir ei angen gan fod gennym ni ysgol Gymraeg eisoes yn Ninbych-y-pysgod a Gelli. Rydym eisoes yn dysgu Cymraeg yn y dosbarth ar hyn o bryd’ ‘Rwy'n credu ei fod yn beth da ac yn beth drwg gan y bydd yn mynd â phlant o’u hysgol bresennol ac yn gostwng eu niferoedd. Y peth da yw y bydd rhai pobl yn dysgu mwy o Gymraeg.’																				
	Ymgynghoriad â disgyblion ar Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg newydd yn ardal Penfro ar gyfer oedrannau 3-11 Ysgol Gymunedol Doc Penfro Nifer y disgyblion yn y grŵp: 22 / 30 / 24 Cwestiynau: Cynnig i adeiladu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn ardal Penfro <table><tr><td></td><td></td><td></td><td></td></tr><tr><td>Dydw i ddim yn teimlo’n gryf un ffordd neu’r llall</td><td>5</td><td>10</td><td>9</td></tr><tr><td>Rwy'n cefnogi'r cynnig</td><td>3</td><td>10</td><td>9</td></tr><tr><td>Dydw i ddim yn cefnogi’r cynnig</td><td>14</td><td>10</td><td>6</td></tr><tr><td></td><td>22</td><td>30</td><td>24</td></tr></table> Sylwadau Disgyblion: “Dydw i ddim yn hoffi'r syniad o ysgol Gymraeg newydd gan fod rhai plant yn y ffrwd Saesneg yn ffrindiau gyda phlant yn y ffrwd Gymraeg ac fe fyddan nhw'n colli eu ffrindiau os yw'r ysgol newydd yn cael ei hadeiladu”					Dydw i ddim yn teimlo’n gryf un ffordd neu’r llall	5	10	9	Rwy'n cefnogi'r cynnig	3	10	9	Dydw i ddim yn cefnogi’r cynnig	14	10	6		22	30	24
Dydw i ddim yn teimlo’n gryf un ffordd neu’r llall	5	10	9																		
Rwy'n cefnogi'r cynnig	3	10	9																		
Dydw i ddim yn cefnogi’r cynnig	14	10	6																		
	22	30	24																		

Cyf.	Sylwadau
	“Dydw i ddim yn meddwl ei fod yn syniad da gan fy mod yn ffrindiau gyda phlant yn Gelli sydd yn y ffrwd Saesneg ac fe fydden nhw'n colli eu ffrindiau yn y ffrwd Gymraeg” “Dydw i ddim yn siŵr fy mod yn hoffi'r syniad o ysgol Gymraeg oherwydd efallai y byddai fy mam eisiau i mi fynd i'r ysgol honno ond dydw i ddim eisiau gadael fy ysgol bresennol” “Dydw i ddim yn meddwl ei fod yn syniad da oherwydd efallai y bydd yn rhaid i blant adael eu hysgolion ac mae ysgolion Cymraeg yn Ninbych-y-pysgod a Hwlfordd eisoes” “Byddai'r ysgol newydd yn helpu'r Llywodraeth i gyrraedd eu targed” “Byddai gan bobl sy'n mynd i'r ysgol newydd eu hysgol eu hunain – dim ond i'r Gymraeg” “Bydd yr ysgol newydd yn cymryd llawer o le ym Mhenfro” “Dydw i ddim yn meddwl ei fod yn syniad da gan nad yw pobl yn siarad Cymraeg” “Rwy'n credu ei fod yn syniad da oherwydd gallwch ddysgu iaith newydd” “Dydw i ddim yn meddwl ei fod yn syniad da oherwydd efallai na fydd siaradwyr Saesneg yn gwybod beth mae pobl Cymru yn ei ddweud” “Rwy'n credu ei fod yn syniad da gan ei fod yn rhoi cyfle i chi ddysgu Cymraeg” “Rwy'n credu ei fod yn syniad da oherwydd gallwch ddeall siaradwyr Cymraeg”
Cwestiynau:	Ymgynghoriad â disgyblion ar Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg newydd yn ardal Penfro ar gyfer oedrannau 3-11 Ysgol Hafan Y Mor Nifer y disgyblion yn y grŵp: 28 (Blwyddyn 5 a 6)

Cyf.	Sylwadau								
	- Ble fydd yr adeilad newydd? - Pryd fydd yr ysgol newydd yn agor? Cynnig i adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd yn ardal Penfro <table border="1" data-bbox="604 738 1753 989"> <tr> <td data-bbox="604 738 1180 788"></td><td data-bbox="1180 738 1753 788"></td></tr> <tr> <td colspan="2" data-bbox="604 788 1180 831">Nid wyf yn teimlo'n gryf y naill ffordd neu'r llall: 1</td></tr> <tr> <td colspan="2" data-bbox="604 831 1180 909">Rwy'n cefnogi'r cynnig: 25</td></tr> <tr> <td colspan="2" data-bbox="604 909 1180 989">Nid wyf yn cefnogi'r cynnig: 2</td></tr> </table> Sylwadau Disgyblion: - Anodd i ddod o hyd i leoliad ar gyfer adeiladu'r ysgol newydd. - Ddim yn gwybod digon am yr ysgol. - Peth da oherwydd mae disgyblion yn gallu ffocysu ar un iaith yn unig. - Peth da oherwydd iaith Cymru yw Cymraeg ac felly mae'n bwysig bod cyfleoedd i sgwrsio gyda phlant a phobl eraill yn yr iaith Cymraeg, e.e. wrth gerdded lawr y stryd. - Bydd yr ysgol newydd yn helpu mwy o bobl i siarad Cymraeg. - Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion siarad Cymraeg trwy'r amser			Nid wyf yn teimlo'n gryf y naill ffordd neu'r llall: 1		Rwy'n cefnogi'r cynnig: 25		Nid wyf yn cefnogi'r cynnig: 2	
Nid wyf yn teimlo'n gryf y naill ffordd neu'r llall: 1									
Rwy'n cefnogi'r cynnig: 25									
Nid wyf yn cefnogi'r cynnig: 2									
	Ymgynghoriad â disgyblion ar Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg newydd yn ardal Penfro ar gyfer oedrannau 3-11								

Cyf.	Sylwadau								
	Ysgol Caer Elen (Secondary) Nifer y disgyblion yn y grŵp: 34 Cwestiynau: Cynnig i adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd yn ardal Penfro <table border="1" data-bbox="607 456 1753 746"> <tr> <td></td><td></td></tr> <tr> <td>Nid wyf yn teimlo'n gryf y naill ffordd neu'r llall</td><td>4</td></tr> <tr> <td>Rwy'n cefnogi'r cynnig</td><td>29</td></tr> <tr> <td>Nid wyf yn cefnogi'r cynnig</td><td>1</td></tr> </table> Sylwadau Disgyblion: - Hoffwn gweld Ysgol newydd Cymraeg ond beth bydd yn digwydd i'r athrawon? - Ble bydd yr Ysgol yn cael ei adeiladu?			Nid wyf yn teimlo'n gryf y naill ffordd neu'r llall	4	Rwy'n cefnogi'r cynnig	29	Nid wyf yn cefnogi'r cynnig	1
Nid wyf yn teimlo'n gryf y naill ffordd neu'r llall	4								
Rwy'n cefnogi'r cynnig	29								
Nid wyf yn cefnogi'r cynnig	1								